# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>21 MEHEFIN, 2023 am 2.00 o'r gloch yp | | WEDNESDAY,<br>21 JUNE, 2023 at 2.00 p.m. |
| CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AC VIRTUALLY THROUGH ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Sedd Wag/Vacant Seat (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**
**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Deryn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, y cofnodion canlynol:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill, 2023;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2023.

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2022/2023** (Tudalennau 11 - 44)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**5 CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - 2022/2023 : ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 45 - 52)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**6 ADRODDIAD CYNNYDD - PANEL SGRIWTINI ADDYSG**

Derbyn adroddiad llafar gan Gadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg.

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL - BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A YNYS MÔN** (Tudalennau 53 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**8 CYNLLUN RHEOLAETH CYRCHFAN** (Tudalennau 67 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblgu Economaidd.

**9 ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU CHWARTER 4 : 2022/2023 (BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU)** (Tudalennau 109 - 134)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**10 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 135 - 142)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 19 Ebrill 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John I Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Margaret M Roberts a Ken Taylor<br><br>Aelod Cyfetholedig - Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Adfywio (DGL) (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Datblygiad Economaidd (THJ) (ar gyfer eitem 5),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Trefor Ll Hughes MBE, Derek Owen<br>Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer);<br>Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai);<br>Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion);<br>Cynghorydd Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff);<br>Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 Mawrth, 2023, yn gofnod cywir.

## 4 STRATEGAETH GWELLA CANOL TREFI YNYS MÔN

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd ar Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, ac yn absenoldeb Arweinydd y Cyngor, dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid fod canol trefi yn y rhan fwyaf o drefi a dinasoedd ledled y DU wedi newid dros y blynyddoedd. Dywedodd fod Cynllun y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddar, yn cynnwys targed i 'wella bywiogrwydd a hyfywedd canol ein trefi' a 'bod pobl Ynys Môn, a'i chymunedau, yn mwynhau, yn diogelu ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i awdurdodau lleol ymdrin â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd. Aeth ymlaen i ddweud bod Archwilio Cymru wedi cynnal astudiaeth ar Adfywio Canol Trefi yng Nghymru, ac wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Medi 2021 yn cyflwyno sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Cafodd yr adroddiad hwn, ac ymateb y Cyngor, ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2022. Tynnodd y broses hon sylw at yr angen i'r Cyngor ddatblygu dull strategol ar gyfer gwella canol trefi. Mae rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o gydrannau, gan gynnwys grantiau cyfalaf a benthyciadau ar gyfer gwneud gwelliannau yng nghanol trefi. Mae nifer o strategaethau/cynlluniau adfywio canol trefi neu drefi wedi'u paratoi ar Ynys Môn yn y gorffennol, gyda'r rhan fwyaf yn cyd-fynd â chyfleoedd ariannu allanol penodol, ac mae nifer wedi'u paratoi ar gyfer Caergybi dros y blynyddoedd. Bellach, cynigir bod un strategaeth ar gyfer y sir gyfan, yn ymdrin â phob canol tref ar Ynys Môn, yn cael ei pharatoi, ac nad yw wedi'i chlymu ag unrhyw raglen neu gyllid allanol, ond yn hytrach, yn adlewyrchu anghenion ehangach y sir a'i threfi. Mae'r angen mwyaf yn y tair tref fwyaf sef Caergybi, Amlwch a Llangefni, ac mae Porthaethwy a Biwmares yn ymddangos yn fwy ffyniannus.

Aeth yr Aelod Portffolio ymlaen i ddweud, yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer yr argymhellion o fewn yr adroddiad, bydd proses ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu rhoi ar waith i gasglu safbwyntiau, sylwadau, a cheisio cefnogaeth ar gyfer y strategaeth arfaethedig, gyda'r bwriad o'i chwblhau a'i mabwysiadu yn ystod 2023. Defnyddir y broses ymgynghori hefyd i gasglu safbwyntiau, sylwadau ac argymhellion ar gyfer gwelliannau i ganol trefi unigol ac i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau siapio lleoedd unigol a/neu brosiectau perthnasol, yn dibynnu ar adnoddau.

Dywedodd y Rheolwr Adnewyddu fod trefi a chanol trefi Ynys Môn wrth wraidd gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr Ynys. Dywedodd bod y nifer sylweddol o siopau gwag yng nghanol tref Caergybi yn adlewyrchu problemau'r economi leol, a datblygiad y parc manwerthu ar gyrion y dref fel y brif ardal siopa. Dywedodd fod menter siopau gwag Caergybi wedi helpu busnesau

bach i ddechrau masnachu o siopau gwag, a bod hyn wedi gostwng y cyfraddau gwacter uchel blaenorol, ond yn ystod y pandemig, mae nifer y siopau gwag wedi mynd yn ôl i'r lefelau uchel blaenorol. Dywedodd fod nifer y siopau gwag yn Amlwch hefyd wedi cynyddu'n ddiweddar, sydd heb os yn adlewyrchu'r golled o ran gwaith yn yr ardal. Mae'r argymhelliad i droi gweddill yr unedau masnachol gweigion yn gartrefi yn cael ei annog, ac mae cyllid grant wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Rheolwr Adfywio hefyd y byddai ystyried llety gwyliau'n addas ar gyfer canol tref Caergybi.

Aeth y Rheolwr Adfywio ymlaen i ddweud nad oes digon o adnoddau staffio ar gael i sylweddoli'r anghenion gwaith er mwyn adfywio canol y trefi, ac mae cyllid grant yn cael ei ddarparu gan grantiau ariannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin tuag at recriwtio staff ychwanegol. Bydd ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn digwydd o fewn y strategaeth, a chwblheir ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2023 a ddefnyddir i lywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Lleoedd trefi unigol. Mae gan y Cynghorau Tref, a sawl sefydliad arall, rôl bwysig o ran gwella a rheoli canol trefi, a bydd angen iddynt fod ynghlwm â'r broses. Nodwyd fod aelodau Grŵp Adfywio Llangefni wedi trefnu ymweliad er mwyn gweld y gwaith yn mynd rhagddo gan bartneriaethau lleol ym Mlaenau Ffestiniog a Bethesda.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor drafod y canlynol:-

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch diffiniad 'tref' a 'chanol tref'? Dywedwyd y bydd yn rhaid i'r Awdurdod baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol agos, ac awgrymwyd y byddai'n gyfle i ganolbwyntio ar y dref a chanol y dref. Dywedwyd hefyd na fydd canol y trefi yn debyg i'r hyn a welwyd yn ystod y 60au a'r 70au. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oes un diffiniad penodol ar gyfer 'tref' na 'chanol tref', a nodwyd bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol, yn enwedig y polisi strategol ar gyfer canol trefi (PS15), yn dynodi Caergybi a Llangefni fel 'canolfannau gwasanaethau masnachol trefol', a bod Amlwch, Benllech, Biwmares, Porthaethwy, Llanfairpwll, Rhosneigr, y Fali a Chemaes yn 'ganolfannau gwasanaethau lleol'.
- Dywedwyd bod y rhan fwyaf o Ynys Môn yn ardal wledig gyda phentrefi bychain. Codwyd cwestiynau ynghylch y weledigaeth ar gyfer y pentrefi gwledig mawr a bach ar yr Ynys, h.y. Benllech, Moelfre a Phentraeth. Cynghorwyd y Pwyllgor bod rhaglen ddatblygu wledig wedi'i hariannu gan gyllid Ewropeaidd yn bodoli, a bod Menter Môn yn ei harwain. Gan y bydd y cyllid Ewropeaidd yn dod i ben, y Gronfa Ffyniant Gyffredin fydd y ffynhonnell grant, ac mae ceisiadau wedi'u cyflwyno i gefnogi prosiectau o fewn cymunedau gwledig. Mae nifer o grwpiau bach mewn ardaloedd gwledig wedi elwa o raglen y Gronfa Adfywio Cymunedol o ran darparu grantiau i gymunedau ledled y wlad. Nodwyd hefyd bod y Cyngor Sir yn aelod o Fforwm Gwledig CLILC, sy'n lobïo ar gyfer ardaloedd gwledig.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y cyfleoedd a heriau a wynebir wrth ddibynnu ar gyllid grant, y mae llawer yn ymgeisio amdano, i ddarparu'r rhaglenni? Dywedwyd wrth y Pwyllgor gan mai dim ond am amser byr mae cyllid grant ar gael, gall fod yn heriol pan mae angen recriwtio staff er mwyn cyflwyno'r rhaglen. Nodwyd fod cyllid hyblyg i gwblhau'r prosiect yn bwysig.
- Cyfeiriwyd at y gofyniad i fuddsoddi mewn trefi ar Ynys Môn. Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at ardal Porthladd Amlwch, a bod angen buddsoddi ac adfywio yn yr ardal. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch argaeledd buddsoddiad preifat i ariannu

mentrau rhaglen adfywio canol trefni Ynys Môn. Cynghorwyd y Pwyllgor fod y penderfyniadau sylweddol a wnaed gan randdeiliaid i leoli mewn trefi yn gatalydd ar gyfer adfywio canol trefi, fel y gwelwyd ym Mhorthaethwy. Dywedwyd fod yr ardal o amgylch y sgwâr ym Mhorthladd Amlwch wedi gwella'n weledol, a bod nifer o drigolion yn adnewyddu eu tai. Mae cwmni wedi'i gomisiynu i arolygu'r adeiladu mwyaf adfeiliedig yn Amlwch a Llangefni a bydd yn cael ei ddefnyddio i annog perchnogion i adnewyddu'r adeiladau hyn. Mae grant gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn gwella tu blaen adeiladau mewn dwy dref yn Amlwch. Gall cyllid grant Arfor hefyd fod yn fanteisiol o ran gwella trefi. Dywedodd y Rheolwr Adfywio fod Cyngor Tref Caergybi yn fodlon cynnal yr asedau sydd wedi'u gwella gan gyllid grant e.e. Toiledau Sgwâr Swift a'r Tŵr Gwylio.

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut fydd Grŵp Adfywio Cyngor Tref Llangefni yn cael ei gefnogi? Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr Adran Datblygiad Economaidd yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Adfywio Llangefni, ac mae'n rhaid ceisio cyllid grant er mwyn cwblhau gwelliannau yn y dref.
- Dywedwyd nad yw'r cyhoedd yng Nghaergybi'n ymwybodol o'r datblygiadau fydd yn deillio o'r Gronfa Ffyniant Gyffredinol, y Statws Porthladd Rhydd a Datblygiad y Morglawdd. Cynghorwyd y Pwyllgor fod trefniadau mewnol angen bod yn rymus oherwydd y datblygiadau yng Nghaergybi, a bydd angen ymgysylltu ymhellach gyda'r gymuned leol.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch aliniad gyda ffrydiau gwaith Siapio Lleoedd a chynlluniau i gryfhau'r seilwaith mewn cymunedau lleol, yn enwedig cyfleusterau gwefru ceir trydan. Cynghorwyd y Pwyllgor mai bwriad y strategaeth yw cynyddu nifer y pwyntiau gwefru ceir trydan sydd ar yr Ynys, ond mae'r cynnydd hwnnw'n dibynnu ar gyllid grant. Erbyn hyn, mae niferoedd y pwyntiau gwefru ceir trydan ar Ynys Môn, sy'n gymharol â'r boblogaeth, ymhlith yr uchaf.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys drafft Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn;**
- **Argymell y Strategaeth drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.**

## 5 PORTHLADDOEDD RHYDD YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd am Borthladd Rhydd Ynys Môn.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Datblygiad Economaidd, ar 23 Mawrth 2023, fod y Cyngor Sir wedi cael gwybod ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais am Borthladd Rhydd. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd y gwaith sylweddol wnaed gan Swyddogion y Cyngor, Stena Line a'r ymrwymiad i gyflwyno'r cynnig am y Porthladd Rhydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cynnig am statws Porthladd Rhydd wedi bod yn llwyddiannus yn sgil cwblhau achos busnes manwl. Cynhelir cyfarfodydd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â Stena Line, er mwyn egluro cyfrifoldebau, atebolrwydd a darparu rhagor o arweiniad. Aeth ymlaen i ddweud y bydd angen dechrau gwaith yn ystod y 6 mis nesaf er mwyn gallu rhyddhau'r £25m

o gyllid cyfalaf. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ddatblygiadau prosiectau eraill yng Nghaergybi, e.e. adfer y Morglawdd, Morlais, Hwb Hydrogen a bod Stena Line yn bwriadu clirio cyn safle Anglesey Aluminium. Dywedodd y bydd angen cynllunio strategol o fewn tref Caergybi, gan gynnwys meysydd gwasanaeth eraill, fel darpariaeth addysg ac iechyd, a sicrhau nad yw datblygiadau'n cael effaith andwyol ar breswylwyr.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor drafod y canlynol:-

- Dywedwyd fod cynllun y prosiect yn rhagweld y bydd rhwng 3,500 a 13,000 o gyfleoedd gwaith newydd yn cael eu creu dros gyfnod o 15 mlynedd. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau fydd ar waith i sicrhau eu bod nhw'n swyddi o ansawdd, a bod gan drigolion Ynys Môn y sgiliau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn? Cynghorwyd y Pwyllgor bod peth ansicrwydd ynghylch buddion y statws Porthladd Rhydd, a phwysleisiwyd bod y ffigwr o 13,000 o gyfleoedd gwaith yn berthnasol i ogledd Cymru gyfan, nid Ynys Môn yn unig. Pwysleisiwyd y bydd angen cwblhau gwaith gyda Stena Line a rhanddeiliaid rhanbarthol, partneriaeth sgiliau rhanbarthol a Llandrillo Menai, er mwyn galluogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd gwaith fydd yn deillio o'r Porthladd Rhydd.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch statws y drydedd bont ar draws y Fenai, a'r gwelliannau sydd eu hangen ar gyfer y rhwydwaith priffordd oherwydd y statws Porthladd Rhydd? Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod angen cryfhau gwytnwch a'r cysylltiadau rhwydwaith ledled yr Ynys, ac mae pwysau'n parhau ar Lywodraeth Cymru i ganiatáu'r drydedd bont ar draws Y Fenai.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch faint o gwmnïau sydd wedi mynegi diddordeb mewn adleoli ar yr Ynys oherwydd y statws Porthladd Rhydd? Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer o gwmnïau a sefydliadau wedi mynegi diddordeb gan gynnwys GE-Hitachi, Rolls Royce SMR, Bechel, BP Lightsource a phrosiect Morlais Menter Môn, pan gyflwynwyd y cynnig gwreiddiol. Dywedwyd, unwaith fydd y strwythurau llywodraethu ar waith, bydd trafodaethau gyda busnesau sydd â diddordeb yn parhau. Pwysleisiwyd ei bod hi'n bwysig denu busnesau a all greu gwaith tymor hir gwerthfawr. Mynegodd y Pwyllgor ei bod hi'n bwysig fod pobl ifanc yn cael cyfleoedd megis prentisiaethau gyda'r cwmnïau sydd wedi dangos diddordeb mewn adleoli ar yr Ynys, a dylid hysbysu pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yng ngogledd Cymru o'r cyfleoedd fydd ar gael. Dywedwyd hefyd bod angen cynnal trafodaethau er mwyn ailddechrau'r cwnni awyrennau o Gaerdydd i Ynys Môn. Dywedodd y Prif Weithredwr y manteisir ar bob cyfle i drafod y cwmni awyrennau o Gaerdydd i Ynys Môn gyda Llywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud bod angen cynnwys cynllun sgiliau a chyflogaeth o fewn Achos Busnes y Porthladd Rhydd. Dywedodd fod y gwaith partneriaeth rhwng Llandrillo Menai, MSparc a'r ysgolion uwchradd yn bwysig iawn o ran deall y cyfleoedd gwaith posibl a all y statws Porthladd Rhydd ei gynhyrchu. Cwestiynodd y Pwyllgor gapasiti hyfforddiant Llandrillo Menai o ran mynd i'r afael â'r sgiliau fydd eu hangen i lenwi'r swyddi a fydd yn cael eu creu gan y Porthladd Rhydd ar gyfer pobl leol. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod Strategaeth Sgiliau ar waith yng ngogledd Cymru, sy'n gyrru'r buddsoddiad i greu'r capasiti o ran hyfforddiant mewn colegau ledled gogledd Cymru. Dywedodd, pan fydd y prosiectau'n cael eu datblygu, bydd angen rhoi Cynllun Sgiliau ar waith. Mae'n rhaid i'r bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gwaith, ac y gallent gyfoethogi eu sgiliau er mwyn gallu

ymgeisio ar gyfer y swyddi fydd ar gael, a gallu datblygu o fewn eu gyrfaoedd yn y dyfodol yn dilyn hynny.

- Cyfeiriwyd at gau Ffatri 2 Sisters yn Llangefni'n ddiweddar, gan golli 700 o swyddi, a'r effaith ar y gymuned a'r Ynys. Gofynnwyd cwestiynau am y math o gyfleoedd gwaith fydd y deillio o'r statws Porthladd Rhydd, a'r effaith a all hyn ei gael ar allu trigolion lleol i brynu tai a'r effaith ar yr iaith Gymraeg? Sicrhawyd y Pwyllgor fod anghenion lleol yr Ynys yn cael eu hystyried, a bod trigolion a busnesau lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r statws Porthladd Rhydd. Yn hanesyddol, mae cyfleoedd gwaith o achos Porthladdoedd Rhydd ledled y DU wedi bod ym meysydd megis gweithgynhyrchu, dosbarthu a gwaith mewn warws. Fodd bynnag, bydd yr elfen ynni ar Ynys Môn yn denu cyflogaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr iaith Gymraeg yn bwysig, a dywedodd fod yr iaith wedi bod yn berthnasol ym mhob trafodaeth sydd wedi digwydd ynghylch y Porthladd Rhydd.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd modd sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd â'r rhaglen Ynys Ynni a Chynllun y Cyngor 2023-2028, ac yn cyfrannu atynt? Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod amrywiaeth ehangach o fusnesau, yn enwedig y rheiny sydd â chadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig â gweledigaeth ehangach y rhaglen Ynys Ynni, sydd wedi cefnogi'r cynnig Porthladd Rhydd yn ogystal ag ail-sefydlu'r bont dir rhwng Dulyn ac Ewrop. Nodwyd fod y dyheadau o fewn Cynllun y Cyngor wedi'u cynnwys o fewn y cynnig Porthladd Rhydd.
- Gofynnwyd a oes pryderon y bydd busnesau o ardaloedd eraill yn adleoli yng Nghaergybi ac yn cael effaith ar economi'r ardaloedd hyn? Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod dadleoliad cwmnïau wedi achosi pryderon sydd wedi'u trafod yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynnig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod y statws Porthladd Rhydd yn ymestyn y tu hwnt i ardal Gaergybi. Nodwyd fod Swyddogion yn hyderus y bydd busnesau lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd yn deillio o'r statws Porthladd Rhydd, ond mae angen denu busnesau eraill i ddarparu ar gyfer y sgiliau cynhyrchu er mwyn sicrhau bod yr Ynys yn datblygu.
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad yw pob prif risg strategol ar gyfer y cynnig wedi'u nodi yn yr adroddiad. Gofynnwyd sut fydd yr Awdurdod yn rheoli a lliniaru'r risgiau hyn, a beth fydd y broses sgriwtini? Dywedwyd wrth y Pwyllgor y cydnabyddir y bydd angen eglurhad a sicrwydd pellach gan y ddwy Lywodraeth wrth i'r cynnig ddatblygu drwy'r broses Achos Busnes. Bydd angen cytuno ar eglurder rolau a chyfrifoldebau gyda Stena Line. Bydd angen llywodraethu grymus, rôl tymor hir ar gyfer y Cyngor ac adnoddau er mwyn ei ddarparu mewn modd cydsyniol ac effeithiol. Mae arbenigedd allanol ychwanegol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y cynnig. Unwaith fydd y Porthladd Rhydd wedi'i sefydlu, bydd adborth cyson yn cael ei gasglu gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini er mwyn sicrhau bod trefniadau monitro llym ar waith.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Fod y Pwyllgor Sgriwtini'n cydnabod rôl y Cyngor o ran datblygu a chyflwyno'r cynnig Porthladd Rhydd llwyddiannus;**
- **Nodir camau nesaf o ran datblygiad Achos Busnes y Porthladd Rhydd, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Margaret M Roberts a Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Pennaeth Democrataidd, Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghroydd Margaret M Roberts – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETHOLIAD IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 21 Mehefin 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2022-23 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cynnig yr adroddiad blynyddol i graffu arno cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig i'w gyhoeddi |
| **Cadeirydd sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod(au) portffolio:** | Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg |
| **Pennaeth gwasanaeth:** | Dylan Williams, Prif Weithredwr |
| **Awdur yr adroddiad:**<br>**Rhif ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752520<br>FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Perthnasol i bob aelod etholedig |

## 1. Argymhelliad

Gwahoddir y Pwyllgor i graffu a gwneud sylwadau ar yr adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg 2022-23 cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig gan yr aelod portffolio i'w gyhoeddi.

## 2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau corfforaethol eraill

- Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028 yn adnabod yr iaith Gymraeg fel maes blaenoriaeth ar gyfer tymor presennol y Cyngor. Mae'n cynnwys ymrwymiadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon ac i ddatblygu defnydd o'r iaith yn ein gweinyddiaeth.
- Un o feysydd blaenoriaeth Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 yw y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith.
- Cymeradwyodd y Cyngor llawn ein polisi iaith Gymraeg ar 12 Mai 2016. Mae'r adroddiad blynyddol yn disgrifio sut cafodd y polisi ei weithredu yn ystod 2022-23.

## 3. Egwyddorion fel canllaw ar gyfer sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo aelodau wrth graffu ar y pwnc:**

**3.1 Ffocws ar y cwsmer/dinesydd**
Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

**3.2 Ffocws ar werth**
Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd

**3.3 Ffocws ar risg**
Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4 Ffocws ar berfformiad ac ansawdd**
Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd

**3.5 Ffocws ar lesiant**

Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**3.6 Ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg**

Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

## 4. Cwestiynau sgriwtini allweddol

i. A oes unrhyw risgiau penodol sy'n codi consyrn am gydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion safonau'r Gymraeg?

ii. Pa heriau sy'n ein hwynebu o ran cynyddu defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg gan ddinasyddion Ynys Môn?

iii. Beth yn fwy gallwn ni ei wneud i gefnogi swyddogion i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg?

iv. Oes unrhyw wybodaeth ychwanegol fyddai'n ychwanegu gwerth i'r adroddiad blynyddol?

## 5. Cefndir / cyd-destun

O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 rhaid i'r Cyngor baratoi adroddiad blynyddol yn egluro sut yr aethom ati i gwrdd â safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu
- Camau gweithredol i hyrwyddo safonau'r Gymraeg
- Hunan reoleiddio
- Gwaith datblygol i hybu defnydd o'r Gymraeg gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau, ein swyddogion ac yn ein gweinyddiaeth
- Adroddiad ar berfformiad – data cwynion, cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

## 6. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg)

### 6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Y prif ystyriaeth cydraddoldeb yw hygyrchedd yr adroddiad blynyddol a'r angen i'w wneud ar gael i gynulleidfa eang. Cynulleidfa sy'n cynnwys unigolion sy'n perthyn i'r grwpiau a warchodir dan Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n bwysig bod arddull yr adroddiad yn addas ac yn rhwydd i'w ddilyn.

Yn unol â'n harfer bydd yr adroddiad ar gael mewn fformatau eraill, yn cynnwys braille a sain, drwy gais. Mae hyn wedi ei nodi'n glir tu mewn i glawr y ddogfen. Bydd hefyd ar gael ar ffurf copi caled yn adeiladau'r Cyngor i unrhyw un sy'n gofyn amdano.

Mae gofal arbennig wedi ei gymryd i sicrhau bod yr adroddiad yn rhwydd i'w ddarllen, bod yr arddull a'r ieithwedd yn addas ac yn gynhwysol, a'i fod yn cwrdd â gofynion hygyrchedd digidol.

Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i greu ymwybyddiaeth o'r adroddiad, ei rannu â phartneriaid perthnasol a pharatoi deunyddiau hyrwyddo sy'n crynhoi'r prif negeseuon.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Amherthnasol. Nid yw cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg yn benderfyniad strategol.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Yn ogystal ag ystyried cydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion y safonau, mae paratoi'r adroddiad blynyddol yn gyfle pwysig i ystyried sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith trwy ein gwasanaethau cyhoeddus ac o fewn ein gweinyddiaeth. Gweler yr adroddiad am y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn.

Yn unol â gofynion y safonau a'n polisi iaith Gymraeg mae'r adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hyn wedi ei nodi'n glir yn y fersiwn Saesneg.

**7. Goblygiadau ariannol**

Amherthnasol.

**8. Atodiadau**

Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2022-23.

**9. Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Polisi Iaith Gymraeg
- Llunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg: Dogfen gyngor arferion da

**POLISI A'R GYMRAEG**

# Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2022-2023

Sut aethom ati i gwrdd â'r safonau ac i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg | This publication is available in English

# Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg

**Trosolwg**
Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar safonau'r Gymraeg. Mae'n gwerthuso sut aethom ati i gydymffurfio â'r safonau, hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y cyfnod dan sylw.

Fe'i paratowyd yn unol â gofynion Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Yn benodol safonau 158, 164 a 170.

Mae hefyd yn gweithredu fel adroddiad ar gynnydd yn erbyn nod ein polisi iaith (cymal 3.2.4) o sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith ein gweinyddiaeth fewnol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

**Mwy o wybodaeth**
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ffreuer Owen
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.
**This publication is also available in English.**

**Dogfennau cysylltiedig**
Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026. I gyd ar gael ar ein gwefan.

# Cynnwys

Rhagair........ 1
Crynodeb gweithredol ........ 2
Cefndir........ 3
Edrych yn ôl dros y flwyddyn........ 4
Safonau cyflenwi gwasanaethau........ 7
Safonau llunio polisi ........ 12
Safonau gweithredu ........ 14
Edrych ymlaen ........ 19
Atodiad 1: Data cwynion........ 21
Atodiad 2: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio ........ 23

# Rhagair

Roedd hon yn flwyddyn nodedig arall yn ein hanes. Yn dilyn etholiad llywodraeth leol Mai 2022, daeth Cyngor newydd i rym yn cynnwys sawl wyneb newydd ymhlith yr aelodau etholedig. Mae ein gweledigaeth gadarn ar gyfer y Gymraeg, fodd bynnag yn parhau.

Prif uchafbwynt y flwyddyn oedd cymeradwyo cynllun corfforaethol newydd am dymor pum mlynedd y Cyngor. Cynllun y Cyngor yw’r brif ddogfen strategol fydd yn dylanwadu ac yn llywio ein holl gynlluniau dros y blynyddoedd nesaf. Roedd ei baratoi yn dasg sylweddol gafodd ei harwain gan ymgyrch ymgysylltu sylweddol â phobl Ynys Môn. Rydym yn arbennig o falch bod y Gymraeg wedi ei hadnabod fel un o chwe maes blaenoriaeth y cynllun, ynghyd â:

- Gofal Cymdeithasol a Llesiant
- Addysg
- Tai
- Economi
- Newid Hinsawdd

Mae gosod y Gymraeg gytras â’r blaenoriaethau hyn yn dysteb o’n hymrwymiad iddi. Gwyddwn o'r gwaith ymgynghori bod yr iaith yn bwysig i bobl yr ynys. Felly, mae’n gwbl addas bod y Gymraeg yn ystyriaeth sy’n ganolog i weledigaeth y cynllun sef ‘creu Ynys Môn fydd yn llewyrchus a lle gall pobl ffynnu’.

Hefyd, dangosodd ganlyniadau Cyfrifiad 2021 pa mor bwysig yw dyfalbarhau yn ein hymdrechion i gynnal y Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau. Fel un o brif gyflogwyr yr ardal, gwyddom fod gennym gyfrifoldeb i osod esiampl i eraill drwy roi’r Gymraeg wrth wraidd ein hunaniaeth a’n harferion. Mae’r adroddiad hwn yn gipolwg o’n gwaith bwriadus a pharhaus dros y flwyddyn ddiwethaf.



**Cynghorydd Llinos Medi**
Arweinydd



**Dylan J. Williams**
Prif Weithredwr

# Crynodeb gweithredol

**Pwrpas yr adroddiad**
Er mai dangos ein cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg yw prif bwrpas yr adroddiad hwn, mae'n gyfle i ni adlewyrchu ar y flwyddyn ac ystyried sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Mae hefyd yn gyfle pwysig i gydnabod gwaith arbennig ein swyddogion sy'n cynnal ein safon uchel o wasanaethau Cymraeg. Dyma rai o'r llwyddiannau:

- Y Gymraeg yn flaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor 2023-2028
- Tystiolaeth gadarnhaol o gynnig dewis iaith yn y sector gofal
- Arfer dda o gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg
- Fy Nghyfrif Môn yn cynnig mwy o sicrwydd dewis iaith
- Cyfeiriad e-bost Cymraeg @ynysmon.llyw.cymru i bawb
- Canmol cefnogaeth i wella sgiliau Cymraeg ein staff

**Gair am ein gwasanaethau Cymraeg**
"Gwelsom dystiolaeth gyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y 'Cynnig Gweithredol' i siarad Cymraeg, a bod dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith."

**Arolygiaeth Gofal Cymru**

"Mae'n bleser cerdded i mewn i'r tŷ a chlywed y gofalwyr yn canu caneuon ac emynau Cymraeg oherwydd eu bod yn deall bod y sain yn tawelu [yr unigolyn sy'n derbyn eu gofal]."

**Anwylyn unigolyn sy'n derbyn gofal**

# Cefndir

1. **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd arnom i gwrdd â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r safonau'n egluro sut mae disgwyl i ni ddefnyddio neu ystyried yr iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Egwyddorion sylfaenol y safonau yw:


    - na ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
    - y dylem hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r iaith.

2. Derbyniom **hysbysiad cydymffurfio** gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015. Dyma'r ddogfen sy'n nodi'r union safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Mae **160 o safonau** i gyd wedi eu gosod arnom. Gallwch weld eu manylion, a darllen mwy am ein trefniadau i gwrdd â nhw, ar ein gwefan.

3. Ein **polisi iaith Gymraeg** sy'n egluro sut y byddwn yn gweithredu'n unol â gofynion y safonau. Cafodd ei fabwysiadau'n fuan wedi i'r safonau ddod i rym yn 2016. Mae'n dilyn yr egwyddor bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yn ein gwaith a'n gweinyddiaeth. Mae hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu'r defnydd o'r iaith oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor.

4. Ochr yn ochr â'n polisi iaith a'r safonau eu hunain, rydym yn cyhoeddi **adroddiad blynyddol** sy'n disgrifio sut yr ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys data penodol y mae'n rhaid i ni adrodd arno'n flynyddol am gwynion, sgiliau Cymraeg ein swyddogion, hyfforddiant a swyddi a hysbysebwyd gennym. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn llawn yn yr atodiadau.

5. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan ein Tîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys ein prif weithredwr, dirprwy a'n cyfarwyddwyr. Craffwyd arno'n ffurfiol gan ein Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio) ac fe'i gefnogwyd gan ein Pwyllgor Gwaith. Cafodd ei gymeradwyo'n derfynol gan yr aelod portffolio perthnasol.




6. Ein Rheolwr Polisi a'r Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dydd i ddydd am y safonau ac am hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Y Prif Weithredwr yw'r aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth sy'n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith. Mae gennym hefyd aelod portffolio sy'n cymryd cyfrifoldeb am y Gymraeg ar y Pwyllgor Gwaith Mae Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n cynnwys cynghorwyr a swyddogion allweddol, yn cadw trosolwg dros ein defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i hybu'r iaith ym mhob agwedd o'n gwaith.

# Edrych yn ôl dros y flwyddyn

Gwelodd y cyfnod sawl datblygiad pwysig i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg. Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o'r uchafbwyntiau.

## Cynllun y Cyngor

Y prif ddatblygiad eleni o safbwynt ein hymrwymiad i'r Gymraeg oedd gwneud yr iaith yn flaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor. Dyma'r ddogfen strategol fydd yn dylanwadu ac yn llywio ein cynlluniau dros dymor y Cyngor presennol o 2023-2028. Cafodd ei baratoi yn dilyn gwaith ymgysylltu sylweddol.

Helpodd farn pobl Ynys Môn ni i adnabod y chwe maes y byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth iddynt dros y bum mlynedd nesaf. O ran y Gymraeg, byddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith. Mae hyn yn golygu:

- Cynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel.
- Gweithredu ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg.
- Cydweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Cefnogi ein staff a'n cynghorwyr i gynyddu eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

Mae gosod y Gymraeg wrth wraidd ein cynlluniau yn dangos pa mor bwysig yw'r iaith i ni fel Cyngor a chyflogwyr, a'r balchder a deimlwn mewn bod yn ddarparwr gwasanaethau Cymraeg o safon.

## Arolygiad gwerthuso perfformiad gwasanaethau oedolion a phlant

Ym mis Hydref 2022, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru archwiliad o berfformiad y gwasanaethau. Un o'r canfyddiadau nodedig oedd ymagwedd bositif at ddarparu gwasanaethau'n Gymraeg. Mae'n nodi:

> Gwelsom dystiolaeth gyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y 'Cynnig Gweithredol' i siarad Cymraeg, a bod **dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith**.

Gwyddom fod cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan hanfodol o ofal o safon sy'n seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Dyma pam fod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cydnabod y dylai pobl allu mynegi eu hunain yn yr iaith y maent fwyaf hyderus ynddi wrth ddelio â ni (t. 26).

Adroddom y llynedd am arfer effeithiol gan y gwasanaethau oedolion a phlant o gadw cofnod cynhwysfawr o ddewis iaith er mwyn paru siaradwyr Cymraeg gyda defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg. Yn dilyn derbyn cydnabyddiaeth Arolygiaeth Gofal Cymru, bydd y gwasanaethau'n adeiladu ar eu gwaith da ac yn ystyried sut y gellid cryfhau trefniadau ar gyfer nodi'r iaith y dymuna bobl gyfathrebu ynddi'n ysgrifenedig.

Gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Fy Nghyfrif Môn

Ddiwedd y flwyddyn fe lansiom Fy Nghyfrif Môn, sef ein system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd. Gallwch ei ddefnyddio ar gyfrifiadur, gliniadur, tabled neu ffôn clyfar i wneud ceisiadau am wasanaethau fel:

- Casglu gwastraff
- Cyflwyno cais cynllunio
- Ymgeisio am le mewn ysgol
- Talu treth Cyngor

Mae'n gofyn i gwsmeriaid nodi eu dewis iaith wrth greu cyfrif, ond hefyd yn holi am ddewis iaith ar gyfer derbyn ateb i bob cais unigol. O dderbyn y cais, rhaid i'r swyddog cyfrifol ei ateb yn unol â dewis y cwsmer, naill ai'n Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Trwy gymell y swyddog i ateb yn newis iaith y cwsmer mae Fy Nghyfrif Môn yn rhoi gwell sicrwydd i ni ein bod yn cydymffurfio â'r safonau ac yn cynnig gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr.

Mae'r ffaith bod y system dan reolaeth lawn ein tîm Gwasanaethau Digidol hefyd yn caniatáu i ni ymateb yn well pan fydd pethau'n mynd o'i le. Gwyddom o wahanol gwynion bod problemau'n codi o bryd i'w gilydd gyda gwasanaethau digidol. Mae gallu datrys problemau ar unwaith, heb ddibynnu ar gwmni trydydd parti efallai nad ydynt yn deall ein dyletswyddau iaith Gymraeg, yn ddatblygiad pwysig i ni.

## Hunaniaeth gorfforaethol

Adroddom y llynedd ar y gwaith o ymgorffori'r Gymraeg yn ein hunaniaeth gorfforaethol ddigidol trwy newid i'r parth gwefan www.ynysmon.llyw.cymru. Bellach mae gan bob aelod o'n staff gyfeiriad e-bost sy'n defnyddio'r un parth.

Aethom ati i wneud y newid hwn mewn camau er mwyn lleihau'r baich a'r risg i'n gwasanaethau. Yn gyntaf, newidiom gyfeiriad y wefan ar 1 Mawrth 2022 gyda'r cyfeiriadau e-bost yn dilyn ym mis Mehefin 2022. Trwy gynnal yr hen gyfeiriadau e-bost am gyfnod, cafodd y risg o golli negeseuon ei liniaru.

Mae un cam ar ôl, sef cynnwys ein cyfeiriad gwefan ac e-bost newydd yn ein deunyddiau a'n cyhoeddiadau. Mae hwn yn waith parhaus fydd yn cael ei gyflawni fel mae gwahanol ddeunyddiau'n cael eu diweddaru neu'n cyrraedd diwedd eu hoes. Bydd ei gwblhau'n golygu bod y Gymraeg yn cael ei hadlewyrchu ym mhob agwedd o'n hunaniaeth gorfforaethol ddigidol.

## Gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn ffodus bod cymaint o’n partneriaid ar Ynys Môn yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith. Gwyddwn fod cydweithio, dylanwadu a rhannu arbenigedd yn hollbwysig i ddatblygiad y Gymraeg yn ein hardal.

Un enghraifft amlwg o weithio mewn partneriaeth er mwyn hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio’r iaith yw ein gwaith gyda’n hysgolion. Derbyniodd ein gwasanaeth Dysgu arolwg cadarnhaol gan Estyn eleni oedd yn cydnabod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein hysgolion:

> Mae’r gwaith i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn mynd rhagddo, gyda nifer o elfennau, fel y gefnogaeth i hwyrddyfodiaid, yn **arfer dda yn yr awdurdod**.

Ar gais yr arolygiaeth, bydd y gwasanaeth yn paratoi astudiaeth achos ar ei waith i gryfhau’r Gymraeg er mwyn rhannu ag eraill ar wefan Estyn. Gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn ar y wefan.

Mae **Fforwm Iaith Ynys Môn** hefyd yn gryfder parhaol i ni. Cyfarfu’r fforwm yn rheolaidd dros y flwyddyn ac roeddem yn falch o gynnal dau o'r cyfarfodydd yn ein swyddfeydd. Cawsom gyfle i glywed gan sawl un o'r partneriaid am eu gwaith i gryfhau’r iaith yn eu meysydd, yn ogystal â rhannu rhai o’n harferion ninnau. Roedd cyfraniadau gan wasanaethau’r Cyngor yn cynnwys:

- Adfywio a datblygu’r economi
- Gwasanaeth ieuenctid
- Polisi a’r Gymraeg
- Eitem reolaidd ar addysg gan y gwasanaeth Dysgu

Annog cydweithio rhwng y partneriaid yw un o brif amcanion y fforwm. Mae’r cynllun gweithredu blynyddol yn cynnwys sawl prosiect cydweithredol i gyd â’r nod o hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio’r iaith.

Gallwch ddarllen mwy am waith y fforwm ar ein gwefan.

# Safonau cyflenwi gwasanaethau

Dyma'r safonau'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn delio â phobl Ynys Môn. Mae 77 ohonynt i gyd wedi eu gosod arnom. Ymysg pethau eraill, maent yn sôn am ddelio â phobl dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, ein cyhoeddiadau â'n presenoldeb ar-lein.

## Rheoli perfformiad

**Porth Polisi**
Eleni cafodd dealltwriaeth ein staff o ofynion y safonau cyflenwi gwasanaethau ei brofi. Mae'r Porth Polisi, sef system rheoli perfformiad electronig, yn rhan bwysig o'n trefniadau llywodraethu. Ei bwrpas yw rhannu gwybodaeth am bolisïau allweddol a chaniatáu i ni fonitro pwy sydd wedi ei darllen a'i derbyn. Mae safonau'r Gymraeg yn un o'r meysydd corfforaethol allweddol caiff ei gyflwyno bob dwy flynedd.

Ar 23 Mawrth eleni, cafodd crynodeb o ofynion y safonau ei rannu. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am:

- gynnig dewis iaith wrth ddelio â phobl ar y ffôn ac wyneb yn wyneb;
- anfon gohebiaeth a pharatoi dogfennau; ac
- arddangos posteri a deunyddiau eraill.

Roedd **981** (96%) o'r staff yr oedd disgwyl iddynt gwblhau'r dasg hon wedi gwneud hynny ar y cyfrif diweddaraf. At ei gilydd, roedd dealltwriaeth o ofynion y safonau'n dda. Fodd bynnag, dangosodd y canlyniadau bod angen i ni godi ymwybyddiaeth o un gofyniad penodol, sef sicrhau bod sgyrsiau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd os mai dyna ddewis y cwsmer.

Dewisom y cwestiwn ar baratoi dogfennau yn ofalus. Roedd hyn er mwyn ymateb i gais gan Gomisiynydd y Gymraeg i godi ymwybyddiaeth o ofynion **safon 49**. Dyma'r safon sy'n dweud bod angen i'n holl ddogfennau Saesneg nodi'n glir eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg.

**Anwythiad corfforaethol**
Croesawom **145** aelod newydd o staff yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd bob un ohonynt gyflwyniad ar ofynion y safonau cyflenwi gwasanaethau fel rhan o'u hanwythiad corfforaethol. Roedd cyfarfod â chydweithwyr newydd hefyd yn gyfle i'r tîm Polisi a'r Gymraeg rannu adnoddau iaith gwaith, sef bathodyn, llofnod e-bost a chefndir cyfarfod rithiol i ddangos i eraill eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.

Yn ychwanegol eleni, derbyniodd pob un o'n **35** cynghorwyr wahoddiad i sesiwn ymwybyddiaeth iaith gan ein Rheolwr Polisi a'r Gymraeg. Cafodd yr hyfforddiant ei gynnal yn rhithiol ar wahanol ddyddiadau ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am ofynion y safonau a'r disgwyliadau ar aelodau etholedig.

**Arfer effeithiol**
Mae esiamplau o arfer effeithiol gan wasanaethau sy'n ati'n rhagweithiol i reoli eu perfformiad eu hunain yn cynnwys:

Gwasanaeth rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd (CRM) ond yn caniatau swyddogion ateb ymholiadau yn newis iaith y cwsmer

Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal arolwg siopwr cudd o wasanaethau ffôn

Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadw cofnod cynhwysfawr o ddewis iaith er mwyn paru siaradwyr Cymraeg gyda defnyddwyr gwasanaethau

Tîm Gwasanaethau Digidol yn atal cyhoeddi unrhyw gynnwys di-Gymraeg ar ein gwefan

Pencampwyr iaith Gymraeg y gwasanaeth Tai yn helpu prawf ddarllen gwaith eu cydweithwyr

**Cyfieithu**
Fel arfer, mae cefnogaeth y gwasanaeth Cyfieithu'n hanfodol er mwyn cwrdd â'n dyletswyddau o dan y safonau. Cyfieithodd y tîm dros **ddwy filiwn o eiriau** eleni a darparodd wasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn **267 o gyfarfodydd**. Parhaodd y llwyth gwaith i fod yn uchel, ond cafodd llawer iawn ei gyflawni unwaith eto yn cynnwys cwblhau'r gwaith o uwchraddio'r offer cyfieithu ar y pryd yn siambr y Cyngor a'n hystafell bwyllgor.

| 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|
| 2,231,916 | 2,204,718 |
| Geiriau gyfieithwyd | Geiriau gyfieithwyd |

## Gwirio uniongyrchol

**Arolygon cydymffurfiaeth**
Cynhaliodd ein Swyddog Hyrwyddo Polisi a'r Gymraeg arolygon siopwr cudd o'n derbynfeydd eleni. Roedd hyn yn golygu ymweld â'r derbynfeydd canlynol er mwyn profi'r gwasanaeth Cymraeg ar gael:

- Archifau Ynys Môn
- Canolfannau ailgylchu Penhesgyn a Gwalchmai
- Canolfan Fusnes Môn
- Canolfannau hamdden Porthaethwy, Plas Arthur, Amlwch a Chaergybi
- Canolfan J. E. O'Toole
- Cyswllt Môn (derbynfa ein prif swyddfa)
- Llyfrgelloedd Amlwch, Benllech, Biwmares, Caergybi, Llangefni, Porthaethwy a Rhosneigr

Edrychodd y swyddog am dystiolaeth bod poster dewis iaith wedi arddangos, bod staff yn gwisgo bathodyn iaith gwaith ac yn defnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol gyda chwsmeriaid.

At ei gilydd, roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol gyda'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n eang dros yr ystod o dderbynfeydd. Nodwyd rhai gwahaniaeth rhwng derbynfeydd mwy traddodiadol a chorfforaethol eu natur o gymharu â lleoliadau gwasanaeth, fel y canolfannau ailgylchu. Roedd y canfyddiadau'n awgrymu bod gennym waith pellach i'w wneud i sicrhau bod bathodynnau iaith gwaith yn cael eu defnyddio'n eang gan swyddogion yn y lleoliadau hyn.

Aethom ati i ddosbarthu posteri dewis iaith er mwyn adfer cydymffurfiaeth yn y lleoliadau hynny lle nad oedd poster neu arwydd yn croesawu defnyddio'r Gymraeg.

## Deall profiadau defnyddwyr

**Cyswllt Cyntaf: Prosiect ymchwil Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn**
Cawsom gyfle eleni i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill y rhanbarth i ddysgu mwy am yr hyn sy'n ysgogi defnyddwyr ein derbynfeydd i ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio. Daeth aelodau Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn – sy'n cynnwys ni Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Brifysgol Betsi Cadwaladr, Prifysgol Bangor, Grŵp Llandrillo Menai, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac eraill – at ein gilydd fel rhan o brosiect arloesol 'Cyswllt Cyntaf'.

Gyrrwyd y prosiect gan gonsyrn cyffredin ymysg aelodau'r Bwrdd nad yw rhai siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith efo ni, ac awydd i wybod beth allem ei wneud i newid hynny. Felly, fe weithiom gydag arbenigwyr **Iaith Cyf.** i arsylwi ar arferion ymwelwyr â rhai o'n derbynfeydd poblogaidd.


Un o brif ganfyddiadau'r gwaith oedd bod gan ein staff rôl allweddol i'w chwarae mewn creu awyrgylch ddwyieithog a chroesawgar. Gyda chymorth Iaith Cyf. fe wnaethom baratoi canllaw cyflym i'w cefnogi. Mae'n cynnwys 'top tips' fel atgoffa staff bod siarad yr iaith gyda chydweithwyr yn arwydd clir i gwsmeriaid bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Mae'r canllaw a hyfforddiant ar ei gynnwys wedi ei rannu â staff ein derbynfeydd. Bydd yn ein helpu i gwrdd â gofynion **safon 81** sy'n gosod dyletswydd arnom i **hybu ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg**.

**Cwynion a chanmoliaeth**
Derbynion bedair cwyn eleni oedd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau. Un gŵyn yn llai na'r nifer derbyniom y llynedd.

| 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|
| 5 | 4 |
| Nifer y cwynion | Nifer y cwynion |

**Ffigwr: Cwynion safonau cyflenwi gwasanaethau yn ôl pwnc**




Roedd mwyafrif y cwynion eleni (dwy) am ohebiaeth ac yn **creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safon 1**. Derbyniodd un achwynydd neges e-bost yn Saesneg yn cydnabod derbyn cais am gasgliad gwastraff clytiau. Roedd hyn yn fethiant gan ein system reoli cysylltiadau cwsmeriaid i nodi'r dewis iaith ac fe ymddiheurom i'r achwynydd. Cododd ein tîm Gwasanaethau Digidol y mater gyda darparwr y system wnaeth wneud yn siŵr bod pob cais yn cael ei gydnabod yn ddwyieithog.

Ers mis Mawrth 2023 mae gennym system reoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd sy'n golygu bod gan ein tîm Gwasanaethau Digidol reolaeth lawn dros y gwasanaeth. Mae hyn yn gwneud parchu dewis iaith ein cwsmeriaid a datrys problemau technegol sy'n codi o bryd i'w gilydd yn haws.



Derbyniodd achwynydd arall e-bost gennym oedd yn cynnwys cyfeiriad at wefan nad oedd ar gael yn Gymraeg. Er nad ein cyfrifoldeb ni oedd y wefan, fe ymddiheurom i'r achwynydd am y sefyllfa.

Roedd un gŵyn am wasanaeth ffôn ac yn pryderu bod neges wrth ddisgwyl i gysylltu yn aneglur yn Gymraeg. **Creodd hyn amheuaeth o fethiant i gwrdd â safon 22**. Cafodd y mater gywiro ar unwaith gan ein tîm Cyfathrebu.

Cwyn am ddefnydd o'r Saesneg gan hyfforddwr canolfan hamdden oedd yr olaf. **Roedd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safon 36** sy'n dweud na ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol mewn digwyddiadau cyhoeddus, yn cynnwys digwyddiadau mewn canolfannau hamdden. Cafodd hon ei datrys drwy drafod â'r aelod staff a chynnig cefnogaeth i roi hwb i'w sgiliau Cymraeg. Yn dilyn hyn cysylltodd un o ddefnyddwyr y ganolfan hamdden â ni i ganmol ymdrech yr hyfforddwr.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu ar ac yn dysgu o gwynion am ein defnydd o'r Gymraeg, fe wnaethom baratoi adroddiad cydymffurfiaeth chwarterol i’w roi gerbron Grŵp Hyrwyddo’r Gymraeg. Yn ogystal â rhoi sylw i gwynion, ac unrhyw waith gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae’r adroddiad yn nodi’r ganmoliaeth sy’n ein cyrraedd am ein gwasanaethau Cymraeg.

“Pleser oedd clywed [yr hyfforddwr] yn siarad Cymraeg yn y wers heno ‘ma. Roedd yn awyddus i wybod y geiriau Cymraeg fel ei fod yn gallu ein harwain yn y Gymraeg e.e. sefwch, eisteddwch, lôn fflat, dringwch.”

**Defnyddiwr canolfan hamdden**

“Mae’n bleser cerdded i mewn i’r tŷ a chlywed y gofalwyr yn canu caneuon ac emynau Cymraeg oherwydd eu bod yn deall bod y sain yn tawelu [yr unigolyn sy’n derbyn eu gofal].”

**Anwylyn unigolyn sy’n derbyn gofal**

**Gorfodi safonau**

Derbyniom lythyr rhag ymchwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â’r gŵyn am e-bost oedd yn cynnwys cyfeiriad at wefan allanol. Ar ôl derbyn gwybodaeth gennym am yr amgylchiadau, penderfynodd y Comisiynydd beidio agor ymchwiliad i’r gŵyn.

# Safonau llunio polisi

Dyma'r safonau sy'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg a defnyddwyr yr iaith. Mae 10 ohonynt i gyd wedi eu gosod arnom ac maent yn golygu bod rhaid i ni:

- ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol ein penderfyniadau ar y Gymraeg;
- ystyried sut y gallwn gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru effeithiau negyddol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; a
- holi barn ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori.

## Rheoli perfformiad

**Asesu effaith**
Ein prif ddull o reoli ein perfformiad mewn perthynas â'r safonau llunio polisi yw'r templed asesu effaith. Mae dau dempled ar ein mewnrwyd, ynghyd â chanllawiau ar eu llenwi. Mae'r cyntaf yn ystyried yr effaith ar gydraddoldeb â'r Gymraeg. Mae'r ail yn ystyried effaith ar y Gymraeg yn unig. Defnyddiwn y templed hwn os yw'r cynnig yn cael effaith neilltuol neu sylweddol ar yr iaith.

2022-23
70
Blaen adroddiad

Rhaid i'n swyddogion gwblhau'r templedi hyn wrth argymell datblygu, adolygu neu ddiwygio polisïau. Am y rheswm hwn mae pob blaen adroddiad sy'n mynd gerbron ein prif bwyllgorau – y pwyllgorau sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith – yn holi os oes asesiad effaith wedi ei gwblhau. Roedd 70 o'r adroddiadau aeth o flaen y Pwyllgor Gwaith eleni yn cyfeirio at effaith y cynigion dan sylw ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.


Roedd y tîm Polisi a'r Gymraeg wrth law i gynghori swyddogion ar sut i fynd ati i lenwi'r templedi ac asesu'r effaith ar yr iaith. Mae gennym hefyd ganllawiau ar ein mewnrwyd ar gwrdd â gofynion y safonau wrth ymgynghori, comisiynu ymchwil a dyfarnu grantiau.

## Deall profiadau defnyddwyr

**Cwynion**
Derbyniom ddwy gŵyn eleni oedd yn ymwneud â'r safonau llunio polisi. Fel y llynedd, roedd tuedd benodol i'r cwynion sef consyrn am enwau lleoedd Cymraeg.

| 2021-22 | | 2022-23 |
|---|---|---|
| 4 | ↓ | 2 |
| Nifer y cwynion | | Nifer y cwynion |

Roedd un am arwyddion ffordd yn defnyddio enwau answyddogol ar draethau ac yn cysylltu ag **ymrwymiad ein polisi iaith o ddefnyddio ffurfiau swyddogol yn unig** wrth gyfeirio at lefydd. Mae ein rhestr enwau lleoedd yn dweud mai Porth Tywyn-mawr yw'r enw cywir, serch hynny mae'r enw Saesneg answyddogol 'Sandy Beach' hefyd i'w weld ar un o'n harwyddion ffordd. Hen arwydd yw hwn gafodd ei osod cyn mabwysiadu'r polisi.



Byddwn yn ei gywiro pan ddaw i ddiwedd ei oes i wneud yn siŵr mai dim ond yr enw Cymraeg cywir sydd wedi ei nodi.

Asiantaeth arall oedd yn gyfrifol am arwydd ffordd oedd yn nodi Traeth Niwbwrch yn hytrach na Llanddwyn. Fe gysylltom â'r corff i nodi'r gŵyn a gofyn iddo gywiro'r arwydd.

Roedd yr ail gŵyn yn canmol penderfyniadau sefydliadau cyhoeddus eraill i arddel ffurfiau Cymraeg ar eu henwau yn unig ac yn galw arnom ni i wneud yr un fath. Fe ddiolchom i'r achwynydd am godi mater ac eglurom y byddem yn ystyried ei gynnig wrth adolygu ein polisi iaith Gymraeg ymhen amser.

# Safonau gweithredu

Dyma’r safonau sy’n ymwneud â’n defnydd mewnol o'r Gymraeg. Mae 47 ohonynt i gyd. Maent yn gosod disgwyliad arnom i annog defnyddio’r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a’n cynghorwyr i ddefnyddio’r iaith wrth eu gwaith.

Mae’r rhan hwn o'r adroddiad hefyd yn egluro sut yr ydym yn mynd ati i weithio tuag at gyflawni’r nod canlynol yn ein polisi iaith Gymraeg:



**Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig.** Er mwyn cyflawni hyn bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i’w gyflwyno i’r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â’r adroddiad blynyddol ar weithrediad y polisi iaith Gymraeg.

**Cymal 3.2.4**

## Rheoli perfformiad


**Recriwtio**
Ers mabwysiadu ein polisi iaith Gymraeg yn 2016, rydym wedi cymryd camau breision tuag at gyflawni’n nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith ein gweinyddiaeth fewnol. Hyn yn bennaf o ganlyniad i gadernid ein **polisi recriwtio a dethol**.

Ers cyflwyno canllawiau ar ddynodi lefelau sgiliau iaith 2019, mae elfen o allu yn y Gymraeg yn gysylltiedig â phob swydd a hysbysebir gennym. Mae’r canllawiau wedi llwyddo i osod disgwyliadau clir ar reolwyr ac ymgeiswyr fel ei gilydd. Dim ond yn dilyn methiant i benodi a derbyn cydsyniad ein **panel recriwtio** y caniateir hysbysebu swydd fel un lle mae sgiliau yn yr iaith yn ddymunol, gydag ymrwymiad i ddysgu.

**Ni hysbysebom unrhyw swyddi â sgiliau Cymraeg dymunol eleni**. Ers 2019, dim ond ar bedwar achlysur yr ydym wedi hysbysebu swyddi o'r natur hon. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i ni fod gan bron pob aelod newydd o staff elfen o allu yn y Gymraeg. Teg yw cydnabod bod mabwysiadu’r polisi hwn yn lleihau’r farchnad o ymgeiswyr cymwys am swyddi efo ni. Ond, credwn fod hwn yn gam sylfaenol bwysig sy’n dangos ymrwymiad pendant i gwrdd â nod ein polisi iaith.

Eleni, roedd mwyafrif y swyddi a hysbysebwyd gennym yn gofyn am y lefel uchaf o sgiliau yn y Gymraeg, sef lefel pump yn ôl ein fframwaith sgiliau iaith (ar gael yn atodiad dau). Roedd llai na chwarter yr holl swyddi yn gofyn am sgiliau lefel un a dau. Golyga hyn bod mwyafrif helaeth y swyddi yn gofyn am ymgeiswyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel tri ac uwch, sef lefel canolradd yn ôl y fframwaith.

**Ffigwr: Lefel sgiliau iaith Gymraeg swyddi a hysbysebwyd**




Mae bod yn gyflogwr cynhwysol hefyd yn bwysig i ni. Am y rheswm hwnnw cydweithiodd y tîm Polisi a'r Gymraeg â'r tîm Hyfforddiant er mwyn tynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i wella sgiliau iaith Gymraeg ein staff.

Gwyddom o dystiolaeth anecdotaidd o ffeiriau recriwtio bod darpar ymgeiswyr yn deall bod sgiliau yn y Gymraeg yn bwysig i ni fel cyflogwr. Mewn ymateb i hynny, mynychodd ein Swyddog Hyrwyddo Polisi a'r Gymraeg sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn ar y cyd gyda'n swyddogion Adnoddau Dynol. Y syniad oedd egluro wrth ddarpar ymgeiswyr bod cefnogaeth ar gael i wella eu sgiliau Cymraeg a'u helpu i lenwi ffurflenni cais. Ein nod yw sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei gweld fel rhwystr i drio am swydd efo ni a sicrhau bod pobl yn deall bod ystod o swyddi ar gael beth bynnag yw lefel eu Cymraeg.

**Arfer dda**

Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn ein defnydd o Gymraeg llafar. Erbyn hyn y Gymraeg yw iaith naturiol pob un o'n pwyllgorau namyn dau. Mae holl gyfarfodydd ein haenau uchaf o reolaeth yn digwydd yn Gymraeg, sef cyfarfodydd ein Tîm Arweinyddiaeth a'n Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae ein prif swyddogion hefyd yn siaradwyr Cymraeg sy'n golygu bod cyfran sylweddol o gyfarfodydd rheoli yn digwydd yn Gymraeg.

Mae ein deunyddiau cyfathrebu torfol i gyd yn ddwyieithog. Gwyddwn o waith ymgysylltu gyda chydweithwyr bod nifer o siaradwyr Cymraeg yn ffafrio derbyn deunyddiau fel hyn yn y ddwy iaith. Mae data'n dangos bod y niferoedd sy'n dewis darllen Her Gymraeg y Mis yn Saesneg yn uwch na'r niferoedd sy'n ei darllen yn Gymraeg, er enghraifft. Awgryma hyn bod gennym waith pellach i'w wneud i gynyddu hyder ymysg ein staff os ydym am wneud y Gymraeg yn brif iaith ysgrifenedig.

Er hynny, mae enwau Cymraeg ar nifer o'n gwasanaethau mewnol wedi hen ennill eu plwyf ac yn dangos ein hymrwymiad i ymgorffori'r iaith ym mhob agwedd o'n hunaniaeth gorfforaethol. Dyma rai esiamplau:

- Encil Môn: Ardal i staff gyfarfod am sgwrs dros baned neu ginio
- Manteision Môn: Cynllun arbedion cyflog
- MapMÔN: Gwybodaeth gynhwysfawr yn gysylltiedig â chyfeiriadau post
- Medra Môn: Newyddlen staff
- MônITor: Mewnrwyd
- Y Ddolen: Negeseuon e-bost torfol

**Rhaglen dreigl**
I gwrdd â nod y polisi iaith, rydym wedi mabwysiadu dull graddol bwriadus o gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn fewnol trwy weithio'n ddwys gyda gwasanaethau yn eu tro. Hyn er mwyn i sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol mewn lle i gynyddu'r defnydd o'r iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Eleni dechreuom weithio gyda'r timoedd canlynol gan gynnig cefnogaeth amrywiol yn dibynnu ar eu hanghenion:

- Canolfan Fusnes Môn
- Gwasanaethau Plant ac Oedolion
- Technoleg Gwybodaeth

Dilynodd un tîm fethodoleg newid ymddygiad Prifysgol Bangor, ARFer. Bwriad y rhaglen yw newid arferion iaith i alluogi cydweithwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu'r arfer o ddefnyddio Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

Ar gyfer tîm arall fe wnaethon ddatblygu pecyn adnoddau oedd yn cynnwys fideos a geirfa berthnasol i'w gwaith. Gyda'r trydydd tîm fe wnaethon gytuno ar raglen o sesiynau gyda'n Swyddog Hyrwyddo Polisi a'r Gymraeg er mwyn rhoi cyfle i swyddogion ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Hyd yn hyn rydym wedi gweithio'n ddwys gyda **chwe** thîm i gyd. Mae'r gwaith o gefnogi'r timoedd Hamdden, Gwarchod y Cyhoedd a Thai yn parhau a phencampwyr wedi eu hadnabod i'n cynorthwyo.

Yn ogystal â'r gwaith gyda'r timoedd, gweithiodd ein Swyddog Hyrwyddo Polisi a'r Gymraeg yn agos gyda **15** aelod o staff i'w helpu i ddod o hyd i gefnogaeth addas. Roedd y gefnogaeth yn amrywio o gyrsiau dysgu ffurfiol i sgyrsiau achlysurol gyda'r swyddog i roi hwb i'w sgiliau llafar.

Ail-ddechreuom ein sesiynau paned a sgwrs wythnosol yn Encil Môn sy'n cynnig cyfle i swyddogion alw i mewn i'n pencadlys am sgwrs anffurfiol gyda chydweithwyr. Oherwydd poblogrwydd y sesiynau, penderfynon gynnal ail sesiwn wythnosol yn benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd.

“Diolch am heddiw. Rydw i’n teimlo mwy hyderus yn siarad Cymraeg, dim ond ar ôl cael dwy sesiwn sgwrs efo chi. Diolch am hynny.”

“Ga i gymryd y cyfle hwn i ddweud diolch am eich holl gefnogaeth ac oherwydd yr ychydig sesiynau hyn yr wyf yn awr yn siarad mwy o Gymraeg nag erioed.”

**Cydweithiwr sy’n derbyn cefnogaeth**

## Deall profiadau defnyddwyr

**Data hyfforddiant**
Manteisiodd 15 o swyddogion ar gyrsiau dysgu Cymraeg eleni, sef yr un nifer â’r llynedd. Roedd y cyrsiau’n amrywio o rai lefel mynediad i lefel uwch ac yn cael eu cynnig ar-lein, mewn dosbarth neu gyfuniad o’r ddau gyfrwng. Mynychodd ddau swyddog gwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn.

| 2021-22 | | 2022-23 |
|---|---|---|
| 15 | - | 15 |
| Cyrsiau dysgu Cymraeg | | Cyrsiau dysgu Cymraeg |

Mae'r dudalen Cymraeg yn y Gweithle ar gael i’n holl staff ar ein safle e-ddysgu, y Gronfa Ddysgu. Mae’n cynnwys elfennau megis:

- cwis, pa gefnogaeth Cymraeg sydd orau i mi;
- cwrs Cymraeg yn y gweithle;
- heriau Cymraeg y mis; a
- deunyddiau darllen amrywiol.

Derbyniodd y safle **1,900** o ymweliadau yn ystod y flwyddyn.

| 2021-22 | | 2022-23 |
|---|---|---|
| 25% | - | 55% |
| Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg | | Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg |

Un dangosydd arwyddocaol o gynnydd yn erbyn nod y polisi iaith yw’r niferoedd ddewisodd dderbyn hyfforddiant eleni yn Gymraeg. Dewisodd 640 o’n swyddogion fynychu cwrs mewnol cyfrwng Cymraeg o gymharu â 195 y llynedd.

**Arolwg barn**
Ym mis Ebrill 2023 estynnom allan at aelodau ein Tîm Rheoli Corfforaethol (sy’n cynnwys penaethiaid pob un o'n gwasanaethau) i holi eu barn am ein gwasanaeth cyfieithu. Pwrpas anfon yr holiadur oedd ein helpu i fonitro perfformiad a gwella’r gwasanaeth. Roedd yr ymateb yn gadarnhaol gyda phawb yn graddio gwahanol elfennau’r gwasanaeth yn dda iawn neu’n ardderchog.

“Gwasanaeth ardderchog, cyfeillgar ac amserol pob tro. Dwi’n hynod o ddiolchgar am eich cefnogaeth, yn enwedig wrth fy mod i ddim yn hyderus yn fy Nghymraeg ysgrifenedig.”

**Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

“Mae’r tîm yn barod i’n cynorthwyo bob amser a’n ymateb yn brydlon ar y cyfan. Rydym yn gwerthfawrogi’r gwasanaeth yn fawr.”

**Christian Branch, Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu’r Economi**

Cafwyd rhai mân sylwadau ac ymholiadau am elfennau penodol o’r gwasanaeth ac fe ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfieithu i’r materion hynny fel oedd angen gan arwain at sicrhau mân welliannau pellach i’r gwasanaeth a gynigir.

### Cwynion

Ni dderbynion unrhyw gwynion eleni yn ymwneud â gofynion y safonau gweithredu.

# Edrych ymlaen

Dyma gipolwg ar rai o'r datblygiadau sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Ymchwillio i'r maes recriwto
- Cydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg
- Ail-ymweld â'n canllawiau ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg
- Codi ymwybyddiaeth o'n harferion a dylwanwadu ar eraill
- Hyrwyddo ein gweithle fel gofod Cymraeg
- Dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021

Fel y nodom y llynedd, mae'n destun balchder bod gan gymaint o'n staff sgiliau iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn falch o'n llwyddiant i benodi siaradwyr Cymraeg i ystod o wahanol swyddi. Serch hynny, gall recriwtio fod yn heriol ar brydau, yn enwedig wrth i'r nifer o sefydliadau cyhoeddus sy'n gofyn am sgiliau yn yr iaith gan ymgeiswyr gynyddu. Byddwn yn cydweithio gyda'n partneriaid sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn i ymchwilio i'r maes hwn, adnabod arfer effeithiol a rhannu'r canfyddiadau.

Byddwn yn rhoi mwy o sylw i'n defnydd mewnol o Gymraeg ac yn cydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg ar brosiect i sefydlu modelau gweinyddu y gall sefydliadau eraill ddysgu ohonynt. Gobeithiwn y bydd y prosiect hwn nid yn unig yn gyfle i rannu ein harferion da ag eraill, ond yn helpu ni i ddatblygu ein hunain ymhellach.

Teimlwn fod gennym lawer i fod yn falch yn falch ohono a byddwn yn gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o hynny. Gwyddom fod gennym gyfrifoldeb fel prif gyflogwr Ynys Môn i gynnig ein hunain i bobl ifanc yr ardal fel gweithle lle gallent ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Fel rhan o raglen ARFOR 2 byddwn yn ystyried sut y gallwn hyrwyddo'r Cyngor fel gofod Cymraeg sy'n cynnig cyfle i bobl ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg.

Byddwn hefyd yn dadansoddi data Cyfrifiad 2021 er mwyn deall yn well y tueddiadau sy'n effeithio poblogaeth Ynys Môn a defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau. Trwy wella ein dealltwriaeth o'r heriau sy'n effeithio gwahanol rannau o'r boblogaeth gallwn deilwra ein hymdrechion i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

## Casgliad

Diweddodd y flwyddyn gydag ymdeimlad o sefydlogrwydd nas teimlwyd ers cryn amser. Braf oedd gweld cydweithwyr yn manteisio ar ein cynllun gweithio hybrid ac yn treulio mwy o amser yn y swyddfa yng nghwmni eraill. Mae'r cyfleoedd hyn i ryngweithio yn bwysig er mwyn ymarfer a magu hyder yn y Gymraeg ac mae'r adborth o'n sesiynau paned a sgwrs wedi bod yn bositif.

Trwy gydweithio gyda'n tîm Hyfforddiant, eleni byddwn yn troi ein sylw at ein siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n awyddus i roi sglein ar eu sgiliau cyflwyno ac ysgrifennu. Fel y gwnaethom y llynedd gyda defnyddwyr llai hyderus o'r Gymraeg, byddwn yn teilwra'r gefnogaeth i anghenion yr unigolion. Trwy gydweithio ag unigolion allweddol bwriadwn gynyddu ymhellach ein nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith ein gweinyddiaeth fewnol.

Gyda'r Gymraeg yn faes blaenoriaeth yng nghynllun y Cyngor bydd gan yr iaith le canolog yn ein holl gynlluniau dros y bum mlynedd nesaf.

**Mehefin 2023**

# Atodiad 1: Data cwynion

Dyma fanylion y cwynion gafodd eu gwneud i ni dros y flwyddyn am ein defnydd o'r Gymraeg. Mae'r ddau dabl cyntaf yn cynnwys manylion cwynion sy'n cwrdd â diffiniad ein gweithdrefn gwynion, sef cwynion gan bobl a effeithiwyd yn uniongyrchol gan yr amgylchiadau.

Mae'r trydydd tabl yn cynnwys manylion cwynion 'eraill' neu sylwadau gan bobl yn nodi consyrn ond na effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol. Mae hefyd yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â'n defnydd o'r Gymraeg ond nad ydynt yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r safonau.

**Tabl 1: Cwynion yn ôl dosbarth o safonau**

| Dosbarth safonau | Nifer |
|---|---|
| Cyflenwi gwasanaethau | 4 |
| Llunio polisi | 2 |
| Gweithredu | 0 |
| **Cyfanswm** | **6** |

**Tabl 2: Manylion cwynion**

| Cwyn | Dosbarth safonau | Manylion |
|---|---|---|
| 2022/23-01 | Cyflenwi gwasanaethau | Gwybodaeth Gymraeg aneglur ar neges ffôn yn cael ei chware wrth ddisgwyl i gysylltu â'r gwasanaeth Tai. |
| 2022/23-02 | Llunio polisi | Cwyn am enw Saesneg answyddogol o dan yr enw Cymraeg cywir ar arwydd ffordd. |
| 2022/23-03 | Llunio polisi | Galw ar y Cyngor i fabwysiadu enw uniaith Gymraeg ac arddel ffurfiau Cymraeg yn unig ar enwau lleoedd a nodweddion daearyddol. |
| 2022/23-04 | Cyflenwi gwasanaethau | Neges e-bost uniaith Saesneg yn cydnabod derbyn cais casglu gwastraff. |
| 2022/23-05 | Cyflenwi gwasanaethau | Diffyg defnydd honedig o'r Gymraeg mewn dosbarth ffitrwydd canolfan Hamdden. |
| 2022/23-06 | Cyflenwi gwasanaethau | Cyfeiriad mewn gohebiaeth at wefan allanol nad oedd yn gweithredu'n Gymraeg. |

**Tabl 3: Cwynion eraill**

| Rhif | Sylw |
|---|---|
| 1 | Diffyg gwasanaeth ffôn Cymraeg gan swyddog desg gymorth TG (gwasanaeth mewnol). |
| 2 | Methiant honedig i gydymffurfio â chymal polisi iaith Gymraeg sy'n cyfeirio at gyhoeddi adroddiad ar gynnydd yn erbyn nod i wneud y Gymraeg yn brif iaith gweinyddiaeth fewnol. |

# Atodiad 2: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

Dyma wybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ein swyddogion. Rydym wedi categoreiddio'r wybodaeth i gyd-fynd â diffiniadau ein fframwaith sgiliau iaith sy'n pennu gwahanol lefel o allu yn y Gymraeg:

## Lefel 0: Ymwybyddiaeth

- Dim sgiliau

## Lefel 1: Mynediad

- Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd)
- Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol
- Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, fel arwyddion neu nodiadau byr a syml
- Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol

## Lefel 2: Sylfaen

- Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol
- Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf)
- Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth

## Lefel 3: Canolradd

- Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol
- Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl
- Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur
- Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol

## Lefel 4: Uwch


- Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg
- Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp
- Yn gallu darllen y mwyafrif o ddeunydd yn eich maes eich hun
- Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda pheth cymorth gwirio

## Lefel 5: Medrus

- Yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen
- Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r gwaith
- yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio

## Sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth

Mae nifer o staff a gyflogir ym mhob gwasanaeth wedi cynyddu ond mae'r canrannau'n dangos newid bach o'r gymharu â'r llynedd. Mae'n ymddangos bod rhai gwasanaethau wedi cynyddu sgiliau iaith Gymraeg eu swyddogion, tra bod eraill wedi gostwng ychydig (tua 1% yn llai).




**Tîm Arweinyddiaeth (yn cynnwys prif weithredwr, dirprwy, cyfarwyddwyr a chynorthwywyr personol)**

Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 10
Nifer y dychweliadau: 9
Canran dychweliadau: 90%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |

**Adnoddau**

Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 96
Nifer y dychweliadau: 95
Canran dychweliadau: 99%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 4 | 4 | 6 | 5 | 75 |
| Canran | 1% | 4% | 4% | 6% | 5% | 79% |

**Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 97
Nifer y dychweliadau: 87
Canran dychweliadau: 90%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 5 | 3 | 2 | 4 | 13 | 60 |
| Canran | 6% | 3% | 2% | 5% | 15% | 69% |

**Busnes y Cyngor**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 34
Nifer y dychweliadau: 33
Canran dychweliadau: 97%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 1 | 0 | 2 | 1 | 29 |
| Canran | 0% | 3% | 0% | 6% | 3% | 88% |

**Dysgu**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 85
Nifer y dychweliadau: 85
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 3 | 2 | 5 | 9 | 66 |
| Canran | 0% | 4% | 2% | 6% | 11% | 78% |

**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 690
Nifer y dychweliadau: 671
Canran dychweliadau: 97%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 26 | 45 | 43 | 45 | 112 | 400 |
| Canran | 4% | 7% | 6% | 7% | 17% | 59% |

**Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 311
Nifer y dychweliadau: 307
Canran dychweliadau: 99%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 15 | 28 | 16 | 14 | 31 | 203 |
| Canran | 5% | 9% | 5% | 5% | 10% | 66% |

**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 287
Nifer y dychweliadau: 276
Canran dychweliadau: 96%


| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 3 | 19 | 13 | 19 | 41 | 181 |
| Canran | 1% | 7% | 5% | 7% | 15% | 66% |

**Tai**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 175
Nifer y dychweliadau: 173
Canran dychweliadau: 99%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 4 | 6 | 7 | 11 | 23 | 122 |
| Canran | 2% | 3% | 4% | 6% | 13% | 71% |

## Sgiliau Cymraeg fesul gradd gyflog

Mae lefelau iaith graddau 1-5 wedi gostwng ychydig ond bu newid mawr i nifer y staff yn y braced hwn. Mae'r data'n parhau i ddangos bod mwyafrif yn nodi sgiliau iaith ar lefel 5. Mae lefelau iaith graddau 6-10 a phrif swyddogion, sy'n cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr, yn parhau'n gyson.




**Graddau 1-5**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 1316
Nifer y dychweliadau: 1274
Canran dychweliadau: 97%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 46 | 85 | 70 | 90 | 165 | 818 |
| Canran | 4% | 7% | 5% | 7% | 13% | 64% |

**Graddau 6-10**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 440
Nifer y dychweliadau: 431
Canran dychweliadau: 98%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 8 | 20 | 18 | 12 | 68 | 305 |
| Canran | 2% | 5% | 4% | 3% | 16% | 71% |

**Prif swyddogion**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 15
Nifer y dychweliadau: 15
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 13 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 7% | 7% | 87% |

## Hyfforddiant

**Hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg**
Dyma fanylion y niferoedd a dderbyniodd hyfforddiant i hybu neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

| Cymhwyster | Nifer |
|---|---|
| Mynediad | 5 |
| Sylfaen | 3 |
| Canolradd | 1 |
| Lefel uwch | 3 |
| Gloywi | 3 |
| **Cyfanswm** | **15** |

**Iaith cyrsiau hyfforddi**
Ein nod yw dynodi a chadw cofnod o gyfrwng iaith pob un o'n sesiynau hyfforddi mewnol. Mae'n bwysig nodi nad yw dewisiadau cofnodi ein system Adnoddau Dynol yn ddelfrydol ar gyfer casglu data o'r fath - er mae addasiadau yn cael eu gwneud â llaw i sicrhau fod y data mor gyfredol â phosib - wrth ystyried y ffigyrau isod.

O ran y cyrsiau a ddynodir fel rhai 'dwyieithog', gall hyn olygu fod un ai'r hyfforddwr yn gallu cyflwyno'r sesiwn yn ddwyieithog neu fod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Yn hynny o beth mae'n golygu fod swyddogion yn gallu holi/ateb cwestiynau yn eu dewis iaith.

Mae'r tabl isod yn ystyried hyfforddiant sydd wedi cael ei gynnig yn fewnol dros y flwyddyn, ac yn dangos y nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg a Dwyieithog yn ystod y flwyddyn.

| | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennym yn Gymraeg | 195 | 640 |
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennym yn ddwyieithog | 711 | 349 |
| Canran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg | **25%** | **55%** |

O'i gymharu â ffigyrau'r llynedd, mae'r niferoedd ddewisodd dderbyn hyfforddiant yn Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol.

## Categoreiddio swyddi

Yn 2019 cyhoeddom ganllawiau yn gosod allan lefel isafswm o sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer gwahanol fathau o swyddi. Er ein bod yn parhau i gategoreiddio swyddi yn unol â gofynion y safonau, anaml ystyriwn sgiliau iaith Cymraeg yn ddymunol. Yn hytrach, mae elfen o sgiliau yn y Gymraeg yn perthyn i bob swydd sy'n gymesur â natur y rôl.

Dyma fanylion y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn yn ôl eu gofynion sgiliau iaith Gymraeg.

| | Nifer |
|---|---|
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1 | 47 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2 | 21 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3 | 156 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4 | 108 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5 | 237 |
| Swyddi lle bod lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol | 0 |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21.6.23** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: Adrodd ar gynnydd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi diweddariad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau perthnasol** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Owen Davies, Uwch Reolwr Sector Cynradd**<br>**owendavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i bob aelod** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

**Gofynnir i'r Pwyllgor**:

**A1** Dderbyn diweddariad ar ddata 2022-2023 CSGA Ynys Môn, a chynnig dull o rannu'r wybodaeth hon.

**A2** Cadarnhau trefniadau i ail-gategoreiddio ysgolion Ynys Môn yn unol â chanllawiau anstatudol cenedlaethol.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cynllun y Cyngor 2023-2028 yn adnabod addysg a'r iaith Gymraeg fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer tymor presennol y Cyngor. Mae'n cynnwys yr ymrwymiadau canlynol.

Yr Iaith Gymraeg – Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

- Cynyddu'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n astudio yn y Gymraeg drwy weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Addysg - Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo aelodau wrth graffu ar y pwnc:**

**1.1 Ffocws ar y cwsmer/dinesydd**
Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

**1.2 Ffocws ar werth**
Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd

**1.3 Ffocws ar risg**
Edrych ar unrhyw risgiau

**1.4 Ffocws ar berfformiad ac ansawdd**

Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd

**1.5 Ffocws ar lesiant**

Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**1.6 Ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg**

Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r CSGA yn addas ar gyfer sicrhau bod Ynys Môn yn cyflawni ei thargedau Deilliant 1-7?
2. Sut mae'r mapio categoreiddio ysgolion yn addas ar gyfer anghenion Ynys Môn er mwyn sicrhau darpariaeth a chyfleoedd i gynyddu'r nifer o siaradwyr erbyn 2050?
3. A yw'r Pwyllgor yn ystyried bod angen addasu unrhyw agweddau o'r cynllun gweithredu?
4. I ba raddau mae gwasanaeth Canolfan Iaith y sir yn ymateb i'n hanghenion trochi?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**A1**

Mae rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013")[1], yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("CSCA"). Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg (Cymru) 2019 yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn CSCA awdurdod lleol gan gynnwys y gofyniad i 'osod targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn ystod oes y Cynllun yng nghyfanswm yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg'. Mae hwn yn ofyniad statudol lle mae'n rhaid i'r awdurdod arwain yn strategol.

**A2**

Mae deddfwriaeth yn gosod dyletswyddau a gofynion i ysgolion ac awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am y cyfrwng iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 yn nodi'r wybodaeth y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ei chyhoeddi ym mhrosbectysau ysgolion unigol a phrosbectws cyfansawdd yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol at ddibenion CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).

Mae rheoliadau yn nodi'r wybodaeth gyffredinol i'w chyhoeddi gan awdurdodau lleol ym mhrosbectws yr ysgol, gan gynnwys y categori iaith a ddefnyddiwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol yn y datganiad CYBLD diweddaraf sy'n disgrifio'r ysgol orau.

Categori 1 – Cyfrwng Saesneg
Categori T2 – Trosiannol
Categori 2 – Dwy Iaith
Categori T3 – Trosiannol
Categori 3 – Cyfrwng Cymraeg

Bydd CYBLD yn cael ei newid i adlewyrchu’r categorïau newydd (2023-2024). Ond nes iddynt gael eu newid, bydd rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion, wrth gyhoeddi ei prosbectws ysgol neu sirol, gyfeirio at y categorïau sydd wedi’u cynnwys yn CYBLD ar yr adeg cyhoeddi.

Mae gan y Cwricwlwm i Gymru ffocws o’r newydd ar ddysgu sydd wedi’i deilwra ar gyfer cryfderau ein dysgwyr. Mae’n cynnig hyblygrwydd i ysgolion i benderfynu ar y dull gorau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg:

- Mae’r Gymraeg yn elfen orfodol o’r Cwricwlwm.
- Mae disgwyliad ar bob ysgol a lleoliad i addysgu’r Gymraeg i ddysgwyr o 3 oed ymlaen.
- Mae’r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o fewn y Cwricwlwm i Gymru wedi ei seilio ar gontinwwm neu fframwaith cynnydd ar gyfer ieithoedd, yn dechrau gyda dim neu ychydig iawn o iaith ac yn gweithio tuag at hyfedredd.

Bydd hyn yn galluogi dysgwyr sydd â hyd yn oed ychydig o sgiliau Cymraeg i ddatblygu ac adeiladu ar y sgiliau hynny a chodi eu hyder yn ystod cyfnod eu haddysg statudol a’u gyrfaoedd ôl-addysg statudol.

**6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

**N/A**

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Mae’r strategaeth yn cydnabod ardaloedd sydd angen mwy o gefnogaeth ac ar yr un pryd yn sicrhau bod systemau a disgwyliadau uchel ar draws yr ynys.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg**

Mae’r strategaeth yn cynnwys nifer o gynlluniau sy’n alinio i sicrhau eglurder ar ddyhead ac ymrwymiad y Cyngor i filiwn o siaradwyr 2050. Bydd ail-gategoreiddio ysgolion yn sicrhau dealltwriaeth a statws Ynys Môn fel un o gadarnleoedd yr iaith a disgwyliadau rhieni o ran darpariaeth addysg ar draws yr ynys.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

Mae’r Gwasanaeth Dysgu’n defnyddio arian i gefnogi canolfannau iaith ac yn defnyddio arian grant trochi i gynyddu’r ddarpariaeth ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion uwchradd. Os bydd newid i'r grant ar ôl 2025, bydd risg i'r ddarpariaeth hon.

Angen ystyried costau cynyddol trafnidiaeth (tacsis) ac ail-ymweld â’r syniadau creadigol sy’n torri costau yn yr hirdymor ac yn arddangos ymrwymiad y Cyngor i fod yn garbon niwtral.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi gofyn am ddyraniad ychwanegol o'r grant trochi er mwyn recriwtio Anogwr y Gymraeg ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Syr Thomas Jones i gefnogi staff (datblygu ac/neu ddysgu'r iaith os oes rhaid) gyda sgiliau iaith, ethos Cymraeg y tu hwnt i'r dosbarth a chynnal canolfan trochi fwy dwys yn y ddwy ysgol. Os bydd y cais yn aflwyddiannus, bydd angen ystyried ffynonellau cyllidol eraill.

**8 – Atodiadau**

- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: Adroddiad cynnydd blwyddyn un**
- Trosolwg o ddata CSGA 2022/23

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

**Atodiad**
**Cynllun strategol y Gymraeg mewn Addysg: Adroddiad cynnydd blwyddyn un**

**A1**

Mae data CSGA (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg) yn adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg yn Ynys Môn dros y cyfnod 06/22-06/23. Mae adroddiad 2023 yn nodi sefydlogrwydd deilliannau 1,2,3,5 a 6 a thwf yn Neilliant 4 a 7 .

- Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg - **Sefydlog**
- Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg - **Sefydlog**
- Deilliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall ***(Nid yw unrhyw ysgol yn adrodd ar ddata asesiadau yn genedlaethol erbyn hyn)***
- Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg – **Cynnydd o 429 o ddysgwyr (68.1%) yn 2022 i 448 o ddysgwyr yn 2023 (70.44%)**
- Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol - **Gwybodaeth wedi'i chasglu gan ysgolion yn dangos fod y deilliant hwn ar drac.** *Cesglir yr wybodaeth trwy sgyrsiau unigol gydag ysgolion am ddata o adroddiadau Siarter Iaith a chydlynwyr iaith, cyfleoedd cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol megis clybiau ar ôl ysgol, yr Urdd, gwersi nofio, clybiau Ffermwyr Ifanc, Cynghrair Cerdd a Gwasanaeth Cerdd Môn, bandiau a grwpiau cerddorol, grwpiau a chlybiau chwaraeon, ayyb.*
- Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) - **Sefydlog**

- Deilliant 7 - Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg – **Cynnydd o 503 yn 2022 (89.03) i 528 yn 2023 (90.57%).**

Gweler atodiadau ar ddiwedd y ddogfen ar gyfer data CSGA Ynys Môn 2022-2023.

Bwriedir rhannu'r data hwn gyda: Pwyllgor Sgriwtini, Fforwm Iaith a chreu adroddiad statudol blynyddol i Lywodraeth Cymru (Gorffennaf).

**A2**

Mae'r broses Categoreiddio Ysgolion wedi ei chynnal dros y flwyddyn hon ac mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi mapio, hysbysu'r broses ac ymgynghori gydag ysgolion i lywio proffil Categoreiddio Ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi ymgynghori a thrafod Categorïau Iaith gydag ysgolion cyn dod i benderfyniad ar y categori. Mae'r dull o drafod a dod i farn ar y cyd wedi bod yn bwysig ac yn unol ag egwyddorion y Cyngor o gydweithio a dangos parch tuag at holl randdeiliaid.

Bydd pob ysgol gynradd ond un, a thair o'r ysgolion uwchradd yng Nghategori 3. Gan mai un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw annog ysgolion Môn i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, bydd un ysgol gynradd yn Nghategori 2 a dwy ysgol uwchradd yn is-gategori trosiannol T2 er mwyn hwyluso'r broses i ysgolion symud i Gategori 3. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r ysgolion hyn gydweithio â'r Gwasanaeth Dysgu er mwyn tyfu eu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod estynedig o amser gyda chynllun cytunedig.

| **Categoreiddio Ysgolion Cynradd Môn** | |
|---|---|
| Nifer Ysgolion Categori 3 | 39 |
| Nifer Ysgolion Categori Trosiannol T3 | 0 |
| Nifer Ysgolion Categori 2 | 1 |
| Nifer Ysgolion Categori Trosiannol T2 | 0 |
| Nifer Ysgolion Categori 1 | 0 |

| **Categoreiddio Ysgolion Uwchradd Môn** | |
|---|---|
| Nifer Ysgolion Categori 3 | 3 |
| Nifer Ysgolion Categori Trosiannol T3 | 2 |
| Nifer Ysgolion Categori 2 | 0 |
| Nifer Ysgolion Categori Trosiannol T2 | 0 |
| Nifer Ysgolion Categori 1 | 0 |

**Datblygiadau diweddar:**

**Blynyddoedd Cynnar**

- Mae rhaglen Makaton a 'Taith yr Iaith' y blynyddoedd cynnar yn datblygu'n dda, gyda 10/38 lleoliad wedi derbyn gwobr Efydd yn y cylch cyntaf. Bydd y cynllun peilot hwn yn cynnwys holl leoliadau nas-cynhelir yr ynys dros 2023-2024 i ddatblygu proffil sy'n cynyddu'r nifer o leoliadau sy'n symud tuag at wobr Aur.
- Mae lleoliadau nas-cynhelir yn derbyn arian grant yn seiliedig ar ddarpariaeth addysg gan gynnwys safon a phrofiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae tîm athrawon cefnogi'r blynyddoedd cynnar yn monitro a chefnogi'r gwaith hwn.

**Cynradd ac Uwchradd**

- Byddwn yn defnyddio system tracio carfanau iaith fel prif arddull monitro ieithwedd ysgolion. Ymhen amser, bydd y fframwaith hwn yn esblygu ochr yn ochr â datblygiadau CEFR (Common European Framework of Reference for Languages).
- Mae Canllaw Trosglwyddo Gwybodaeth Carfanau Iaith Bl.6 yn golygu bod pob ysgol wedi cael arweiniad, cymorth a chefnogaeth i adrodd ar garfan iaith pob plentyn yn Ml.6. Bydd yr wybodaeth hon yn bwydo i gydlynwyr iaith dalgylchoedd ac ysgolion uwchradd i sicrhau bod plant sydd i fod i ddilyn Cymraeg iaith gyntaf yn dilyn y llwybr hwn.
- Mae canolfannau iaith Môn yn hanfodol i sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn derbyn ymyrraeth drochi'n amserol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio arian grant trochi 2 (cylch 2022-2025). Eleni mae defnydd o'r grant wedi golygu bod trochi'n digwydd drwy aelodau'r ganolfan yn yr ysgolion uwchradd am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd.
- Mae gwaith y canolfannau iaith wedi derbyn cais am astudiaeth achos Estyn 22-23.
- Mae gwaith y ganolfan yn derbyn cydnabyddiaeth gan ysgolion, trwy gyfryngau cymdeithasol ac ar raglenni teledu.

Bydd y Gwasanaeth Dysgu'n parhau i gydweithio â rhanddeiliaid megis rhieni, Menter Môn, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Môn Actif, lleoliadau nas-cynhelir, ysgolion a GwE i sicrhau bod nodau ac amcanion y CSGA yn cael eu gwireddu.

Risgiau sydd wedi'u hadnabod:

- Bod heriau ariannol yn golygu risg i strategaeth drochi'r ynys
- Cyllid trafnidiaeth yn gynyddol heriol (rydym wedi ceisio am arian cyfalaf ar gyfer bws trydanol o dan berchnogaeth y Cyngor).

# CSGA Ynys Môn

Y Gymraeg mewn Addysg

## Deilliant 1

Mwy o blant meithrin / tair oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

| | Cylchoedd Meithrin | EYW | Ysgolion Cynradd | Ysgolion Sefydledig | Ysgolion Pabyddol dan Gymorth Gwirfoddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 32 | 4 | 38 | 1 | 1 |
| % yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% | 100.00% |

## Deilliant 2

Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

| Nifer o Ddalgylchoedd | Nifer o Sefydliadau Addysg Gynradd | Plant 5 oed yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg |
|---|---|---|
| 5 | 40 | 676 |
| % yn derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf: 100.00% | % yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg: 100.00% | % yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg: 100.00% |

## Deilliant 3

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Niferoedd y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

**Anstatudol**

**Y Gymraeg Mewn Addysg**

Y Gymraeg Mewn Addysg

# CSGA Ynys Môn

Y Gymraeg mewn Addysg

## Deilliant 4

Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

| | 2021-2022 | 2022-2023 |
|---|---|---|
| Nifer o Ddysgwyr | 429 | 448 |
| % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | 68.10% | 70.44% ↑ |

## Deilliant 5

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

% y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar Drac

## Deilliant 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

% o ddisgyblion cynradd / uwchradd sy'n derbyn gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog

100.00%

## Deilliant 7

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

| | 2021-2022 | 2022-2023 |
|---|---|---|
| Nifer o Staff | 503 | 528 |
| % y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg | 89.03% | 90.57% ↑ |

Y Gymraeg Mewn Addysg

**Y Gymraeg Mewn Addysg**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Mehefin, 2023** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adolygu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Sandra Thomas,**<br>**Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**<br>**01286 679906**<br>**sandralynnethomas@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi a chynnig sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol a'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Llesiant cyfredol (2018 - 2023).

Er gwybodaeth, mae'r Cynllun Llesiant newydd (2023-2028) i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at, a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor

- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn trafod blwyddyn olaf y Cynllun Llesiant: 2018/23. Pa werth ychwanegol y cyflawynwyd wrth gydweithio?

2. I ba raddau y gwelwyd sgil effeithiau'r Pandemig a hefyd yr argyfwng costau byw'n cael effaith ar allu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni yn erbyn y targedau allweddol?

3. Adroddir bod nifer o ffrydiau gwaith wedi derbyn sylw yn ystod 2022/23. Sut mae'r gwersi wedi'u hystyried ar gyfer y Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn newydd (2023/2028)?

4. Pa gyfleon, heriau a risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth symud ymlaen?

**5. Cefndir / Cyd-destun**

Dyma gyflwyno adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn ar gyfer 2022-23. Y flwyddyn hon oedd blwyddyn olaf ein Cynllun Llesiant 2018-23Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gennym fel Bwrdd i wella llesiant ein cymunedau yn ystod y cyfnod 2022-23.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Hefyd, sefydlodd y Ddeddf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

Rydym bellach yn flwyddyn olaf Cynllun Llesiant 2018-23 ar gyfer Gwynedd a Môn, lle roedd y Bwrdd wedi blaenoriaethu chwe maes gwaith: Yr iaith Gymraeg; Tai i bobl leol; Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau; Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau; Iechyd a gofal oedolion a Llesiant a chyflawniad plant a phobl ifanc. Mae'r Bwrdd wedi dysgu o brofiad ac wedi addasu ei strwythurau dros y cyfnod.

**5.1 Beth sydd wedi ei gyflawni eleni:**

**5.1.2 Darparu Cynllun llesiant 2023-28**
Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd Asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Mae wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd a chwech ar Ynys Môn. Mae'r wybodaeth yn dod â data lleol, negeseuon o waith ymgysylltu â chymunedau a gwaith ymchwil cenedlaethol ynghyd. Mae'r Llyfrynnau Gwybodaeth ar gyfer pob ardal ar gael ar ein gwefan.

Yn dilyn cyhoeddi yr Asesiadau Llesiant ym mis Mai 2022 defnyddiwyd hwy fel cyfeiriad i flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer llunio Cynllun Llesiant 2023-28. Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol roedd naw prif neges yn cael eu hamlygu yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan:

- Ymateb i dlodi a chostau byw
- Gwella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
- Gwella iechyd a lles meddyliol
- Newid hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau net sero
- Hybu defnydd yr iaith Gymraeg
- Galluogi profiad cyfartal a mynediad i natur
- Cynllunio gweithlu i'r dyfodol sy'n ateb anghenion y gymuned a'r economi leol
- Sicrhau tai i bobl leol
- Dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfres o weithdai pellach gydag Aelodau'r Bwrdd yn ystod 2022 ar sail y prif negeseuon a adnabuwyd er mwyn blaenoriaethu a thrafod sut y byddai modd ymateb i'r materion a amlygwyd.

Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau llesiant, mae'r Bwrdd wedi adnabod **tri Amcan Llesiant i gyd weithio arnynt yn y cyfnod 2023-2028**:

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.*

Mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector cyhoeddus, credwn fod y rhain yn feysydd lle gallwn gydweithio yn well i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

Er nad yw'r iaith Gymraeg wedi ei hadnabod fel Amcan Llesiant penodol mae'n flaenoriaeth i'r Bwrdd a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r **iaith Gymraeg** ym mhob maes o'n gwaith, ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu ymarfer da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus drwy'r Gymraeg.

**5.1.3 Ymgynghoriad gyhoeddus at y Cynllun Llesiant 2023-28:**
Yn unol a gofynion y Ddeddf cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft am gyfnod o 12 wythnos rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 6 Mawrth 2023. Darparwyd cyfleoedd priodol i unigolion, grwpiau diddordeb a sefydliadau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy gynnal gweithdai a sesiynau gwybodaeth. Roedd hefyd holiadur ar gael ar wefan y

Bwrdd neu gopïau papur oedd ar gael mewn prif swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd. Roedd modd gwneud cais am gopïau ar ffurf amgen.
Derbyniwyd 499 o ymatebion i'r holiadur fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus gyda nifer o'r sylwadau yn cefnogi'r hyn sy'n cael ei gynnig. Cafwyd adborth gan oddeutu 200 o unigolion ychwanegol drwy ymgysylltu megis gweithdai a sesiynau gwybodaeth a gynhaliwyd trwy Fforymau Pobl Hŷn, ymgysylltu gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai yn Llangefni, grŵp o bobl ifanc digartref, a chyflwyno i Grŵpiau Trydydd Sector, a Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

Rhoddwyd sylw i'r ymgynghoriad ym Mhwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn a Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd. Hefyd bu sawl neges ar gyfrifon cymdeithasol y Bwrdd a rhannwyd rhain gan Aelodau eraill y Bwrdd ar eu cyfryngau hwy.

Rydym yn ffyddiog bod y Cynllun Llesiant bellach yn adlewyrchu nifer o'r sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriad a bydd y Bwrdd yn rhoi sylw i'r adborth i gyd eto dros y flwyddyn nesaf yn benodol wrth ddarparu Cynllun Cyflawni ar gyfer y meysydd blaenoriaeth.

### 5.1.4 Newid Hinsawdd:

**Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Sefydlwyd is-grŵp Newid Hinsawdd i annog cydweithio ymysg sefydliadau cyhoeddus ar liniaru effaith newid hinsawdd, ac yn enwedig effaith llifogydd arfordirol a mewndirol ar ein cymunedau. Rydym wedi adnabod yr angen i addysgu a gweithio gyda'n cymunedau i'w paratoi ar gyfer heriau presennol newid hinsawdd a'r rhai sy'n ein wynebu i'r dyfodol. Y nod yw ceisio lliniaru'r effaith y mae unrhyw achos o dywydd eithafol yn ei chael ar y cymunedau hynny. Yn ystod y cyfnod clo, bu i nifer ohonom sylwi ar bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol - roeddem yn defnyddio llai ar ein ceir ac fe welsom effeithiau positif hynny ar ansawdd yr aer a dŵr.

**Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae'r is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u datblygu fel rhan o egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf drwy:

- ddeall anghenion y cymunedau penodol sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer y **tymor hir**
- **gweithio gyda** nifer o gyrff cyhoeddus a'n cymunedau
- **cynnwys** ein rhan-ddeiliaid fel rhan hanfodol o waith yr is-grŵp

### 5.1.5 Yr iaith Gymraeg

**Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Mae'r Bwrdd yn deall pa mor bwysig yw'r iaith Gymraeg i'n cymunedau ledled Gwynedd a Môn, a'i bod yn rhan o wead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae medru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn y Gymraeg yn bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel yr iaith o ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir. Fel cyrff cyhoeddus, rydym yn ceisio sicrhau bod y dinesydd yn parhau i ymgysylltu â

cyrff cyhoeddus yn ei ddewis iaith, ac rydym yn parhau i fod yr un mor angerddol am gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Diweddariad ar y gwaith eleni**

Yn ystod 2022/23, comisiynwyd gwaith ymchwil i'r rhesymau pam fod pobl yn dewis defnyddio'r Gymraeg neu beidio wrth dderbyn gwasanaethau cyswllt cyntaf.

**Bwriad** y gwaith ymchwil oedd:

- deall arferion ieithyddol y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau cyswllt cyntaf;
- deall yr heriau a'r rhesymau y tu ôl i unrhyw ddewis i beidio â gwneud defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- deall sut gallwn greu'r cyd-destun gorau posib er mwyn annog defnydd o Gymraeg wrth ddefnyddio'n gwasanaethau cyswllt cyntaf.

**Canfyddiadau** pwysicaf o'r ymarfer arsylwi oedd:

- bod cynnig rhagweithiol ar waith ym mhob derbynfa i ryw raddau, ond nad oedd hynny bob tro yn ddigon i annog defnydd o'r Gymraeg – roedd angen i'r defnyddwyr gwasanaeth glywed y Gymraeg er mwyn gwybod yn bendant bod y Gymraeg ar waith.
- mai cyfyng iawn yw'r cyfle i staff derbynfeydd wneud gwahaniaeth i ddewis iaith defnyddwyr gwasanaeth – dyma sy'n gosod gwir bwysigrwydd ar y cyfarchiad cyntaf gan y staff.
- bod canran uchel o'r rhyngweithiadau yn digwydd rhwng defnyddwyr gwasanaeth a staff oedd eisoes yn adnabod/yn gyfarwydd â'i gilydd.

Cynhaliwyd sesiynau i reolwyr, ar draws y sefydliadau a chafwyd diddordeb ar draws Gogledd Cymru. Mae **canllaw** wedi ei rannu sydd yn cynnwys rhestr o argymhellion i staff eu dilyn er mwyn annog defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae'r pwyntiau yn cynnwys:

1. Deall dewis iaith - beth yw'r cefndir cryno sydd angen i bawb wybod.
2. Amgylchedd – y gwahaniaeth rhwng y gweledol a'r clywed, a gwir bwysigrwydd y clywedol.
3. Cyfarch – y pwysigrwydd o gyfarch y defnyddwyr gwasanaeth gan gymryd cyfrifoldeb am ddewis iaith.
4. Ymateb – sut i fod yn ymatebol mewn amrywiol sefyllfaoedd ac yn ddibynnol ar lefel sgiliau iaith y staff.
5. Cofnodi – pwysigrwydd cofio dewis iaith, fel nad yw defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn dro ar ôl tro.

Mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn yn lleol ac yn rhanbarthol am y prosiect yma a rydym wedi ein hysgogi i ymgymryd a gwaith pellach i edrych ar arferion da a llunio argymhellion wrth gynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn y flwyddyn nesaf. Mae'r Byrddau Gwasanaethau eraill ar draws y Gogledd yn awyddus i gydweithio gyda ni ar hyn ac mae'n debyg bydd swm o arian yn cael ei ddosrannu o'r Gronfa Rhanbarthol i ariannu'r gwaith.

### 5.1.6 Meysydd Gwaith Eraill:

Rydym yn cydweithio â phartneriaethau a chyrff cenedlaethol eraill i osgoi dyblygu ac i rannu syniadau. Eleni rydym wedi -

- Cymryd rhan yng ngweithgorau Llywodraeth Cymru i drafod cefnogaeth i ddatblygu asesiadau lles.

- Adrodd ar ein cynnydd i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn a Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ac wedi gweithredu ar eu argymhellion.
- Adolygu'r prif risgiau yn yr ardal a thrafod beth y gallwn ei wneud i helpu ein gilydd ac wedi datblygu cofrestr risg i'n helpu i fonitro ein risgiau lleol.
- Wedi bod yn rhan o ail-sefydlu Partneriaeth Ymchwil a Dealltwriaeth Gogledd Cymru sydd yn fforwm i swyddogion sydd yn gweithio i aelodau'r Bwrdd rannu ymchwil ag ymarfer da.
- Wedi gweithio i sicrhau swm o arian o'r Gronfa Ymchwil Rhanbarthol i ariannu'r prosiect iaith yn 2023/24.
- Parhau i weithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, sydd wedi'n cefnogi wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Llesiant.
- Wedi cydweithio gyda'r Athro Elizabeth Woodcock sydd wedi cynnal ymchwiliad academaidd i heriau, cyfleoedd a gweithrediadau y Bwrdd – hyn yn unigryw ar draws Gymru.

### 5.1.7 Edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod

- Yn ystod Haf 2023 byddwn yn **lawnsio ein Cynllun Llesiant** ar gyfer y cyfnod 2023-28 ac yn cychwyn ar lunio cynllun cyflawni blynyddol.
- Byddwn yn croesawu Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn **Eisteddfod Genedlaethol 2023** – cawn cyfle i godi ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd a hynny mewn sefyllfa naturiol Gymreig a chynnal Panel Trafod am yr Amcanion Llesiant a'r Ddeddf.
- Byddwn yn cyd-weithio ar Gynllun Cyflawni Blynyddol a rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod y Bwrdd yn gwneud gwir wahaniaeth yn y meysydd blaenoriaeth. Hefyd yn rhoi ystyriaeth i argymhellion yr Athro Elizabeth Woodcock wrth gynllunio trefniadau gweithredol y Bwrdd. Fel rhan o ddatblygu'r gwaith hwn, mae arnom eisiau adeiladu ar ein gwaith **ymgysylltu** a pharhau i ymgysylltu yn ystyrlon. Rydym am sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael eu clywed ac y byddant yn helpu i siapio ein Cynllun Cyflawni blynyddol.
- Mae'r is-grŵp wedi derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd i symud ymlaen gyda'i phrosiect **iaith Gymraeg** nesaf, sef i edrych ar arferion da a llunio adroddiad o argymhellion wrth gynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn ein sefydliadau cyhoeddus. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Bwrdd o'r heriau o gynllunio'r gweithlu a sut i'w cyfarch gan edrych ar ymarferion da y gall sefydliadau eu defnyddio. Byddwn yn adrodd ar hyn yn ein adroddiad blynyddol nesaf.
- Ym mis Mehefin 2023 byddwn yn croesawu swyddogion Llywodraeth Cymru i ymweld a hybiau a chynghreiriau cymunedol ar draws Gwynedd a Môn dros dri diwrnod er mwyn dangos cryfderau a heriau ein cymunedau gwledig. Bydd hyn yn siapio eu **Polisi Cymunedol** newydd – gyda'r dealltwriaeth bydd y Bwrdd yn parhau i fod yn rhanddeilydd wrth ddatblygu'r polisi.

**5.2 Monitro:**

**5.2.1** Mae'r tri is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Mae'r is-grwpiau yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno.

**5.2.2** Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i gefnogi a chynnal gwaith yr is-grwpiau. Yn ogystal mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

| |
|---|
| **5.3 Trefniadau Craffu:**<br>**5.3.1** Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / Sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.<br><br>**5.3.2** Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:<br>• Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC<br>• Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant<br>• Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant |

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar ôl ei chwblhau ar yr AEC |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Mae Tim Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith(e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu a'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Dim |

| |
|---|
| **8 – Atodiadau** |
| Atodiad 1 - Adroddiad blynyddol 2022-23 |

| |
|---|
| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| Cynllun Llesiant Gwynedd a Mon 2018-23<br>Asesiadau Llesiant Gwynedd a Mon 2022<br>Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28 |

## Atodiad 1

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 2022-23

## 1. Rhagair y Cadeirydd

Dyma gyflwyno adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn ar gyfer 2022-23. Y flwyddyn hon oedd blwyddyn olaf ein Cynllun Llesiant 2018-23. Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gennym fel Bwrdd i wella llesiant ein cymunedau yn ystod y cyfnod 2022-23.

Wrth edrych yn ôl dros 2022/23 mae sgìl effeithiau argyfwng Covid-19 yn parhau i'w deimlo ar ein gwasanaethau, ein busnesau a'n trigolion. Mae argyfwng pellach wedi dod i'r amlwg mewn meysydd megis tlodi a chostau byw, materion iechyd meddwl, gwydnwch cymunedol, ail gartrefi a bygythiadau i'r iaith Gymraeg. Fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rydym wedi ymdrechu i fynd i'r afael â'r materion hyn gyda'n gilydd yn unol â'r hyn oedd wedi ei amlinellu yn ein Cynllun Llesiant presennol.

Un o'r prif heriau yw darganfod ble gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth fel Bwrdd, a hynny gyda'r adnoddau a chapasiti cyfyngedig sydd ar gael i ni. Wrth ddatblygu ein Cynllun Llesiant newydd rydym wedi cynnal sgyrsiau am ble gallwn ni wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu'r gwaith da sydd eisoes ar y gweill mewn partneriaethau a sefydliadau eraill.

Rydym yn falch iawn o'r ymgysylltu a gyflawnwyd eleni ac un awyddus i adeiladu ar y gwaith hyn a pharhau i ymgysylltu yn ystyrlon. Rydym am sicrhau bod llais y cyhoedd yn helpu i siapio ein cynlluniau cyflawni i'r dyfodol.

Gallwch fynd ar ein gwefan i wybod mwy ac i ddysgu am ein cynnydd hyd yma.

**Aled Jones-Griffith,**
**Pennaeth Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**

## 2. Cefndir

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Hefyd, sefydlodd y Ddeddf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

Rydym bellach yn flwyddyn olaf Cynllun Llesiant 2018-23 ar gyfer Gwynedd a Môn, lle roedd y Bwrdd wedi blaenoriaethu chwe maes gwaith: Yr iaith Gymraeg; Tai i bobl leol; Effaith tlodi ar lesiant

ein cymunedau; Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau; Iechyd a gofal oedolion a Llesiant a chyflawniad plant a phobl ifanc. Mae'r Bwrdd wedi dysgu o brofiad ac wedi addasu ei strwythurau dros y cyfnod.

## 3. Beth sydd wedi ei gyflawni eleni:

### 3.1 Darparu Cynllun llesiant 2023-28

Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd Asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Mae wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd a chwech ar Ynys Môn. Mae'r wybodaeth yn dod â data lleol, negeseuon o waith ymgysylltu â chymunedau a gwaith ymchwil cenedlaethol ynghyd. Mae'r Llyfrynnau Gwybodaeth ar gyfer pob ardal ar gael ar ein gwefan.

Yn dilyn cyhoeddi yr Asesiadau Llesiant ym mis Mai 2022 defnyddiwyd hwy fel cyfeiriad i flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer llunio Cynllun Llesiant 2023-28. Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol roedd naw prif neges yn cael eu hamlygu yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan:

- Ymateb i dlodi a chostau byw
- Gwella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
- Gwella iechyd a lles meddyliol
- Newid hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau net sero
- Hybu defnydd yr iaith Gymraeg
- Galluogi profiad cyfartal a mynediad i natur
- Cynllunio gweithlu i'r dyfodol sy'n ateb anghenion y gymuned a'r economi leol
- Sicrhau tai i bobl leol
- Dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfres o weithdai pellach gydag Aelodau'r Bwrdd yn ystod 2022 ar sail y prif negeseuon a adnabuwyd er mwyn blaenoriaethu a thrafod sut y byddai modd ymateb i'r materion a amlygwyd.

Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau llesiant, mae'r Bwrdd wedi adnabod **tri Amcan Llesiant i gyd weithio arnynt yn y cyfnod 2023-2028**:

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.*

Mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector cyhoeddus, credwn fod y rhain yn feysydd lle gallwn gydweithio yn well i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

Er nad yw'r iaith Gymraeg wedi ei hadnabod fel Amcan Llesiant penodol mae'n flaenoriaeth i'r Bwrdd a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r **iaith Gymraeg** ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu ymarfer da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus drwy'r Gymraeg.

## 3.2 Ymgynghoriad cyhoeddus at y Cynllun Llesiant 2023-28:

Yn unol a gofynion y Ddeddf cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft am gyfnod o 12 wythnos rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 6 Mawrth 2023. Darparwyd cyfleoedd priodol i unigolion, grwpiau diddordeb a sefydliadau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy gynnal gweithdai a sesiynau gwybodaeth. Roedd hefyd holiadur ar gael ar wefan y Bwrdd neu gopïau papur oedd ar gael mewn prif swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd. Roedd modd gwneud cais am gopïau ar ffurf amgen.
Derbyniwyd 499 o ymatebion i'r holiadur fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus gyda nifer o'r sylwadau yn cefnogi'r hyn sy'n cael ei gynnig. Cafwyd adborth gan oddeutu 200 o unigolion ychwanegol drwy ymgysylltu megis gweithdai a sesiynau gwybodaeth a gynhaliwyd trwy Fforymau Pobl Hŷn, ymgysylltu gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai yn Llangefni, grŵp o bobl ifanc digartref, a chyflwyno i Grŵpiau Trydydd Sector, a Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

Rhoddwyd sylw i'r ymgynghoriad ym Mhwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn a Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd. Hefyd bu sawl neges ar gyfrifon cymdeithasol y Bwrdd a rhannwyd rhain gan Aelodau eraill y Bwrdd ar eu cyfryngau hwy.

Rydym yn ffyddiog bod y Cynllun Llesiant bellach yn adlewyrchu nifer o'r sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriad a bydd y Bwrdd yn rhoi sylw i'r adborth i gyd eto dros y flwyddyn nesaf yn benodol wrth ddarparu Cynllun Cyflawni ar gyfer y meysydd blaenoriaeth.

## 3.3 Newid Hinsawdd:

**Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Sefydlwyd is-grŵp Newid Hinsawdd i annog cydweithio ymysg sefydliadau cyhoeddus ar liniaru effaith newid hinsawdd, ac yn enwedig effaith llifogydd arfordirol a mewndirol ar ein cymunedau. Rydym wedi adnabod yr angen i addysgu a gweithio gyda'n cymunedau i'w paratoi ar gyfer heriau presennol newid hinsawdd a'r rhai sy'n ein wynebu i'r dyfodol. Y nod yw ceisio lliniaru'r effaith y mae unrhyw achos o dywydd eithafol yn ei chael ar y cymunedau hynny. Yn ystod y cyfnod clo, bu i nifer ohonom sylwi ar bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol - roeddem yn defnyddio llai ar ein ceir ac fe welsom effeithiau positif hynny ar ansawdd yr aer a dŵr.

**Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae'r is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u datblygu fel rhan o egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf drwy:

- ddeall anghenion y cymunedau penodol sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer y **tymor hir**
- **gweithio gyda** nifer o gyrff cyhoeddus a'n cymunedau
- **cynnwys** ein rhan-ddeiliaid fel rhan hanfodol o waith yr is-grŵp

## 3.4 Yr iaith Gymraeg

**Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Mae'r Bwrdd yn deall pa mor bwysig yw'r iaith Gymraeg i'n cymunedau ledled Gwynedd a Môn, a'i bod yn rhan o wead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae medru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn y Gymraeg yn

bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel yr iaith o ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir. Fel cyrff cyhoeddus, rydym yn ceisio sicrhau bod y dinesydd yn parhau i ymgysylltu â cyrff cyhoeddus yn ei ddewis iaith, ac rydym yn parhau i fod yr un mor angerddol am gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Diweddariad ar y gwaith eleni**

Yn ystod 2022/23, comisiynwyd gwaith ymchwil i'r rhesymau pam fod pobl yn dewis defnyddio'r Gymraeg neu beidio wrth dderbyn gwasanaethau cyswllt cyntaf.

**Bwriad** y gwaith ymchwil oedd:

- deall arferion ieithyddol y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau cyswllt cyntaf;
- deall yr heriau a'r rhesymau y tu ôl i unrhyw ddewis i beidio â gwneud defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- deall sut gallwn greu'r cyd-destun gorau posib er mwyn annog defnydd o Gymraeg wrth ddefnyddio'n gwasanaethau cyswllt cyntaf.

**Canfyddiadau** pwysicaf o'r ymarfer arsylwi oedd:

- bod cynnig rhagweithiol ar waith ym mhob derbynfa i ryw raddau, ond nad oedd hynny bob tro yn ddigon i annog defnydd o'r Gymraeg – roedd angen i'r defnyddwyr gwasanaeth glywed y Gymraeg er mwyn gwybod yn bendant bod y Gymraeg ar waith.
- mai cyfyng iawn yw'r cyfle i staff derbynfeydd wneud gwahaniaeth i ddewis iaith defnyddwyr gwasanaeth – dyma sy'n gosod gwir bwysigrwydd ar y cyfarchiad cyntaf gan y staff.
- bod canran uchel o'r rhyngweithiadau yn digwydd rhwng defnyddwyr gwasanaeth a staff oedd eisoes yn adnabod/yn gyfarwydd â'i gilydd.

Cynhaliwyd sesiynau i reolwyr, ar draws y sefydliadau a chafwyd diddordeb ar draws Gogledd Cymru. Mae **canllaw** (linc) wedi ei rannu sydd yn cynnwys rhestr o argymhellion i staff eu dilyn er mwyn annog defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae'r pwyntiau yn cynnwys:

6 Deall dewis iaith - beth yw'r cefndir cryno sydd angen i bawb wybod.
7 Amgylchedd – y gwahaniaeth rhwng y gweledol a'r clywed, a gwir bwysigrwydd y clywedol.
8 Cyfarch – y pwysigrwydd o gyfarch y defnyddwyr gwasanaeth gan gymryd cyfrifoldeb am ddewis iaith.
9 Ymateb – sut i fod yn ymatebol mewn amrywiol sefyllfaoedd ac yn ddibynnol ar lefel sgiliau iaith y staff.
10 Cofnodi – pwysigrwydd cofio dewis iaith, fel nad yw defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn dro ar ôl tro.

Mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn yn lleol ac yn rhanbarthol am y prosiect yma a rydym wedi ein hysgogi i ymgymryd a gwaith pellach i edrych ar arferion da a llunio argymhellion wrth gynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn y flwyddyn nesaf. Mae'r Byrddau Gwasanaethau eraill ar draws y Gogledd yn awyddus i gydweithio gyda ni ar hyn ac mae'n debyg bydd swm o arian yn cael ei ddosrannu o'r Gronfa Rhanbarthol i ariannu'r gwaith.

### 3.5 Meysydd Gwaith Eraill:

Rydym yn cydweithio â phartneriaethau a chyrff cenedlaethol eraill i osgoi dyblygu a rhannu syniadau. Eleni rydym wedi -

- Cymryd rhan yng ngweithgorau Llywodraeth Cymru i drafod cefnogaeth i ddatblygu asesiadau lles.
- Adrodd ar ein cynnydd i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn a Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ac wedi gweithredu ar eu argymhellion.
- Adolygu'r prif risgiau yn yr ardal a thrafod beth y gallwn ei wneud i helpu ein gilydd ac wedi datblygu cofrestr risg i'n helpu i fonitro ein risgiau lleol.
- Wedi bod yn rhan o ail-sefydlu Partneriaeth Ymchwil a Dealltwriaeth Gogledd Cymru sydd yn fforwm i swyddogion sydd yn gweithio i aelodau'r Bwrdd rannu ymchwil ag ymarfer da.
- Wedi gweithio i sicrhau swm o arian o'r Gronfa Ymchwil Rhanbarthol i ariannu'r prosiect iaith yn 2023/24.
- Parhau i weithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, sydd wedi'n cefnogi wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Llesiant.
- Wedi cydweithio gyda'r Athro Elizabeth Woodcock sydd wedi cynnal ymchwiliad academaidd i heriau, cyfleoedd a gweithrediadau y Bwrdd – hyn yn unigryw ar draws Gymru. (Linc i'r adroddiad fan hyn.)

## 4. Edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod

- Yn ystod Haf 2023 byddwn yn **lawnsio ein Cynllun Llesiant** ar gyfer y cyfnod 2023-28 ac yn cychwyn ar lunio cynllun cyflawni blynyddol.
- Byddwn yn croesawu Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn **Eisteddfod Genedlaethol 2023** – cawn cyfle i godi ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd a hynny mewn sefyllfa naturiol Gymreig a chynnal Panel Trafod am yr Amcanion Llesiant a'r Ddeddf.
- Byddwn yn cyd-weithio ar Gynllun Cyflawni Blynyddol a rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod y Bwrdd yn gwneud gwir wahaniaeth yn y meysydd blaenoriaeth. Hefyd yn rhoi ystyriaeth i argymhellion yr Athro Elizabeth Woodcock wrth gynllunio trefniadau gweithredol y Bwrdd.
- Fel rhan o ddatblygu'r gwaith hwn, mae arnom eisiau adeiladu ar ein gwaith **ymgysylltu** a pharhau i ymgysylltu yn ystyrlon. Rydym am sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael eu clywed ac y byddant yn helpu i siapio ein Cynllun Cyflawni blynyddol.
- Mae'r is-grŵp wedi derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd i symud ymlaen gyda'i phrosiect **iaith Gymraeg** nesaf, sef i edrych ar arferion da a llunio adroddiad o argymhellion wrth gynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn ein sefydliadau cyhoeddus, bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Bwrdd o'r heriau o gynllunio'r gweithlu a sut i'w cyfarch gan edrych ar ymarferion da y gall sefydliadau eu defnyddio. Byddwn yn adrodd ar hyn yn ein adroddiad blynyddol nesaf.
- Ym mis Mehefin 2023 byddwn yn croesawu swyddogion Llywodraeth Cymru i ymweld a hybiau a chynghreiriau cymunedol ar draws Gwynedd a Môn dros dri diwrnod er mwyn dangos cryfderau a heriau ein cymunedau gwledig. Bydd hyn yn siapio eu **Polisi Cymunedol** newydd – gyda'r dealltwriaeth bydd y Bwrdd yn parhau i fod yn rhanddeilydd wrth ddatblygu'r polisi.

## 5. Cymerwch ran:

Fe hoffem i chi gadw mewn cysylltiad a bod yn rhan o'n gwaith.   Gallwch:

- Ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol drwy …
- Cymryd rhan a rhannu eich barn trwy ein gwefan ...
- E-bostio ni ar .....
- Ysgrifennu atom at
- Ein ffonio ni ar...

Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a braille.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Adroddiad Sgriwtni** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21ain Fehefin 2023** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Rheoli Cyrchfan** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adolygu canlyniad y broses ymgynghori ddiweddar ar y Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Neville Evans** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch – Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Andy Godber – Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol**<br>**01248 752431**<br><br>**andygodber@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i bob Aelod Etholedig** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Argymhellir bod y Pwyllgor Craffu yn: |
| A1 Adolygu cwmpas a chynnwys y Cynllun Rheoli drafft |
| A2 Argymell y Cynllun Rheoli Cyrchfan i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun y Cyngor 2023/28 ac mae ganddo'r egwyddor gyffredinol allweddol o sicrhau datblygu cynaliadwy wrth ei wraidd. Yn ogystal, bydd yn sicrhau erbyn 2028 ein bod wedi<br>▪ Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi leol<br>▪ Tyfu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy i sicrhau buddion i'n cymunedau a'n hymwelwyr |

| **3 – Guiding Principles for Scrutiny Members** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>▪ Hirdymor<br>▪ Atal<br>▪ Integreiddio<br>▪ Cydweithio |

- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Mae'r adroddiad yn trafod proses ymgynghori gyhoeddus ddiweddar. I ba raddau roedd y broses yn briodol, yn gynhwysfawr ac yn gadarn?
2. Sut mae canlyniadau'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y ddogfen derfynol?
3. Pam mae'r Awdurdod Lleol yn paratoi Cynllun Rheoli Cyrchfan a sut mae'r Cynllun yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor: 2023/2028?
4. Beth yw'r cyfleoedd, heriau a risgiau allweddol?
5. Sut bydd y model partneriaeth arfaethedig – Sefydliad Rheoli Cyrchfan – yn gweithredu a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro?
6. Sut bydd y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol, croeswasanaethau, fel un endid i reoli effeithiau a chyfleoedd ymwelwyr ar yr Ynys?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Mae'r economi ymwelwyr yn hanfodol i sefyllfa economaidd gynaliadwy Ynys Môn, ac mae'r cynllun yn amlygu ein hymrwymiad i wella hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg dros y 3 blynedd diwethaf y gall twristiaeth nas wiriwyd - effeithio'n andwyol ar fywydau pobl a'r rhinweddau unigryw, sy'n gwneud yr ynys mor gyfystyr a gyrru'r mwyafrif helaeth o weithgareddau i dwristiaid.

Mae'r cynllun drafft yn bwriadu unioni'r anghydbwysedd hwn a sicrhau trwy grŵp aml-sefydliadol/diddordebau newydd bod y buddion o gynnig bywiog ac amrywiol yn gallu gwella rhinweddau allweddol iaith, diwylliant, yr amgylchedd a threftadaeth.

Mae'r Cynllun drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 6 wythnos rhwng 28ain Ebrill a 9fed Fehefin ac wedi cael ei ddiweddaru'n dilyn hynny i adlewyrchu'r sylwadau a dderbyniwyd (lle bo'n berthnasol ac yn briodol).

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu cadarnhau yn yr adroddiad ymgynghori.

Yn gyffredinol, mae'r cynllun wedi cael derbyniad da gan ymatebwyr, gyda 55% yn cytuno â'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a 26% yn anghytuno. O ystyried ein bod yn ceisio cydbwyso gwydnwch economaidd â newid sylweddol i sicrhau bod nodweddion unigryw'r ynys yn cael eu diogelu a'u gwella, mae hyn yn cael ei ystyried yn gadarnhol.

Yn yr un modd, mae 53% yn cytuno ag egwyddorion arweiniol y cynllun, gyda 26% yn anghytuno.

Roedd y sylwadau'n ymwneud yn bennaf â'r angen i sicrhau nad oedd twristiaeth yn cael effaith andwyol ar yr ynys a'i chymunedau, gyda'r problemau sy'n ymwneud â cherbydau gwersylla a meysydd parcio yn dod i'r amlwg. Cefnogwyd hyn gan sylwadau yn ymwneud â sicrhau bod

cyfleusterau o fewn cymunedau o safon uchel, a bod cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth cerdded a beicio yn cael digon o adnoddau a blaenoriaeth.

Amlygwyd nifer yr ail gartrefi a llety hunanarlwyo fel risg uchel i gymunedau, a'r risg i gadw diwylliant ac iaith. Roedd y pwnc hwn hefyd yn arwain at ymatebion cadarnhaol a negyddol i gyflwyno ardoll ymwelwyr a thrwyddedu statudol.
Roedd yr angen i ddiogelu'r rhinweddau arbennig yn thema oedd yn rhedeg drwy'r sylwadau, gyda gwarchod natur a thirwedd o ddiddordeb arbennig.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

- Effaith gadarnhaol ar y rhai ag anableddau drwy wella cyfleoedd mynediad i gefn gwlad

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

- Derbynnir cyfleoedd i wella iechyd a lles, a rhyngweithio cymdeithasol sy'n deillio o fwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i gael mynediad i gefn gwlad. Mae hwn yn un o brif nodau'r cynllun.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

- Byddwn yn cydymffurfio efo Polisi Iaith Gymraeg CSYM, a bydd y cynllun yn mynd ati i hyrwyddo'n weithredol y defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Iaith yn weledol ac wedi ei amlygu fel safon sylfaenol yr Ynys, a byddwn yn gweithio gyda'r sector preifat i sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gweld defnydd o'r Gymraeg fel rhan allweddol o'u model busnes.

**7 – Goblygiadau Ariannol**

- Mae cyllidebau'n bodoli o fewn Swyddogaeth Cyrchfan i baratoi a gweithredu'r Cynllun. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd ariannu allanol yn cael eu harchwilio i wneud y mwyaf o gyflawni ac effaith y Cynllun

**8 – Atodiadau**

- Cynllun Rheoli Cyrchfan Drafft
- Adroddiad Ymgynghori

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# DRAFFT
# Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2023 -2028

# Cynnwys


- Gosod y cyd-destun
- Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn 2023-2028
- Beth yw Rheoli Cyrchfan?
- Pam Rheoli Cyrchfan?
- Gwerth economi ymwelwyr Ynys Môn
- Yr heriau a’r cyfleoedd i economi ymwelwyr Ynys Môn
- Dull strategol
- Egwyddorion a Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2028
- Cynllun gweithredu lefel uchel
- Camau nesaf




# 1. Gosod y cyd-destun

Mae’r Cyrchfan ac economi ymwelwyr yn hanfodol i ffyniant a’r cynnig unigryw sydd gan Ynys Môn.

Rydym wedi ein bendithio ag amgylchedd amrywiol sy’n cyd-fynd â chwmpas amrywiol y cynigion i dwristiaeth a phrofiadau ymwelwyr. Ynys Môn yw’r sir sy’n dibynnu fwyaf ar y diwydiant hwn yn y DU, gan gynhyrchu mwy na £360m y flwyddyn yn yr economi leol, ac yn gymorth uniongyrchol i ~3,698 o swyddi. Felly, mae’n hynod o bwysig bod y cynllun hwn yn cynorthwyo a darparu buddion ystyrlon i bobl a chymunedau sydd mor ddibynnol ar y sector hwn.

Fodd bynnag, mae yna fregusrwydd sylfaenol i economi Ynys Môn, wedi'i nodweddu gan lefelau uchel o ymfudo ymysg pobl ifanc, yn ogystal â diweithdra ag amddifadedd cymdeithasol. Un o’r prif anawsterau sy’n wynebu economïau ymylol fel Ynys Môn yw’r gallu i greu gwaith newydd. Twristiaeth yw un o’r sectorau sy’n gallu, ac wedi, cyfrannu at ffyniant lleol ac ansawdd bywyd ar Ynys Môn.

Mae’r bregusrwydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr amgylchedd naturiol, gyda chynefinoedd a rhywogaethau’n dod yn fwy toredig a dan hyd yn oed fwy o fygythiad. Gall twristiaeth chwarae rhan arwyddocaol yn amlygu pwysigrwydd amgylchedd naturiol Ynys Môn, ac felly’n cynorthwyo’r ‘argyfwng byd natur’ yn ogystal â dod a buddion iechyd a llesiant.

Fodd bynnag, gall economi ymwelwyr gael effaith negyddol hefyd. Gall y cynnydd parhaus yn nifer yr ymwelwyr greu pwysau nad oes croeso iddo ar y gymuned leol.

O ganlyniad, ni ellir gadael i dwristiaeth dyfu heb ei reoli; mae’n rhaid iddo gael ei reoli mewn modd cynaliadwy, i wneud y gorau o’r buddion ffyniant hirdymor a lliniaru effaith negyddol posibl.

Drwy ddull cydweithredol, mae gan Ynys Môn y cyfle i weithredu nawr drwy weithredoedd a chynllunio ymlaen llaw clir. Mae angen cyfoethogi’r cynnig presennol drwy sicrhau bod yna anghenion sylfaenol megis seilwaith priffyrdd, mynediad cyhoeddus gwell, cyfleusterau cyhoeddus a darpariaeth gwybodaeth yn addas, a gwydn rhag pwysau megis newid hinsawdd.

Wrth sicrhau’r angen sylfaenol hwn, mae gennym gyfle i gynigion presennol gael eu cryfhau, gan deimlo’n ddiogel o wybod bod y profiad yn cael ei gyfoethogi ymhellach gan groeso Ynys Môn sydd eisoes yn gonglfaen i’r cynnig ymwelwyr.

O’r safle hwn sydd wedi ei gryfhau bydd cyfleoedd newydd yn codi, ac ar y cyd â phartneriaid a chymunedau, gallwn ddatblygu’r cynnig yn seiliedig ar briodweddau unigryw Ynys Môn mewn modd cynaliadwy.

**Ar gyfer pwy mae'r cynllun?**

- 68,900 Trigolion
- 55.8% Siarad Cymraeg
- 3,698 Gweithwyr mewn twristiaeth
- 5.2 miliwn ymwelwyr
- 50Km Arfordir Treftadaeth
- 1 UNESCO Geoparc byd-eang
- 32 SSSI’s – Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- 221 KM Sgwâr Maint ein AHNE
- 75 Henebion Rhestredig
- 2nd Busiest Port in the UK And Wales busiest cruise port
- 35,843 Gwelyau
- 125 Milltir Llwybr yr Arfordir

# 2. Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn 2023-2028



Mae Ynys Môn yn lle arbennig o unigryw, gyda hanes, diwylliant a threftadaeth doreithiog, ynghyd â thirweddau sydd heb eu difetha ac ag amrywiaeth ecolegol.

Rydym yn awyddus i gael economi ymwelwyr sy'n empathetig i ymdeimlad o le'r Ynys, ac sydd o fudd i'r bobl, yr amgylchedd, y diwylliant, y dreftadaeth a'r iaith, ac sy'n parhau i chwarae rhan hanfodol yn sefydlogrwydd economaidd yr ynys.


Mae'r cynllun hwn yn awyddus i gyfoethogi'r ysbryd o gydweithio a ffordd holistig o feddwl i ddatblygu cynnig sy'n gwella'r gwerthoedd allweddol hyn, a darparu buddion economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau lleol.

# 3. Beth yw Rheoli Cyrchfan?

Mae rheoli cyrchfan yn ymwneud â 'rheoli'r cyrchfan ar ei ffurf ehangaf er budd pawb'.

- Mae hwn yn gysyniad seiliedig ar le, sy'n ymwneud â'r holl amgylchedd lle mae ymwelwyr, pobl leol a thwristiaeth yn rhwydweithio.
- Mae'n canolbwyntio ar yr elfennau sy'n denu ymwelwyr, yn ogystal â'r seilwaith a'r gwasanaethau sy'n cynorthwyo eu hymweliad. Mae'r term 'ymwelwyr' yn berthnasol i'r rhai sy'n treulio'u gwyliau yn yr ardal fel twristiaid, ond mae hefyd yn cynnwys pobl leol sy'n ymweld â'r ardal am ddiwrnod neu lai.
- Nid yw rheoli cyrchfan felly'n cynnwys twristiaid yn unig, ond effaith ehangach pobl, yn cynnwys pobl leol ac ymwelwyr cyfagos, sy'n defnyddio gwasanaethau, seilwaith ac yn mwynhau asedau lleol. Mae'n ymestyn i bob agwedd o'r economi ac yn gofyn am gydweithio i'w gynnal yn effeithiol a chynaliadwy.
- Mae'n ymwneud â rheoli gweithredol, ariannol a ffisegol cyrchfan, yn ogystal â'i gynllunio, datblygu a marchnata.





# 4. Pam Rheoli Cyrchfan?



Mae yna sawl ffactor yn ysgogi'r angen i ddiweddaru cynllun rheoli cyrchfan Ynys Môn i'w wneud yn barod i weithio gyda heriau a chyfleoedd 2023 a thu hwnt.

Mae'r economi ymwelwyr, a'r cyd-destun gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yn wahanol iawn i'r hyn oedd yn 2015 pan gafodd y cynllun diwethaf ei ddrafftio.

Mae'r newidiadau hyn, ymysg eraill, yn cael eu dangos yn y graffig gyferbyn ac yn egluro'r angen am gynllun wedi ei ddiweddaru a model darparu.

## Cyd-destun y Polisi


Mae angen y Cynllun Rheoli Dynodiad hwn i gydnabod y cyd-destun newid polisi ers y Cynllun Rheoli diwethaf yn 2016, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Bolisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol (sy'n cael eu harchwilio ar y dudalen nesaf)
- Llai o gapasiti ar gyfer cymorth / darpariaeth gan Awdurdod Lleol
- Diogelu'r iaith Gymraeg
- Arian a Buddsoddiad Ffyniant Bro yng Nghaergybi
- Polisïau a threthi ail gartrefi

## Economi ymwelwyr

Mae'r economi ymwelwyr wedi newid ers Cynllun Reoli Dynodiad 2016-2020. Bydd yn rhaid i'r strategaeth hon ymateb i:

- Newid yn y proffil ymwelwyr: ymwelwyr dydd yn erbyn ymwelwyr sy'n aros dros nos
- Cynnydd mewn perchnogi ail gartrefi
- Twf mewn gosod eiddo tymor byr (Airbnb a VrBo)
- Trawsnewid digidol



## Cynaliadwyedd a sero net

Mae risg ffisegol newid hinsawdd, ynghyd â phwysau cynyddol nifer yr ymwelwyr ar yr amgylchedd yn ysgogi'r angen i fabwysiadu arferion mwy amgylcheddol cynaliadwy a'r trawsnewid i sero net. Adlewyrchir hyn yn y canlynol:

- Cynllun CSYM Tuag at Sero Net 2022-2025
- Cynllun Bioamrywiaeth
- Yr angen am wytnwch a rheoli adnoddau naturiol

## Cyd-destun economaidd

Roedd pandemig Civid-19 yn amlygu'r angen i ymgorffori gwytnwch i reoli cyrchfan, gyda'r angen i fynd i'r afael â:

- Seilwaith a chapasiti: sut i gael y pethau sylfaenol yn gywir, sicrhau buddion ac osgoi unrhyw darfu ar bobl leol wrth ddarparu profiad ymwelwyr o ansawdd
- Bylchau mewn sgiliau a chyflogaeth yn y sector

# 5. Dull strategol

Nod y Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn yw ystyried a chynorthwyo'r amcanon strategol ehangach a nodir yn y polisïau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y diagram gyferbyn. Mae cynlluniau a pholisïau allweddol wedi eu nodi â seren ac yn cynnwys:


★ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, 2015
Agwedd allweddol o gynnig ymwelwyr Ynys Môn yw amlygu'r diwylliant a'r iaith ffyniannus yng Nghymru, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â dyheadau'r Ddeddf hon.

★ Croeso i Gymru: Mae blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr, 2020-2025 yn annog y sector i gyfuno ffocws lleol yn gyntaf yn dathlu diwylliant, sgiliau a busnesau cartref a chymunedau (Bro) gyda lefelau rhyngwladol o ansawdd ac uchelgeisiau (Byd). Mae hyn, ynghyd â blaenoriaethau allweddol Croeso Cymru yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn.

★ Cynllun Corfforaethol CSYM (2023-2028)
Mae twristiaeth yn rhan allweddol o Ynys Môn, felly mae angen i bolisïau a chynlluniau'r Ynys gynorthwy'r seilwaith twristiaeth a busnesau presennol yn ogystal â hyrwyddo'r cyfleoedd i ddatblygu yn y dyfodol. Yn yr un modd, bydd angen i'r cynllun hwn alinio'n agos â'r nodau mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio eu cyflawni ar gyfer y gymuned leol.

Ar adeg paratoi'r cynllun hwn, nid oes eglurder ar weithredu'r ardoll dwristiaeth na chynllun cofrestru statudol. Os yw'n berthnasol, bydd y cynllun hwn yn cynorthwyo ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun yn llwyddiannus.





# 6. Effaith economi ymwelwyr Ynys Môn


## Effaith economaidd yn 2021:

effaith economaidd £342.87 miliwn

3,698 o weithwyr llawn amser (sectorau'n ymwneud â thwristiaeth)

Gwelwyd cynnydd o 46.7% yn yr effaith economaidd yn 2021 o gymharu â 2010

Mae 90% o effaith economaidd yn dod o 53% o ymwelwyr (y rhai sy'n aros dros nos). Mae ymwelwyr sy'n aros yn cyfrannu llawer mwy y pen yn nhermau effaith economaidd



Mae economi ymwelwyr Ynys Môn yn darparu ffynhonnell sylweddol o incwm a chyflogaeth i'r Ynys. Mae'r cynllun hwn yn awyddus i ddatblygu ei gryfderau a chynorthwyo i ddatblygu cynaladwyedd

## Niferoedd yr ymwelwyr yn 2021:

1.48 miliwn o ymwelwyr, 91% o lefel cyn 2020

5.28 miliwn dyddiau ymwelwyr

Mae 15% o ymwelwyr y flwyddyn (dros 250,000) yn ymweld ym mis Awst

## Ffigyrau llety yn 2021:

0.76 miliwn o ymwelwyr (cyfanswm o 50%) yn aros mewn llety wedi'i dalu amdano

Mae 97% o ymwelwyr gyda llety mewn llety heb wasanaeth

1,067 Rhestr osod tymor (AirBnB aVrBo) byr

Cynnydd o 53% mewn rhestriadau ers 2017*

*Ffynhonnell: Sefydliad Bevan
Pob ffigwr arall o ddata STEAM 2021

# 7. Yr heriau a'r cyfleoedd i economi ymwelwyr Ynys Môn

Mae'r cynllun hwn yn ystyried yr heriau sy'n wynebu economi ymwelwyr Ynys Môn, yn ogystal â'r cyfleoedd cydweithio, arloesi a thwf cynaliadwy.

## HERIAU:

- Mae'r **cyllid sydd ar gael** i'r awdurdod lleol wedi gostwng yn sylweddol rhwng cyfnod y Cynllun Rheoli Cyrchfan diwethaf, yn enwedig i ddigwyddiadau anstatudol (megis twristiaeth) ac mae'r proffil cyllido'n aml yn dymor byr, sy'n cyfyngu'r gallu am newid strategol
- Gordwristiaeth a chyfyngiadau **capasiti**
- **Cynhwysiant** - gall y newid i dechnolegau **digidol** eithrio peth demograffeg. Dylid ystyried proffil oed ac iaith
- **Breguster amgylcheddol –** mae newid hinsawdd a datblygiad yn bygwth cynefinoedd a rhywogaethau lleol yn gynyddol.
- **Canfyddiadau** o dwristiaeth - ychydig o gydnabyddiaeth sydd i gyfraniad twristiaeth i'r Ynys ymysg y gymuned ehangach; fel cyflogwr allweddol, eginwr entrepreneuriaid a chyfrannwr i gyflogaeth ehangach mewn manwerthu, cyllid, telegyfathrebu a Phorthladd Caergybi.
- **Proffil** ymwelwyr - roedd gostyngiad mwy mewn ymwelwyr oedd yn aros o'i gymharu ag ymwelwyr dydd yn 2021 o'i gymharu â 2019*. Roedd yna 47% o ymwelwyr dydd yn 2021, er gwaetha'r ffaith mai dim ond 10% o'r gwariant ydyw (mae'n cyfrannu at yr heriau ynghylch capasiti a seilwaith)
- Perchnogion**Ail gartrefi ac Airbnb** yn cynyddu
- Diffyg **sgiliau** mewn sectorau

## CYFLEOEDD:

- Mae 'darganfyddwch beth sydd ar garreg eich drws' a 'meddyliwch yn fyd-eang, **gweithredwch yn lleol**' wedi cael ei annog ymysg defnyddwyr ers tro, fodd bynnag, yn ystod pandemig covid-19 fe ddaeth hyn yn gysyniad mwy pendant
- **Dod yn gyrchfan gynaliadwy** – mae cwmpasu cynaladwyedd yn gyfle i Ynys Môn ddatblygu ei brand ymhellach, er enghraifft drwy hyrwyddo teithio mwy actif a chynaliadwy, cwmpasu'r diffyg adeiladau ffyrdd a dod y "ynys werdd"
- Mae'r economi ymwelwyr yn dod â niferoedd o **fuddion i'r gymuned leol**, ond mae yna gyfle i'r rhain gael eu datblygu ymhellach a'u cyfleu'n well.
- Mae **diwylliant, treftadaeth, a natur unigryw** yn cael ei danwerthu (hanes, yr iaith Gymraeg, Geo Park UNESCO, AHNE). Cyfle i wella ymwybyddiaeth o le drwy arwyddion a dathlu hunaniaeth leol a brand.
- **Twristiaeth Awyr Dywyll** Cynorthwyo a hyrwyddo buddion awyr dywyll ymhellach
- Trawsnewid **Digidol** a marchnata
- Strategaeth **Twristiaeth Bwyd**
- **Cynnydd mewn chwaraeon antur** a thwristiaeth llesiant
- **Cyfranogiad ysgol ac addysg** – cynyddu ymgysylltiad plant yn dysgu am eu lle
- **Cryfder a pherfformiad** y sector twristiaeth ar Ynys Môn: yn hanesyddol mae wedi perfformio'n well na chyfartaledd Cymru a Gogledd Cymru (dros y cyfnod 2006-2017)
- **Llwybr Arfordir Cymru** Buddsoddi yn y seilwaith, marchnata a datblygu llwybr yr arfordir

# 8. Egwyddorion a Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2028

### 1. Dathlu a gwarchod ein diwylliant, iaith a treftadaeth

- Economi ymwelwyr lle mae'r cymunedau lleol yn teimlo perchnogaeth a'r grymuster i ysgogi ac adfywio'r model twristiaeth.
- Economi ymwelwyr sy'n ymgorffori a defnyddio cryfderau presennol ein hiaith a'n diwylliant yn gynaliadwy ac yn dod â'n treftadaeth i gynulleidfa ehangach.
- Economi ymwelwyr lle mae'r diwylliant yn cael ei ymgorffori, ac wrth wraidd pob gweithgaredd a chynnyrch hyrwyddo



### 2. Gwella ein profiadau ymwelwyr o safon a chynaliadwyedd economaidd

- Economi ymwelwyr all ddatblygu'n gynaliadwy o amgylch cynnig o ansawdd uchel lle mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi a pharchu diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Ynys Môn
- Economi ymwelwyr seiliedig ar weithgareddau a phrofiadau sy'n manteisio ar ddiwylliant, treftadaeth ac amgylchedd ond heb ei ddiraddio.
- Economi ymwelwyr lle mae seilwaith ymwelwyr o ansawdd a hawl i ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd hamdden cyfoethocach ac o ganlyniad, iechyd a llesiant gwell.

### 3. Cynnal a pharchu ein hamgylchedd a gweithredu i liniaru effeithiau newid hinsawdd

- Economi ymwelwyr lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei ddeall a gwelliannau i gyfalaf naturiol yn dod â buddion yn nhermau llesiant i bawb.
- Economi ymwelwyr lle mae gweithgareddau mewn cytgord â'r amgylchedd naturiol, ac yn cyfoethogi'r cynnig a'r tir a môr lle maent yn cael eu cynnal.
- Economi ymwelwyr sy'n fwy 'parod ar gyfer newid hinsawdd' ac yn gynyddol garbon niwtral.
- Economi ymwelwyr lle mae defnyddwyr wedi eu grymuso i gyfrannu'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag argyfwng hinsawdd a byd natur.

### 4. Sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd a lles i'n cymunedau

- Economi ymwelwyr lle mae ei seilwaith ac adnoddau'n cael eu cyfoethogi er budd y cymunedau lleol, ac sy'n addasu i liniaru effeithiau newid hinsawdd.
- Economi ymwelwyr lle mae pobl leol yn cael cyfleoedd i fod wrth wraidd y cynnig, gan fanteisio ar swyddi sgiliau newydd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Economi ymwelwyr gyda chynaladwyedd yn greiddiol sy'n gallu datblygu mewn gwerth economaidd a chymdeithasol a darparu cyfleoedd iechyd a llesiant i bawb.

# 9. Cynllun Gweithredu Lefel Uchel



# Dathlu a gwarchod ein diwylliant, iaith a treftadaeth

## Pam mae hyn yn bwysig?

Nid oes dim yn ymgorffori'r ysbryd o le yn fwy na'i bobl, ei iaith a'i ddiwylliant.

Mae diwylliant a threftadaeth unigryw Ynys Môn yn allweddol i'w synnwyr o le, gan ei wneud yn gyrchfan gofiadwy. Hyn, ynghyd â'n hamgylchedd naturiol, yw sylfaen y cynnig ymwelwyr. Mae yna gyfle i gyfleu a dathlu hyn ymhellach.

## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn darparu'r cynllun rheoli cyrchfan hwn mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid cymunedol lleol i sicrhau eu bod yn teimlo wedi eu grymuso i ysgogi model twristiaeth adfywiol.
- Byddwn yn ymgorffori cryfderau presennol ein hiaith a'n diwylliant yn gynaliadwy ac yn dod â'n treftadaeth i gynulleidfa ehangach.
- Byddwn yn datblygu economi ymwelwyr lle mae'r diwylliant yn cael ei ymgorffori, ac wrth wraidd pob gweithgaredd a chynnyrch hyrwyddo.
- O wneud hynny, ein nod yw creu cyrchfan sy'n unigryw a dilys i'w fwynhau gan bobl Ynys Môn a chenedlaethau'r dyfodol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol unigryw ar draws yr holl elfennau o'r cynnig ymwelwyr, gan sicrhau cynhwysiant a'r diwylliant.
- Byddwn yn ymgorffori a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol unigryw ar draws holl elfennau'r cynnig ymwelwyr, gan sicrhau bod cynhwysiant a diwylliant rhan greiddiol.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu'r buddsoddiad yn y Strategaeth Bwyd Môn, Llwybr Arfordir Cymru, twristiaeth Awyr Dywyll, chwaraeon antur a thwristiaeth llesiant a'u dathlu. Byddwn yn rheoli'r rhain gan ganolbwyntio ar dreftadaeth leol a chynaladwyedd.

# Gwella ein profiadau ymwelwyr o safon a chynaliadwyedd economaidd



## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae seilwaith ymwelwyr cynaliadwy drwy gydol y flwyddyn yn sicrhau bod ymwelwyr yn profi Ynys Môn ar ei gorau. Bydd cael y rhain yn iawn, gyda chroeso cymhwysol a synnwyr o fod yn amgylchedd naturiol unigryw, yn ysgogi i bobl aros yn hirach a dychwelyd.

Bydd sicrhau'r seilwaith a'r cynnig hwn yn diogelu a chyfoethogi'r amgylchedd ac yn allweddol i dwf economi'r ymwelwyr mewn modd cynaliadwy.

## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn datblygu a hyrwyddo brand Ynys Môn a rennir ac ymrwymiad a rennir, gan ddathlu'r gymuned leol, yr iaith a'r dirwedd.
- Byddwn yn datblygu cynnig profiad ymwelwyr dynamig ac ysbrydoledig yn seiliedig ar fwyniant cynaliadwy o rinweddau unigryw Ynys Môn, gan ddechrau drwy gael y pethau sylfaenol yn gywir.
- Byddwn yn sicrhau bod cyfleusterau allweddol a seilwaith ymwelwyr o ansawdd uchel.
- Byddwn yn manteisio ar sefyllfa Caergybi fel porth i ymwelwyr rhyngwladol.
- Byddwn yn cryfhau cynnyrch gydol y flwyddyn ar Ynys Môn, gan ymestyn y tymor a datblygu nifer cynyddol o brofiadau ysgogol i ymwelwyr a thrigolion eu mwynhau tu mewn a thu allan.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn gwella cyfleusterau ymwelwyr yn cynnwys meysydd parcio, toiledau, a mannau gwefru cerbydau trydan, yn ogystal â rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio hygyrch o ansawdd.
- Byddwn yn ystyried ffyrdd gwell o gyfeirio at atyniadau, un ai drwy dechnoleg ddigidol neu wella arwyddion a dynodi llwybrau.
- Byddwn yn gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau morol sy'n gysylltiedig â chodau ymddygiad gwell. (33)
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd i integreiddio ystyriaethau rheoli cyrchfan i bob penderfyniad cynllunio i sicrhau bod cludiant cyhoeddus, seilwaith a phrosiectau datblygu yn cynorthwyo'r economi ymwelwyr a phobl Ynys Môn
- Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod ymwelwyr llongau mordeithio a rhai dros dro yn darparu buddion economaidd a chymdeithasol i'r Ynys yn y modd mwyaf cynaliadwy ac amgylcheddol bosibl.
- Ymgysylltu â phartneriaid i gasglu, cwestiynu a rhannu data ynghylch twristiaeth ar Ynys Môn, i ddeall effaith twristiaeth mewn gwahanol rannau o'r sir yn benodol.

# Cynnal a pharchu ein hamgylchedd a gweithredu i liniaru effeithiau newid hinsawdd

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae tirweddau, morluniau ac amgylchedd naturiol Ynys Môn yn amrywiol a dramatig, ond dan fygythiad nifer o ffactorau yn cynnwys newid hinsawdd, gordwristiaeth a chynigion twristaidd sy'n diraddio'r gwerthoedd arbennig hyn.

Ni ellir tanbrisio gwerth cyrchfan ddilys, gydlynol sy'n doreithiog o asedau naturiol. Mae byd natur yn elfen greiddiol yn hunaniaeth brand Ynys Môn, yn cysylltu ymwelwyr a phobl leol i'r lle, ei werthoedd a'i gymeriad. Gall hyn ysgogi buddion diwylliannol, cymdeithasol, economaidd a llesiant mesuradwy a dylid ei ddathlu a'i warchod.

## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn ymgorffori egwyddorion rheoli cyrchfan cynaliadwy effeithiol ar draws pob un o'n meysydd gwaith, a sicrhau bod y cynnig yn cyfoethogi yn hytrach na diraddio'r amgylchedd naturiol.
- Byddwn yn defnyddio adnoddau diwylliannol a naturiol Ynys Môn i greu a hyrwyddo lle unigryw, arbennig, sy'n wahanol i gyrchfannau eraill.
- Byddwn yn gweithio â phartneriaid i gynllunio prosiectau sy'n canolbwyntio ar ddarparu tirwedd sy'n iachach, yn fwy ecolegol doreithiog a chysylltiol, ac yn gallu gweithredu fel catalydd ar gyfer cyfleoedd ymwelwyr newydd ac ailgysylltu rhwng pobl a byd natur.
- Byddwn yn sicrhau bod pwysigrwydd rheoli cyrchfan yn cael ei ddeall yn llawn ac y gallwn wneud ein heconomi ymwelwyr yn wydn i'r effeithiau hyn

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn rheoli safleoedd sensitif a datblygu ymyriadau i'w gwarchod, eu cyfoethogi a'u cadw nhw.
- Drwy'r broses gynllunio, byddwn yn rheoli datblygiad a allai fygwth ansawdd amgylched yr arfordir, apêl yr Ynys i ymwelwyr, neu gael effaith unigol anghymesur ar fusnesau twristiaeth.
- Byddwn yn sicrhau bod pwysigrwydd rheoli cyrchfan yn cael ei ymgorffori yng Ngwaith yr AHNE a phartneriaid yr amgylchedd naturiol.
- Byddwn yn defnyddio ymchwil i arfarnu effaith posibl newidiadau a ragwelir i natur dymhorol y tywydd ar y cynnig ymwelwyr, a chynllunio i liniaru'r effeithiau hyn.
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd i gysylltu rheoli cyrchfan gyda phrosiectau addasu arfordir/rheoli llifogydd naturiol.

# Sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd a lles i'n cymunedau

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r sector lletygarwch a thwristiaeth yn hanfodol i economi leol Ynys Môn, ac yn cyflogi llawer o bobl. Fodd bynnag, mae angen cymorth i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau a deall llawn botensial yr economi ymwelwyr yn darparu llesiant economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Ynys Môn.

Wrth i hyfforddiant fod yn un broblem posibl tu ôl i hyn, mae yna ffactorau cymhleth eraill, megis natur dymhorol nifer o fusnesau, neu'n wir y modd mae pobl ifanc yn gweld twristiaeth fel gyrfa yn y dyfodol.



## Beth ydym am ei wneud?

- Byddwn yn ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo pwysigrwydd yr economi ymwelwyr a chynorthwyo seilwaith a gwasanaethau, fel bod preswylwyr, cyrff partneriaid a busnesau fel ei gilydd yn rhan o'r darparu profiad.
- Byddwn yn cydweithio gyda sefydliadau addysg, addysg bellach ac uwch a gweithio gyda phartneriaid i nodi'r set sgiliau allweddol a'r problemau adnoddau presennol ac i'r dyfodol.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i annog ymgysylltu pellach gyda chynhyrchwyr bwyd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Byddwn yn cynorthwyo mentrau seiliedig ar y sector preifat sy'n darparu twf economaidd, gwaith teg, uwchsgilio a lleihad mewn ôl troed carbon ar yr Ynys: y math o ymddygiadau sydd eu hangen ar gyfer diwydiant twristiaeth cynaliadwy.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn mabwysiadu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth siliau uchel gydol y flwyddyn.
- Byddwn yn cydweithio â'r sector addysg i gydlynu gweithredu ar sgiliau, canfyddiad gyrfaoedd mewn twristiaeth, prinder sgiliau a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall y sector lletygarwch a thwristiaeth eu cynnig.
- Sicrhau bod pobl leol yn cael cyfleoedd i fod wrth wraidd y cynnig, gan fanteisio ar swyddi sgiliau newydd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cadwyni cyflenwi cynaliadwy, carbon isel lleol yn cael eu datblygu ar draws y diwydiant.
- Sicrhau bod y cynnig twristiaeth yn cyfrannu at hyfywedd gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i'r cymunedau hynny sy'n ei gynnal.

# 10. Y camau nesaf

Y cam cyntaf i ddarparu Cynllun Rheoli Cyrchfan yw sefydlu model partneriaeth newydd ar gyfer Sefydliad Rheoli Cyrchfan (SRhC).

Argymhellir model partneriaeth newydd er mwyn:

- sicrhau cydweithio a chefnogaeth partneriaid sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat allweddol;
- gwneud y defnydd gorau o adnoddau presennol;
- hwyluso ffyrdd effeithiol o weithio a allai ddenu buddsoddiad pellach pan fo angen i gyflawni amcanion y Cynllun Rheoli Cyrchfan.

Unwaith mae'r SRhC wedi ei sefydlu a'i gynorthwyo gyda Chylch Gorchwyl, bydd yn grŵp yn cydweithio i ddiffinio'r camau blaenoriaeth nesaf gyda chynllun gweithredu SMART.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Ymwelwch a www.ynysmon.llyw.cymru am gopi digidol
This document is also available in Welsh. Visit www.anglesey.gov.wales for a digital copy

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Ymgynghoriad y Cynllun Rheoli Cyrchfan 28ain Ebrill – 9fed Mehefin 2023**

**Ymatebion**

DRAFT

**Mai/Mehefin 2023**

**Statws: Swyddogol**

**Paratowyd gan:**

| Awdur Gwreiddiol | Fersiwn | Diwygiadau a Wnaed | Dyddiedig |
|---|---|---|---|
| Michael P. Thomas | 1 | Ymatebion hyd yma | 23.05.2023 |
| Andy Godber | 2 | Ymateb Swyddogion | 27/5/23 |
| Michael P. Thomas | 3 | Ymatebion hyd yma | 02.06.2023 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

***Ymatebion i'r Cwestiynau ynghyd â'r adborth***

Cafwyd cyfanswm o 48 o ymatebion, gan gynnwys nifer o ymatebion manwl yn ychwanegol I'r rhai drwy'r system ar-lein.  Mae'r farn gyffredinol yn gadarnhaol, a derbyniwyd llawer o sylwadau a syniadau perthnasol, er bod mwyafrif helaeth o'r rhain yn ymwneud â cham nesaf y broses, sef llunio cynllun gweithredu ar y cyd â'r Sefydliad Rheoli Cyrchfan newydd.


Daethpwyd i'r amlwg y pwysigrwydd i sicrhau bod twristiaeth yn cael ei weld fel budd i gymunedau'r ynys, ac na ddylai twristiaeth effeithio'n negyddol ar rinweddau arbennig yr ynys.

Nodwyd yr ardoll ymwelwyr gan lawer, ac fel y disgwyliwyd, roedd safbwyntiau yn amrywio o sut y byddai'n effeithio'n gadarnhaol ar y sector ymwelwyr, i sylwadau negyddol o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.

Codwyd yr heriau o fynd i'r afael â'r materion parhaus sy'n ymwneud â pharcio amhriodol neu anghyfreithlon a cherbydau gwersylla, hefyd roedd nifer sylweddol o ymatebion negyddol o ganlyniad i ddatblygiad Penrhos.

DRAFT

***Q4. I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r weledigaeth ar gyfer Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn?***




| | |
|---|---|
| Sylw 1 | Gormod o sylw ar dwristiaeth fel dyfodol i bobl ifanc ar yr ynys. Mewn realiti, mae nifer y swyddi'n isel, dydy'r gwaith ddim talu'n dda ac mae'r rhagolygon yn wael. Mae pobl ifanc yn gadael yn eu lluoedd i chwilio am waith medrus gyda chyflogau a rhagolygon da.<br><br>Mae angen cyfyngu ar dwristiaeth – mae'r ynys dan ei sang yn yr haf, fyddwn ni ddim yn mynd allan oherwydd bod pobman yn orlawn, dim lleoedd i barcio ac ati. Yn sicr, dydyn ni ddim eisiau i hyn gael ei annog drwy'r flwyddyn diolch!<br><br>Mae'n ymddangos bod y ddogfen hon braidd yn anghyson o ystyried y cynllun i blastro'r ynys gyda phaneli solar, tyrbinau gwynt ac ati, ond wedyn y gefnogaeth ddigywilydd i ddinistrio Parc Gwledig Penrhos, sy'n ased ym mhob agwedd, o ran yr hinsawdd, cynefinoedd, byd natur ac ati. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r economi ymwelwyr yn dal i fod y prif sbardun economaidd ar Ynys Môn, ac fel cyfryw, mae'n chwarae rôl hanfodol o ran gwneud y sir yn fwy gwydn o safbwynt economaidd.<br><br>Mewn blynyddoedd diweddar, gwelsom newid tuag at weld niferoedd anghynaliadwy o ymwelwyr sydd wedi difetha'r profiad a'r cymunedau sy'n eu lletya. Mae'r cynllun hwn yn ceisio unioni'r fantol ac yn ystyried bod nodweddion arbennig lleoliad o'r pwys mwyaf yn nhermau cyflawni model twristiaeth mwy cynaliadwy.<br><br>Law yn llaw â hyn, fe ddaw cyfleoedd cyflogaeth newydd, nid yn unig mewn rolau traddodiadol gydag ymwelwyr, ond rolau sy'n canolbwyntio |

| | |
|---|---|
| | ar wella'r nodweddion arbennig hyn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 2 | Rwy'n ysgrifennu fel un o'r teuluoedd sydd wedi cael eu gorfodi i symud allan o'r ardal oherwydd y diffyg cyfleoedd gwaith rydych wedi siarad amdanyn nhw. Rydw i hefyd yn un o'r genhedlaeth gyntaf o'm teulu nad ydym yn gwbl ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydw i wedi syfrdanu bod Parc Arfordirol Penrhos yn cael ei ystyried ar gyfer ei ddatblygu, dydw i ddim yn arbenigwr ar yr amgylchedd ond yn gwybod rhywbeth am yr ardal leol a pha mor ddibynnol y mae busnesau lleol ar dwristiaeth. Penrhos yw un o'r ychydig leoedd yn y wlad lle gallwch weld gwiwerod coch. Rwy'n byw yn Reading. Mae'n cymryd dwy awr i ni, ynghyd â thrip ar gwch, i allu gweld un. Y lle agosaf yw Brownsea Island yn Dorset, lle maen nhw'n denu twristiaid yn eu lluoedd o bob cwr o Dde Lloegr. Mae o hefyd yn adnodd ardderchog i bobl leol, rwy'n gwybod hyn oherwydd fo mod wedi cerdded cŵn fy nhaid a'm nain yno sawl gwaith. Pe bai pobl ifanc yn cael eu hannog i helpu gyda gwaith cadwraeth mewn lleoedd fel Penrhos, byddai o fudd i'r gymuned ac efallai'n lleihau'r lefelau troseddu mewn lleoedd fel Caergybi. Mae angen swyddi yn yr ardal (rwy'n gwybod hyn oherwydd, fel arall, mi fyddai fy nheulu'n dal i fod yno), ond gan siarad fel rhywun sydd hefyd yn byw mewn ardal a chanddi gyfradd droseddu uchel, ni fydd difetha ardaloedd cyfagos y dylid eu gwarchod yn helpu. Dydy'r math yna o adnoddau ddim yn bodoli yma, byddai'n dda gen i eu cael nhw. |
| Ymateb Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd.<br><br>Fodd bynnag, cydnabyddir y sylwadau ehangach o ran pwysigrwydd sicrhau amgylcheddau naturiol a rhywogaethau cysylltiedig er mwyn cynnig profiadau newydd i ymwelwyr, ac mae'n ffurfio sail y Cynllun Rheoli Cyrchfan a Chynllun Rheoli'r AHNE. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 3 | Mae rheoli ail gartrefi a lleoedd Airbnb ar yr ynys yn bwysig o ran dyfodol ein pobl ifanc a'n diwylliant a'r iaith. |
| Ymateb Swyddogion | Sylw dilys iawn. Mae'r ardoll ymwelwyr, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol, i gyd yn cael eu hystyried o fewn Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at y mater hwn, ond mae angen rhoi ystyriaeth bellach iddo yn y cynllun |

| | |
|---|---|
| | gweithredu. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at hyn yn y rhan berthnasol. |

| | |
|---|---|
| Sylw 4 | Mae'r syniadau yna, ond mae twristiaeth yn destun pryder o ran ei effaith ar isadeiledd, yr amgylchedd a chymunedau lleol, Mae gennym ddigon o ymwelwyr, gormod o draffig a dim ymgais go iawn i'w rheoli. Yn unol â dad-ddofi ardaloedd, dylid cael cyn lleied o ddatblygiadau newydd â phosib, tra mai gofalu am yr hyn sydd gennym yn barod (e.e. Penrhos) yw'r brif flaenoriaeth.<br><br>Mae dad-ddofi'n gofyn am waith cynllunio a rheoli o safbwynt yr amgylchedd. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r cynllun yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â nifer o'r camau allweddol y mae eu hangen o safbwynt model cynaliadwy ar gyfer ymwelwyr, fel meysydd parcio, toiledau ac ati. Mae'r Awdurdod Lleol eisoes wedi mynd at i ddefnyddio ei gyllideb ei hun a grantiau allanol i wneud gwelliannau, a bydd hyn yn parhau.<br><br>Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gweithio ochr yn ochr â Chynllun Rheoli'r AHNE, sy'n cynnwys cryn bwyslais ar wella cynefinoedd. Yn ychwanegol i hyn, mae prosiectau sy'n ymwneud â chreu dolydd ac adfer rhostiroedd ar waith gennym ar hyn o bryd. Mae gwaith o'r math hwn yn flaenoriaeth, a bydd yn cynyddu o ran ei faint a'i effaith mewn blynyddoedd i ddod. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at waith yng nghyswllt cynefinoedd ar raddfa tirwedd o fewn y camau gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 5 | Nid oes llawer ynddo y gellir anghytuno ag ef mewn gwirionedd. Ond malu awyr â bwriadau da yw'r rhan fwyaf ohono, heb gyfeirio at naill ai problemau penodol o fewn ein diwydiant twristiaeth presennol neu gyfleoedd penodol ar gyfer yr ynys. Beth am rywfaint o gamau gweithredu ynglŷn â'r rhan ogleddol o lwybr beicio'r 'coridor gwyrdd' ar draws yr ynys, o Niwbwrch i Amlwch, sydd wedi'i addo ers tro byd? Mae hyn wedi bod yn destun siarad ers blynyddoedd, ond rhoddwyd stop ar bethau rhywsut am fod rhaid disgwyl i weld beth sydd am ddigwydd oherwydd y diddordeb brwd ymhlith rhai i ailagor y rheilffordd. Mae hynny'n iawn, beth am gael rheilffordd yn y diwedd, os gawn nhw fyth yr arian, ond yn y cyfamser, beth am beidio ag atal y llwybr beiciau.<br><br>O ran cyfleoedd eraill yng nghyswllt beicio, rwy'n credu bod Menter Môn wedi comisiynu adroddiad (gyda chyllid Leader) ar lwybr beiciau o amgylch yr ynys ychydig o flynyddoedd yn ôl o'r enw Olwyn Môn / 'Anglesey Wheel'. Beth am fynd ar drywydd hyn a'i roi ar waith os gwelwch yn dda - gan ddilyn hyn, yn ddelfrydol, neu ei gydamseru, gyda |

| | |
|---|---|
| | llwybr beiciau Cymru Gyfan, yn gyfochrog â llwybr yr arfordir a llwybr Clawdd Offa i gerddwyr.<br><br>Ac os yw’r syniadau hyn yn rhy anodd i Gyngor Ynys Môn, dylid o leiaf ailsefydlu’r ‘llwybrau adar’ (Telor, Giach, Hebog, a Nico) a ddatblygwyd flynyddoedd yn ôl, ond ymddengys nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach. Byddai rhywfaint o waith tacluso / ailosod arwyddion ac ail-farchnata yn ‘gam cyflym’ ymlaen o ran twristiaeth gweithgareddau ar yr ynys, yn ogystal â’r buddion i breswylwyr o safbwynt iechyd a ffitrwydd.<br><br>Rhywbeth arall sydd angen ei wneud yw gwella ansawdd ein bwytai lleol. Ystyriwch y gwasanaeth sy’n cael ei gynnig mewn bwytai yn Florida er enghraifft - y gwydrau o ddŵr â rhew ar y bwrdd, yn syth ar ôl i chi gyrraedd - rhywbeth bach efallai, ond mae’n creu’r naws iawn ar unwaith, ac yn gwneud i’r cwsmer deimlo’n gartrefol. Mae gormod o’n bwytai’n cynnig ‘bwyd tafarn’ ond yn codi’r math o brisiau y byddech yn disgwyl eu cael mewn bwyty; naill ai mae’n rhaid cadw’r prisiau’n is, neu wella’r safon. A rhaid rhoi stop ar y nonsens o ran “rydyn ni eisiau ei bwrdd yn ôl erbyn x”; os ydw i’n cael cinio neu swper gyda ffrindiau, dwi eisiau amser i gael sgwrs, yn lle gorfod brysio trwy’r pryd. |
| Ymateb Swyddogion | Nodwyd y sylw - mae’r swyddogaeth Datblygu Economaidd yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ddiwydiannau priodol newydd fuddsoddi ym Môn.<br><br>Sylwadau dilys iawn. Bydd datblygu isadeiledd ar gyfer beicio yn deillio o’r cynllun gweithredu, ac mae’n cyd-fynd â’r ymagwedd gynaliadwy a gaiff ei chynnig. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at hyn yn y rhannau perthnasol. |


| | |
|---|---|
| Sylw 6 | Mae'n anodd anghytuno â'r weledigaeth. Nodir bod blaenoriaeth i sicrhau bod y CRhC yn amddiffyn y gymuned a diwylliant yr Ynys. |
| Ymateb y Swyddog | Bydd y cynlluniau CRhC a’R AHNE yn gweithio mewn partneriaeth, a’n ategu at y cynllun corfforaethol i sicrhau bod cymuned a diwylliant wrth wraidd yr hyn sy'n cael ei gyflawni |
| Addasiad a awgrymir | Cyfeirio ato o fewn adrannau perthnasol |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Sylwadau 7 | Croesawu cofleidio twristiaeth gynaliadwy.  Rwy'n credu bod cyfleoedd i gofleidio ac ennill cymwysterau twristiaeth gynaliadwy, sy'n cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd a diwylliant. |
| Ymateb y Swyddog | Rydym yn cytuno ac mae'r ethos hwn yn sail i'r cynllun. |
| Addasiad a awgrymir | Dim |

DRAFT

Q5. Ydych chi'n cytuno ag egwyddorion a blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Cyrchfan?




| | |
|---|---|
| Sylw 8 | Mae'n rhaid i bob cynllun gweithredu ddilyn egwyddorion o ran ymwybyddiaeth o beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yn nhermau cynhesu byd-eang a'i effeithiau. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r egwyddorion wedi'u nodi'n glir - caiff y cynllun gweithredu a ddiffinnir ei ddatblygu ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 9 | Unwaith eto, mae'n amlwg bod angen rhagor o swyddi, ond dechreuwch wrando ar y bobl leol, da chi, sydd wedi bod yn sôn am yr effaith ar yr amgylchedd ers blynyddoedd. Dydw i ddim yn deall pam, o ystyried y gallu i weithio o bell, nad oes rhagor o ddiwydiannau ym maes gwasanaethau yn symud allan o Lundain. Does dim angen safleoedd gweithgynhyrchu mawr arnyn nhw, a gellir eu lleoli mewn adeiladau presennol yn y trefi. Pe byddech yn gwneud hynny, efallai y gallwn symud yn ôl! |
| Ymateb Swyddogion | Nodwyd y sylw - mae'r swyddogaeth Datblygu Economaidd yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i ddiwydiannau priodol newydd fuddsoddi ym Môn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 10 | Dylai twristiaeth gyd-fynd â gofynion y boblogaeth leol bresennol a gweithio gyda nhw. Dylid rheoli twristiaeth ym Môn mewn modd sy'n hybu'r agweddau da ar dwristiaeth (prynu'n lleol, aros yn lleol, parchu pobl leol, profiadau cadarnhaol). Mae gan yr ynys gymaint i'w gynnig o safbwynt profiadau cyffredinol nad yw lleoliadau eraill (e.e. Blackpool neu |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Llundain) yn gallu, neu ddim yn bwriadu, eu cynnig. Rydym yn gymuned fechan (yr ynys yn gyffredinol), sy'n gallu hybu twristiaeth byd natur (gweld gwiwerod coch, barcutiaid, dolffiniaid, daeareg) yn ogystal â hanes (cylchoedd cerrig, caer Rufeinig yng Nghaergybi, siambrau claddu) a diwylliant (y Gymraeg, dawnsio gwerin, y wisg Gymreig). Dyma rai o gryfderau Ynys Môn, ynghyd â busnesau annibynnol (bwyd, diodydd, crefftau ac ati). |
| Ymateb Swyddogion | Cydnabyddir pob pwynt, o safbwynt y Cynllun Rheoli Cyrchfan a chynllun rheoli'r AHNE. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 11 | Rwy'n tueddu i gytuno ond mae'r CRhC yn llawer rhy gyffredinol a lefel uchel i fod yn ystyrlon iawn. Rwy'n gwerthfawrogi bod camau penodol I ddilyn ond mae'n anodd iawn cyflwyno sylwadau heb enghreifftiau penodol a fy marn i yw y dylai'r CRhC fod wedi cyfuno egwyddorion lefel uchel â chamau gweithredu penodol gan fod gwir angen iddo ddigwydd yn gyflym. |
| Ymateb y Swyddog | Rydym yn cytuno bod angen cynllun gweithredu cadarn sydd wedi ei greu ar y cyd - Ystyrir mai dim ond trwy CRhC newydd y gellir gwneud hyn.  Dyma'r man cychwyn. |
| Addasiad a awgrymir | Dim ond sylw wedi ei nodi |

DRAFT

***Q8. Ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r blaenoriaethau a'r amcanion iawn ar gyfer Ynys Môn?***

| | |
|---|---|
| Sylw 12 | Llai o dwristiaid, ond o ansawdd uwch (o ran gwariant) ydy'r ffordd ymlaen. Does dim modd i ni ddarparu mymryn mwy o le i fwy o bobl – mae pobl fel ni sy'n byw'n lleol yn peidio â mynd i leoedd oherwydd eu bod nhw'n orlawn o bobl, ac nad oes unrhyw le i barcio ac ati. A dydyn ni ddim eisiau hyn, ar yr un lefel ag sydd gennym ar hyn o bryd, drwy gydol y flwyddyn, dim diolch! |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r cynllun yn ceisio unioni'r sefyllfa o ran anghynaliadwyedd y niferoedd presennol o ymwelwyr, er bod y niferoedd eisoes wedi gostwng tuag at y lefelau hynny a welwyd cyn y pandemig Covid. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |


| | |
|---|---|
| Sylw 13 | Rhagor o atyniadau i dwristiaid, fel llwybrau beics MTB ac ar gyfer beiciau modur. |
| Ymateb Swyddogion | Mae cyfleoedd ar gyfer llwybrau beics newydd a llwybrau i feiciau mynydd yn ffurfio rhan o'r cynllun.<br><br>Mae TracMon yn dal i ffynnu fel atyniad ar gyfer rhai sydd â diddordeb brwd mewn chwaraeon ceir a beiciau modur. Gellid ystyried y byddai cyflenwi cyfleoedd newydd ar gyfer rhai sy'n reidio beiciau modur yn mynd yn groes i'n nodau o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 14 | Ydw, os mae pethau'n cael eu rheoli'n iawn. Mae'n anodd cael y cydbwysedd rhwng y Cyngor Sir yn annog busnesau lleol i ffynnu, ynghyd â bod potensial i gael gormod o fiwrocratiaeth ac ati, a allai gyfyngu ar y busnesau.<br><br>Mae angen i grwpiau, unigolion, cynghorau lleol a sirol, a sefydliadau weithio gyda'i gilydd ar gyfer dyfodol cynaliadwy.<br><br>Mae angen monitro'r stoc tai yn ofalus, er mwyn cael digon o dai fforddiadwy i'r boblogaeth leol eu defnyddio a'u prynu. Os nad yw pobl yn gallu prynu tai lleol, ceir risg mawr iawn y bydd rhai ardaloedd o Ynys Môn yn dod yn ardaloedd ar gyfer ail gartrefi'n unig (fel y mae rhai rhannau wedi cychwyn bod). Gwelwyd hyn mewn rhannau eraill o'r DU hefyd, yr hyn sy'n digwydd pan fydd gormod o gartrefi'n cael eu prynu fel ail gartrefi/cartrefi gwyliau a/neu'n cael eu troi'n llety i dwristiaid,<br><br>Ceir llawer o botensial i fanteisio arno o ran y sector twristiaeth. Cefais brofiad uniongyrchol o ddelio â thwristiaid (naill ai fel rhywun lleol a/neu dywysydd twristiaid cymwys). Mae'r mwyafrif helaeth o'r twristiaid yn parchu'r ffaith eu bod yn dod i leoliad rhywun arall. O ran y rheiny o'r |

| | |
|---|---|
| | llongau mordeithio, mae'r teithwyr yn hoffi cyfarfod y bobl leol (bo'r rheiny'n dywyswyr twristiaid ai peidio) a chael eu cyfarch mewn modd cadarnhaol.<br><br>O ran y bobl leol - rydw i wedi gweld yr adborth negyddol tuag at dwristiaid sy'n cyrraedd yr ynys. Mae rhywfaint o hyn yn ymwneud â'r llongau mordeithio, ac mae llawer o'r negyddoldeb yn deillio o ddiffyg gwybodaeth. Ceir rhai ohonom sy'n ceisio dileu'r mythau o ran y llongau mordeithio - bod y mwyafrif helaeth o'r ymwelwyr yn aros ar ynys a hefyd yn ymweld â Chaergybi. Mae angen dileu'r mythau a'r sïon o ran beth mae twristiaid yn ei hoffi am Ynys Môn. Mae angen annog agwedd gadarnhaol, ynghyd â balchder o ran beth sydd ar gael yn barod ac sydd ar waith ar yr ynys. Bydd agwedd gadarnhaol a blaengaredd yn helpu i feithrin mwy o bositifrwydd.<br><br>Mae angen rheoli agweddau negyddol twristiaeth hefyd (o safbwynt twristiaid a phobl leol). |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r ardoll twristiaid, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol oll yn cael eu trafod ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cymru a 'r Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r mater hwn, ond mae angen gweld mwy yn y cynllun gweithredu.<br><br>Mae sicrhau bod cymunedau'n elwa ar y sector ymwelwyr yn angenrheidiol. Mae'n bwysig cydnabod gwerth twristiaeth, a bod y cyfleusterau a ddatblygir ar gyfer y sector yn ychwanegu gwerth hefyd ar gyfer y rheiny sy'n byw ar Ynys Môn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim - does dim dwywaith y bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu a ddatblygir ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |

DRAFT

***Q9. Ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno bod rheoli cyrchfan yn gyfrifoldeb a rennir rhwng busnesau preifat, yr awdurdod lleol, asiantaethau'r llywodraeth, y trydydd sector, cyrff llywodraethu cenedlaethol a Llywodraeth Cymru?***




| | |
|---|---|
| Sylw 15 | Ar wahân i gyllid ac egwyddorion ac amddiffyniadau lefel uchel, dylai hyn fod yn bennaf yn gydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol, busnesau lleol a thwristiaeth a phartïon perthnasol eraill (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ati). Bydd cyfranogiad y Llywodraeth Genedlaethol yn rhwystro mentrau lleol. |
| Ymateb y Swyddog | Cytuno – bydd y CRhC yn gweithredu |
| Addasiad a awgrymir | Dim |
| Sylwadau | Bydd busnesau'n gwneud beth sydd orau iddyn nhw, h.y. i gynyddu eu helw – trosiant uchel gyda chyn lleied o orbenion â phosib. Mae'n anorfod y bydd hyn yn golygu cyfyngu ar y profiad i ymwelwyr, cyflogau staff ac ati. Mae angen rheoli hyn gan y llywodraeth. |
| Ymateb Swyddogion | Mae rheoliadau ar y gorwel yn nhermau llety gwyliau a llety arall, trwy'r broses drwyddedu statudol. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim - does dim dwywaith y bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu a ddatblygir ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |



DRAFT

| | |
|---|---|
| Sylw 16 | Mae'n rhaid i bob partner gymryd cyfrifoldeb llawn dros y gwaith hwn. Caiff y gwaith ei sbarduno gan yr awdurdod lleol bob amser, ac mae angen llawer mwy o fuddsoddiad preifat. |
| Ymateb Swyddogion | Yn cytuno â'r sylw. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirir at hyn eisoes. |

| | |
|---|---|
| Sylw 17 | Er y gall cwmnïau preifat gyfrannu at y weledigaeth, mae llawer o agweddau (amwynderau cyhoeddus ac ati) y tu hwnt i'w rheolaeth. Gellir 'prynu mewn' i gynllun sy'n cael ei gyfathrebu'n glir' a dylid ei ddilyn gyda Chyfathrebu/brandio cyhoeddus clir y gall busnesau eu defnyddio/cyfrannu ato a'u datblygu. |
| Ymateb y Swyddog | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Addasiad a awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 18 | Er y gall cwmnïau preifat gyfrannu at y weledigaeth, mae llawer o agweddau (amwynderau cyhoeddus ac ati) y tu hwnt i'w rheolaeth. Gellir 'prynu mewn' i gynllun sy'n cael ei gyfathrebu'n glir' a dylid ei ddilyn gyda Chyfathrebu/brandio cyhoeddus clir y gall busnesau eu defnyddio/cyfrannu ato a'u datblygu. |
| Ymateb y Swyddog | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Addasiad a awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 19 | Mae angen i bawb ohonom ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol. Yn anffodus, mae cost darparu, cynnal a chadw a gwasanaethu llety gwyliau wedi cynyddu'n aruthrol mewn blynyddoedd diweddar, wrth i gyflogau gweithwyr a chostau tanwydd godi. Bydd unrhyw gostau ychwanegol, fel yr ardoll twristiaid, yn arwain at lai o fusnesau bach oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi i roi'r gorau iddi neu leihau nifer yr ymwelwyr wrth basio'r ardoll iddyn nhw. |
| Ymateb Swyddogion | Os caiff ei reoli'n iawn, bydd unrhyw ardoll neu gynllun trwyddedu'n gallu bod o fudd i'r sector twristiaeth trwy ail-fuddsoddi mewn anghenion o safbwynt isadeiledd, gwelliannau o ran hygyrchedd, deunydd dehongli a |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim - does dim dwywaith y bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu a ddatblygir ar y cyd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |

DRAFT

***Q10. Os ydych yn anghytuno bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn gyfrifoldeb a rennir, sut ydych chi'n rhagweld y gellir rheoli'r gyrchfan er budd preswylwyr, cymunedau ac ymwelwyr fel ei gilydd?***

| | |
|---|---|
| Sylw 20 | Rheolaeth reoleiddiol – byddai lleihau niferoedd y llety Airbnb trwy drwyddedau / rheoliadau o safbwynt newid defnydd yn fan cychwyn. |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r ardoll twristiaid, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol oll yn cael eu trafod ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cymru a 'r Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r mater hwn, ond mae angen gweld mwy yn y cynllun gweithredu. |
| Newidiad a Awgrymir | Cynnwys hyn yn y cynllun gweithredu. |

***Q11. Oes gennych chi unrhyw ddealltwriaeth neu dystiolaeth o unrhyw gynlluniau rheoli cyrchfan o fath arall sy'n bodoli eisoes, neu o ddulliau gweithredu eraill sydd ar waith yn rhywle arall yn y byd, yr ydych yn meddwl y gallai Ynys Môn ddysgu ohonynt neu eu gweithredu?***

| | |
|---|---|
| Sylw 21 | Gwaith i ddad-ddofi'r tir ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, plannu rhagor o goed, adeiladu ar safleoedd tir llwyd, h.y. yn Amlwch er enghraifft. |
| Ymateb Swyddogion | Mae cynllun rheoli'r AHNE yn dangos y dymuniad i gynyddu nifer y cynefinoedd allweddol a'u gwella. Mae gan y cynllun corfforaethol nodau yng nghyswllt lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, y mae plannu coed o'r rhywogaeth iawn, ac yn y lleoliad iawn, yn rhan ohono. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – cynhwysir rhagor o wybodaeth yn y cynllun AHNE. |

| | |
|---|---|
| Sylw 22 | Byddwn yn ymweld â Sbaen yn aml. Mae pob ail gartref (sy'n eiddo i bobl amhreswyl, o bob cenedligrwydd) wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i dalu Treth FLYNYDDOL i bobl amhreswyl, yn seiliedig ar werth stentaidd yr Eiddo (yn debyg i'r gwerth ardrethol). Codir y dreth hon ar y dybiaeth o safbwynt y rhent y gellid ei gael pe bai'r eiddo'n llety gwyliau (hyd yn oed os nad yw'n cael ei osod, ond yn cael ei ddefnyddio gan ei berchnogion yn unig) Does dim dewis, rhaid talu, neu bydd y swyddfa dreth yn rhoi gwaharddiad ar gyfrif banc y perchennog am y swm sy'n ddyledus.... |
| Ymateb Swyddogion | Mae'r ardoll twristiaid, newidiadau o ran trethiant a thrwyddedu statudol oll yn cael eu trafod ar hyn o bryd o fewn Llywodraeth Cymru a 'r Awdurdod Lleol. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r mater hwn, ond mae angen gweld mwy yn y cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| | |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 23 | Gellid datblygu rhagor o waith ym Mhorthladd Caergybi. Er enghraifft, yn Folkestone maen nhw wedi cyflawni nifer o brosiectau gyda'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector. Gellid efelychu'r math hwn o waith gan gynhyrchu cryn dipyn o fuddsoddiad a swyddi newydd. Yn ogystal â hyn, mae angen targedu deunydd marchnata am y gyrchfan mewn modd effeithiol. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd menter y Porthladd Rhydd yn mynd i'r afael â'r sylw hwn. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 24 | Rhagor o gyfleusterau ar gyfer beiciau modur, o safbwynt mannau parcio a lleoedd storio diogel ar gyfer gwisgoedd, helmedau beiciau modur ac ati. |
| Ymateb Swyddogion | Caiff yr argymhelliad ei basio i'r Adran Priffyrdd |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 25 | O brofiad personol, pan fydd y llongau mordeithio'n dod i Gaergybi, mae'r trefnwyr lleol yn gweithio gyda'r tywyswyr twristiaid a chriwiau'r llongau mewn modd effeithlon iawn. |
| Ymateb Swyddogion | Mae rhoi croeso da i ymwelwyr yn rhan allweddol o'r profiad. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylwadau 26 | Oes, mae'r dreth twristiaid yn anneniadol iawn ac yn creu rhagor o anghydraddoldeb economaidd. Mae hi hefyd yn dreth eithriadol o annheg i bobl y mae'n rhaid i'w teuluoedd, er enghraifft, aros mewn llety lleol wrth ofalu am aelodau teulu anabl. Mae'n creu'r argraff hefyd mai'r twristiaid sydd ar fai, sy'n safbwynt a welir yn rhy aml o lawer ar Ynys Môn, fel y |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | nodwyd yn arweiniad y Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| Ymateb Swyddogion | Os caiff ei reoli'n iawn, bydd unrhyw ardoll neu gynllun trwyddedu'n gallu bod o fudd i'r sector twristiaeth trwy ail-fuddsoddi mewn anghenion o safbwynt isadeiledd, gwelliannau o ran hygyrchedd, deunydd dehongli a marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – gwaith y cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 27 | Ynysoedd y Sianel: annog dewisiadau eraill yn lle defnyddio cerbydau preifat; addasu i newid dewisiadau o ran gwyliau, ynghyd â gweithio i wneud y gorau o apêl atyniadau ynysoedd bach. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 28 | Rwy'n nodi'r dymuniad yn y cynllun am ddulliau teithio llesol a chynaliadwy. Mae gan ynys Majorca yn Sbaen system drafnidiaeth gyhoeddus ardderchog, nifer o lwybrau beiciau, a rhoir blaenoriaeth i gerddwyr wrth groesi cyffyrdd sydd wedi'u marcio'n glir mewn du a gwyn, yn debyg i groesfannau i gerddwyr yn y DU. Mae ganddynt reolaeth dynn dros lety o fath Airbnb mewn mannau preswyl hefyd. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd y CRhC newydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid i sicrhau bod y camau gweithredu yn unol â nodau'r cynlluniau. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 29 | Mae angen uwchraddio'r isadeiledd ar gyfer twristiaeth yn Ynys Môn yn sylweddol. Er enghraifft, mae maint ac arwyddion meysydd parcio yn gwbl annigonol ar gyfer economi'r haf ac mae'n rhwystredig iawn i dwristiaid a phobl leol. Mae angen adolygiad strategol o'r math o atyniadau twristiaid sydd angen dod i'r ynys ar gyfer y tymor hir. Mae angen enghreifftiau fel "Go Ape" a chanolfannau hamdden i ychwanegu at atyniadau naturiol yn Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae Caergybi yn gyrchfan wael iawn ond gallai fod yn atyniad diddorol iawn ynddo'i hun pe bai ganddi marina, siopau a seilwaith twristiaeth briodol.<br><br>Rwy'n cwestiynu a oes angen newid meddylfryd o ran ei gwneud yn glir i'r ynys ei bod yn ddisgwyliedig ac yn briodol gwneud cymaint o arian â phosibl gan dwristiaeth yn ystod y tymor gwyliau (a gweithio'n galed iawn) a'i bod yn iawn i fod yn dawel a gweithredu oriau cyfyngedig yn ystod yr |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | adegau tawel o’r flwyddyn. Nid yw'n ymddangos bod cymaint o fusnesau yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle ac yn parhau i fod yn gyfyngedig yn ystod cyfnod yr haf. |
| Ymateb y Swyddog | Mae'n hanfodol bod y swyddogaeth Cyrchfan yn gweithio gyda Gwasanaethau eraill i wireddu'r potensial rydych chi'n cyfeirio ato yn eich sylwadau. Mae cynllun y cyngor hefyd yn ceisio dull cydweithredol y dylai pob Gwasanaeth fod yn ceisio'r un nodau. |
| Addasiad a awgrymir | Rydym eisoes wedi cyfeirio ato |

DRAFT

***Q12. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y Cynllun Rheoli Cyrchfan?***

| | |
|---|---|
| Sylw 30 | Mae'n anodd gan nad wyf yn breswylydd. Rwyf wedi gweld rhannau eraill o'r wlad yn cael eu difetha gan benderfyniadau annoeth o safbwynt cynllunio. Rwy'n byw wrth ymyl darn o dir comin y bu pobl yn protestio i'r cyngor yn ei gylch i atal datblygiad. Roedd gormod o bobl yn arwain at gynyddu'r gyfradd droseddu. Po fwyaf o breswylwyr sy'n byw yno, y mwyaf o gwynion a dderbyniwyd gan y cyngor am ragor o adeiladu. Felly, adeiladwyd ar hanner y safle, tra bo'r hanner arall yn wag. Gwelwyd lleoedd yn cael e hadeiladu ar ddolydd dŵr hefyd, lle nad oes modd defnyddio tai a ffatrïoedd oherwydd llifogydd, a bod neb yn gwrando ar bryderon preswylwyr ynghylch yr effaith ar yr amgylchedd. Rhaid talu sylw i'r gwir breswylwyr lleol, y nhw sy'n byw yno ac maen nhw yn ôl bob tebyg yn adnabod yr ardal gyfagos yn well na chi, oherwydd eu bod wedi cael profiad uniongyrchol o'r lle. |
| Ymateb Swyddogion | Mae sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth a chydweithredu gyda chymunedau Ynys Môn o'r pwys mwyaf wrth fynd ymlaen. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim o ran y Cynllun Rheoli Cyrchfan – dylid cynnwys hyn yng nghynllun gweithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a'i gysylltu â'r AHNE. |

| | |
|---|---|
| Sylw 31 | Rwy'n meddwl eich bod eisoes wedi ypsetio nifer o breswylwyr Caergybi a'r cyffiniau. Mae yna newid cyflym bellach o ran tacteg, yng nghyswllt bod eisiau'r hyn sydd gan Benrhos i'w gynnig o ran byd natur, ac rydych eisiau gorchuddio'r lle â sment ….. |
| Ymateb Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

| | |
|---|---|
| Sylw 32 | Rhaid cael rhagor o ddylanwad ar yr Adran Priffyrdd gan fod angen iddynt ddeall nad ystyriaeth yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol yw twristiaeth.<br>Mae'r croeso a roddir i longau mordeithio yng Nghaergybi yn wael o gymharu â phorthladdoedd eraill, p'un a ydynt yn farinas neu'n borthladdoedd dwfn. |
| Ymateb Swyddogion | Nid yw'r cynlluniau ar eu pen eu hunain a bydd y sylwadau'n cael eu bwydo drwodd i'r grŵp rheoli ymwelwyr a swyddogion priffyrdd i sicrhau bod cynllun cadarn yn cael ei gyflawni. |

| | |
|---|---|
| Newidiad a Awgrymir | Bydd hyn yn cael ei gynnwys ac yn dod allan o'r cynllun gweithredu |

| | |
|---|---|
| Sylw 33 | Ynys Môn yw un o'r prif gyrchfannau ar gyfer caiacio yn y byd, oherwydd ei bod yn cynhyrchu rhai o'r caiacau môr gorau, a bod y lleoliadau hyfforddi gorau i'w cael yma. Byddem yn aml yn cael ymwelwyr o Ogledd America ac Ewrop (yn enwedig Sgandinafia), sy'n dod yma'n arbennig i gaiacio.<br><br>Mae ffatrïoedd Ynys Môn yn cynhyrchu dros 3,000 o gaiacau môr y flwyddyn. Mae fy musnes hyfforddi/tywys ar gyfer caiacio yn dod â dros 600 o ymwelwyr i'r ynys i gaiacio bob blwyddyn. Ceir llawer mwy o fusnesau sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer caiacio. Mae'n rhaid bod caiacio ar y môr yn cyfrif am sawl miliwn o'r £360 miliwn o refeniw'r diwydiant twristiaeth a nodwyd yn yr adroddiad.<br><br>Mae Ynys Môn yn lleoliad sydd gyda'r gorau yn y byd ar gyfer caiacio ar y môr, ac yn rhan o economi Ynys Môn sy'n tyfu. |
| Ymateb Swyddogion | Yn sicr, caiacio môr yw un o'r ffyrdd gorau o werthfawrogi arfordir Ynys Môn, ac ni ellir gwadu fod Ynys Môn yn atynfa i'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn.<br><br>Mae'r math hwn o hamdden pan gaiff ei wneud mewn modd sensitif yn cyd-fynd â nodau'r yr cynllun.  Mae'r gweithgynhyrchu lleol o gaiacs môr uchel eu parch hefyd yn unol â'n hymdrechion i gefnogi diwydiannau lleol. |
| Newidiad a Awgrymir | Cyfeirio at caiacio môr |

| | |
|---|---|
| Sylw 34 | Mae angen datblygu a hybu Llyn Alaw. Mae gan Dŵr Cymru safle ardderchog yn Llyn Brenig.<br>Mae angen hyrwyddo henebion yn well, ynghyd â gwella hygyrchedd.<br>Mae angen marchnata ar gyfer bob tymor.<br>Dylai gweithgareddau morol o bob math gael lle pwysig yn y cynllun. |
| Ymateb Swyddogion | Syniadau pwsig berthnasol i ddatblygiad y cynllun gweithredu. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |

DRAFT

***Q13. Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud yr ydych yn meddwl y byddai'n helpu datblygiad parhaus ymagwedd newydd tuag at reoli cyrchfan?***

| | |
|---|---|
| Sylw 35 | Sut i gynnwys llai o draffig, mae hi eisoes yn amhosib parcio mewn sawl lle, mae'r sefyllfa bron yn anghynaliadwy. |
| Ymateb Swyddogion | Bydd rhan o'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar opsiynau teithio cynaliadwy. Unwaith eto, mae hyn wedi'i gysylltu â'r AHNE. Rydym hefyd yn gweld budd mewn llwybrau hamdden aml-foddol tebyg i Lôn Las Cefni. |
| Newidiad a Awgrymir | Cynnwys opsiynau teithio cynaliadwy o fewn proses y cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 36 | Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen cymorth i fusnesau bach sy'n dibynnu ar dwristiaeth, nid costau ychwanegol fel ardollau a phremiymau treth gyngor. |
| Ymateb Swyddogion | Os caiff ei reoli'n iawn, bydd unrhyw ardoll neu gynllun trwyddedu'n gallu bod o fudd i'r sector twristiaeth trwy ail-fuddsoddi mewn anghenion o safbwynt isadeiledd, gwelliannau o ran hygyrchedd, deunydd dehongli a marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim – cynllun gweithredu. |

| | |
|---|---|
| Sylw 37 | Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen cymorth i fusnesau bach sy'n dibynnu ar dwristiaeth, nid costau ychwanegol fel ardollau a phremiymau treth gyngor. |
| Ymateb Swyddogion | Wedi'i reoli'n gywir, gall unrhyw gynllun ardoll neu drwyddedu fod o fudd i'r sector twristiaeth drwy ailfuddsoddi i anghenion is-strwythurol, gwella mynediad, dehongli a marchnata er enghraifft. |
| Newidiad a Awgrymir | Dim |
| Sylw 38 | Rwy'n credu y byddai ehangu cwmpas y mathau o randdeiliaid yn syniad da yn ogystal ag ymgysylltu â'r ymwelwyr neu'r rhai nad ydynt yn ymwelwyr (i fynd i'r afael â thuedd cadarnhau) yn gamau da. |
| Ymateb Swyddog | Cytuno a dyma fwriad y CRhC newydd – mae angen iddo gael ystod ehangach o randdeiliaid. |

| | |
|---|---|
| Addasiad a awgrymir | Dim ond sylw wedi ei nodi |

DRAFT

This page is intentionally left blank

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**Templed Adroddiad Sgriwtini**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Fehefin 2023** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru, Chwarter 4 2022/23** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno Adroddiad Chwarter 4 Cynllun Twf Gogledd Cymru** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Datblygu'r Economi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams. Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** Nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod chwarter 4 2022/23

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyngor trwy:

- Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor- swyddi a chyfleoedd gwaith
- Gweithio gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad i sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol yn mynd rhagddo

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Cefndir**

5.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

5.2 Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**5.3 Cynnydd Chwarter 4 2022/23**

Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

5.3.1 Yn ystod y chwarter hwn lansiwyd ein proses ariannu'r Cynllun Twf i ddewis prosiectau newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Gyda £30 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael, mae'r broses wedi ennyn diddordeb sylweddol ac wedi arwain at 26 o geisiadau cadarn yn dod i law. Bydd y broses asesu yn cychwyn yn ystod y chwarter nesaf.

5.3.2 Cymeradwyodd y Bwrdd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ein prosiect Ynni Lleol Blaengar. Bydd y prosiect yn golygu y bydd cronfa £25miliwn yn cael ei sefydlu i fuddsoddi mewn prosiectau ynni glân a datgarboneiddio ledled y Gogledd.

5.3.3. Lansiodd prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter eu cyfle tendro gwerth £8.35 miliwn i ddylunio ac adeiladu'r ganolfan newydd a fydd yn cefnogi busnesau gweithgynhyrchu yn y rhanbarth i ddatgarboneiddio. Mae'r tendr yn gwahodd busnesau i gyflwyno ceisiadau i ddylunio ac adeiladu'r adeilad newydd ar safle Plas Coch, gan gynnwys gosod cyfleuster defnyddio hydrogen a phaneli ffotofoltaidd ynni adnewyddadwy.

5.3.4. Mae diweddariad Chwarter 4 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni diwygiedig y portffolio a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2022. Mae dau broseict yn adrodd yn goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon – caniatâd cynllunio eto i'w sicrhau. Fel rhan o'r cyngor cyn cynllunio argymhellwyd fod angen arolygon ystlumod ar dir tu allan i ffin Glynllifon, mae hyn yn cael ei weithredu ond gallai ohirio'r prosiect hyd at flwyddyn.

| |
|---|
| ▪ Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol - gwaith ar ddatblygu'r prosiect wedi'i oedi yn sgil materion cyllid cyfatebol ac edrych am leoliadau amgen ar gyfer y prosiect. |

| **6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Bydd y Byrddau Rhaglen a’r Byrddau Prosiect yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer bob prosiect unigol. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â’r gwaith cyflawni. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| **Gweler 6.1 uchod** |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg** |
| **Gweler 6.1 uchod** |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| 7.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

2022-23 Chwarter 4

(Ionawr - Mawrth 2023)

Adroddiad Perfformiad

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

overnment
odraeth y DU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys yr Adroddiad

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio3

2. Perfformiad y Portffolio**Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol**Gwall! Dalennod heb ei diffinio.**

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel7

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo9

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth12

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel13

8. Diweddariad ar Gynnydd y Prosiectau16

9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202217

10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Mawrth 2023) 18

11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 202219

12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf20

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf21

# 1. Crynodeb Cyfarwyddwr Portffolio



Yn ystod y chwarter hwn lansiwyd ein proses ariannu'r Cynllun Twf i ddewis prosiectau newydd i ymuno â'r Cynllun Twf. Gyda £30 miliwn o gyllid cyfalaf ar gael, mae'r broses wedi ennyn diddordeb sylweddol ac wedi arwain at 26 o geisiadau cadarn yn dod i law. Wrth i ni symud ymlaen i'r broses asesu yn ystod y chwarter nesaf mae hyn yn gyfle gwych i ni **adnabod prosiectau a all sbarduno twf economaidd**, creu swyddi a denu buddsoddiad i'r rhanbarth yn ogystal â chyflawni ein dyhead ehangach i **adeiladu economi bywiog, cynaliadwy a gwydn** ar gyfer y Gogledd.

Ym mis Mawrth hefyd fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Achos Busnes Amlinellol arall ar gyfer ein prosiect Ynni Lleol Blaengar. Bydd y prosiect yn golygu y bydd cronfa £25miliwn yn cael ei sefydlu i fuddsoddi mewn prosiectau ynni glân a datgarboneiddio ledled y Gogledd. Mae hwn yn brosiect gwirioneddol gyffrous a fydd ar gael i fusnesau a sefydliadau trydydd sector ledled y rhanbarth i wneud cais amdano. Y cam nesaf yw caffael cynghorydd cronfa i gefnogi datblygiad y prosiect gyda'r nod o lansio'r gronfa ar ddechrau 2024.



Lansiodd prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter eu cyfle tendro gwerth £8.35 miliwn i ddylunio ac adeiladu'r ganolfan newydd a fydd yn cefnogi busnesau gweithgynhyrchu yn y rhanbarth i ddatgarboneiddio. Mae'r tendr yn gwahodd busnesau i gyflwyno ceisiadau i ddylunio ac adeiladu'r adeilad newydd ar safle Plas Coch, gan gynnwys gosod cyfleuster defnyddio hydrogen a phaneli ffotofoltaidd ynni adnewyddadwy.

Mae gan gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar argymhellion y Panel Adolygu Ffyrdd rai goblygiadau ar gyfer dau o'n prosiectau yn y rhaglen Tir ac Eiddo. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn Sir y Fflint, Wrecsam a Llywodraeth Cymru i ddeall y goblygiadau ar gyfer ein prosiectau Warren Hall a Phorth y Gorllewin.

Ar ôl cymeradwyo'r meini prawf dethol yn ystod y chwarter hwn byddwn yn lansio ein Her Ariannwr Hydrogen yn ystod y chwarter nesaf. Ein nod yw penodi mudiad neu gonsortiwm i ddatblygu a chyflwyno Hwb Hydrogen yn y rhanbarth a fydd yn cynnwys cyflenwi a defnyddio hydrogen. Bydd digwyddiad cyn-lansio ym mis Ebrill yn rhoi cyfle i ymgeiswyr posib ddysgu am y broses, gofyn cwestiynau a chyfrannu tuag at y gystadleuaeth derfynol.






**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | | Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio ym mis Hydref ac mae wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. |
| Piblinell Cyflawni | | Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei hadolygu a'i diweddaru fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi. Mae'r prosiectau bellach yn adrodd yn erbyn yr amserlen ddiwygiedig. Mae Cronfa Cyflawni Portffolio ar gyfer 2023-24 wedi'i sefydlu i gefnogi prosiectau aeddfed i symud i gyflawni y flwyddyn nesaf. |
| Llywodraethu | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | | Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i gwblhau gyda'r adroddiad yn cyflawni gradd hyder 'Ambr' ar gyfer y portffolio. |
| Adnoddau a Chapasiti | | Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i staffio'n llawn ar hyn o bryd, ond mae cyfran fawr o'r staff ar gontractau tymor penodol ac mae'r gyllideb refeniw ar ôl mis Mawrth 2024 yn heriol. |
| Cyllid | | Dyrannwyd cyfanswm o £2.09m o'r grant Cynllun Twf yn ystod 2023-24 a gysylltir yn bennaf â'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol a chostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. |
| Buddsoddiad | | Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | | Mae risgiau lefel portffolio o ran caniatâd ac oedi wedi cynyddu oherwydd materion lefel prosiect. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn risg uchel oherwydd chwyddiant parhaus, materion yn y gadwyn gyflenwi a chynnydd mewn costau adeiladu. Mae'r risg o amgylch capasiti yn parhau'n uchel oherwydd yr amser sy'n weddill ar gontractau tymor penodol y PMO a'r effaith y byddai colli staff yn ei chael ar gyflawni'r Portffolio |
| Monitro a Gwerthuso Buddion | | Cafodd y Strategaeth Gwireddu Buddion a Chynlluniau Monitro a Gwerthuso Portffolio eu hadolygu fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022, gyda newidiadau yn cynnwys modelau rhesymeg wedi'u diweddaru (sy'n adlewyrchu terminoleg fframwaith buddion y cytunwyd arnynt), drafftio cynlluniau buddion rhaglenni a chysylltiadau cliriach â chynlluniau buddion prosiect. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | Yn ystod y chwarter hwn, fe wnaethom hyrwyddo ceisiadau ar gyfer Cyllid y Cynllun Twf drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, erthyglau, digwyddiad ar-lein a thrwy gydweithio â rhanddeiliaid allweddol i rannu'r cyfle. Dangosodd y canlyniadau gyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol o bron i 200k, dros 700 o ryngweithiadau cyfryngau cymdeithasol a chyfeiriadau digidol, gan arwain at 27 o geisiadau cadarn am Gyllid y Cynllun Twf |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r cyntaf o ddau Achos Cyfiawnhad Busnes ar gyfer y prosiect DSP (ar gyfer gwariant blwyddyn 2) wedi'i gymeradwyo. Mae caffael ar gyfer dau o dri Lot o offer wedi bod yn llwyddiannus gyda'r trydydd i'w wneud yn gynnar yn Chwarter 1 2023-24<br>• Mae'r prosiect Ychydig % Olaf wedi cwblhau Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar y chwarter hwn. Penodwyd cefnogaeth gyfreithiol i gefnogi datblygiad y contract a'r dogfennau tendro cysylltiedig. Mae risg yn parhau ar y gyllideb fodd bynnag mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda DSIT Llywodraeth y DU i fireinio'r cwmpas ac mae cyllid ychwanegol yn cael ei geisio.<br>• Mae Achosion Amlinellol Strategol ar gyfer y Campws Cysylltiedig a Safleoedd Allweddol Cysylltiedig wedi'u drafftio i'w cymeradwyo ym mis Ebrill. Cynigiwyd ffordd bragmataidd ymlaen er mwyn lleihau'r amser ar gyfer y prosesau sicrwydd a chymeradwyo |

Tudalen 116



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Cyflawni | • BJC wedi cymeradwyo<br>• Recriwtio Rheolwr Ymelwa ar Dechnoleg<br>• Caffael offer blwyddyn 2 (2 o 3 Lot) | • Caffael offer terfynol blwyddyn 2 | (Green) | • Rheolwr Ymelwa ar Dechnoleg wedi'i recriwtio ym mis Mawrth i gefnogi'r gwaith o ymgysylltu â'r diwydiant a chwilio am gyllid. Caffael wedi dechrau a bwriedir ei gwblhau ym Ch1 23/24 |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar wedi'i gwblhau<br>• Cefnogaeth gyfreithiol wedi'u penodi ac mae gwaith wedi dechrau ar ddrafftio dogfennau contract terfynol a manylebau caffael. | • Dogfennau caffael a chontractau wedi'u cwblhau<br>• Lansio caffael | (Amber) | • Prif risg ar gost yn parhau gyda gwaith ym mis Ebrill i fireinio rhagor ar y cwmpas a cheisio sicrhau cyllid ychwanegol |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddrafftio a'i gyflwyno i'r byrddau prosiect | • Achos Amlinellol Strategol / Achos Cyfiawnhad Busnes i'w cyflwyno am gymeradwyaeth<br>• Drafftio Achosion Busnes Amlinellol | (Green) | • Achosion Amlinellol Strategol yn awr wedi'u drafftio am gymeradwyaeth.<br>• Proses sicrwydd a chymeradwyaeth wedi'i symleiddio wedi'i chynnig er mwyn dwyn ymlaen y gwaith o gwblhau'r achosion busnes. |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Achosion Amlinellol Strategol a Chyfiawnhad Busnes wedi'u drafftio a'u cyflwyno i'r byrddau prosiect | • Achos Amlinellol Strategol / Achos Cyfiawnhad Busnes i'w cyflwyno am gymeradwyaeth<br>• Drafftio Achosion Busnes Amlinellol | (Green) | • Achosion Amlinellol Strategol yn awr wedi'u drafftio am gymeradwyaeth.<br>• Proses sicrwydd a chymeradwyaeth wedi'i symleiddio wedi'i chynnig er mwyn dwyn ymlaen y gwaith o gwblhau'r achosion busnes. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Green) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Amber) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Red) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Ynni Lleol Blaengar:** Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Prosiect yn symud ymlaen i gaffael cynghorydd cronfa cyn cyflwyno Achos Busnes Llawn<br>• **Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth:** Derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer y broses ddethol er mwyn penodi ariannwr ac i lansio'r broses yn ystod Ch1 23/24. Teitl y broses yw Her Ariannwr Hydrogen<br>• **Egni:** Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gais i newid i dynnu Cam 2 Prosiect Egni yn ôl o'r Cynllun Twf a gwneud Cam 1 (M-Sparc) yn unig ffocws y Prosiect. Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ystyried ym mis Mai 2023.<br>• **Cydnerth (Morlais)**: Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau ar gyllideb ac ar amserlen. Bydd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer gwaith a ariennir drwy'r Cynllun Twf yn cael ei ddatblygu cyn y targed o gael cymeradwyaeth ym mis Medi 2023.<br>• **Trawsfynydd:** Mae opsiynau ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol a'r defnydd o gyllid y Cynllun Twf yn cael eu hystyried. Nod Cwmni Egino yw cwblhau'r cynnig busnes ar gyfer cam cyntaf y cynllun datblygu tri cham ehangach, gan gynnwys amserlenni, amcangyfrif o gostau a strategaeth fuddsoddi erbyn mis Ebrill 2023.<br>• Datblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar y gweill ar gyfer holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru |





Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydnerth (Morlais)**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais yn parhau ar gyllideb ac ar amserlen.<br>• Datblygu Achos Busnes Amlinellol a chyflwyno gweithdy achos strategol.<br>• Menter Môn Morlais yn gweithio gyda datblygwyr llanw i baratoi cyflwyniadau ar gyfer y Contractau ar gyfer Gwahaniaeth Arwerthiant Rownd 5. | • Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol a gweithdai cysylltiedig.<br>• Paratoi ar gyfer adolygiad Porth ym mis Gorffennaf 2023.<br>• Yr Achos Busnes Llawn i'w gyflwyno i'w ystyried gan ein Byrddau o ddiwedd Gorffennaf hyd Awst. | | • Sgôr wedi'i ddiwygio o wyrdd i ambr oherwydd costau prosiect cynyddol ac oedi i dargedu cymeradwyaeth Achos Busnes Amlinellol o fis Gorffennaf i fis Medi. |
| **Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer y broses ddethol er mwyn penodi ariannwr ac i lansio'r broses yn ystod Ch1 23/24. Teitl y broses yw Her Ariannwr Hydrogen.<br>• Digwyddiad briffio partneriaid y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi'i gynnal yn ystod mis Mawrth. | • Cynnal digwyddiad briffio cyn lansio ar gyfer Her Ariannwr Hydrogen ac ymgynghori â'r diwydiant a'r llywodraeth ar y gystadleuaeth arfaethedig. | | • Mae'r sgôr ambr yn adlewyrchu'r risg y gallai'r broses gystadleuol i benodi ariannwr fod yn hirach na'r disgwyl. |
| **Egni**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gais i newid i dynnu Cam 2 Prosiect Egni yn ôl o'r Cynllun Twf a gwneud Cam 1 (M-Sparc) yn unig ffocws y Prosiect.<br>• Cwblhau Adolygiad Porth gyda sgôr ambr<br>• Cadarnhawyd yr Achos Busnes Amlinellol gan y Bwrdd Rhaglen Ynni | • Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol ym mis Ebrill a Mai<br>• Paratoi ar gyfer y broses gaffael | | • Sgôr wedi'i ddiwygio o goch i ambr yn dilyn cymeradwyo cais newid prosiect a datblygu Achos Busnes Amlinellol |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cwblhau Adolygiad Porth gyda sgôr ambr<br>• Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd | • Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r broses sicrwydd<br>• Ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar gyda chynghorwyr cronfa posib<br>• Caffael cynghorydd cronfa ac ymgynghorydd i gynorthwyo gyda'r Achos Busnes Llawn<br>• Paratoi'r Achos Busnes Llawn | | • Sgôr wedi'i ddiwygio o ambr i wyrdd yn dilyn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol ar amser. Prosiect ar drac ar gyfer Achos Busnes Llawn yn ystod Ch3 23/24 |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Ymgysylltu'n gynnar ag arweinwyr Great British Nuclear<br>• Strategaeth Gwerth Cymdeithasol wedi'i datblygu ac o dan ymgynghoriad â rhanddeiliaid<br>• Parhau i ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar gyda phartïon â diddordeb a chyflenwyr posib | • Parhau i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol drafft.<br>• Cwblhau cynnig busnes ar gyfer cam cyntaf cynllun datblygu tri cham ehangach a chynllun y prosiect, gan gynnwys amserlenni, amcangyfrif o gostau a strategaeth fuddsoddi ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Uchelgais Gogledd Cymru) | | • Gradd Ambr yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch amserlen cyflawni prosiectau a'r posibilrwydd o oedi pellach. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • **Warren Hall, Brychdyn -** mae argymhellion Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r safle yn cael eu hystyried.<br>• **Porth y Gorllewin, Wrecsam** - mae argymhellion Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r safle yn cael eu hystyried.<br>• **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** - mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u hymgynghorwyr Avison Young bellach yn y broses o symud y prosiect i gyflawni yn dilyn y penderfyniad i ddarparu cyllid ychwanegol o'r Cynllun Twf<br>• **Porth Caergybi** - Dyfarnwyd £20m o gyllid i Borthladd Caergybi ar gyfer y morglawdd ac hefyd dyfarnwyd dynodiad Porthladd Rhydd Cymru<br>• **Parc Bryn Cegin, Bangor** - Cymeradwywyd y briff tendro ar gyfer penodi'r tîm proffesiynol o ymgynghorwyr ac mae Llywodraeth Cymru am hysbysebu ar eu fframwaith ymgynghorwyr Canolbarth a Gogledd Cymru. |





Y Cynghorydd Jason McLellan
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| **Prosiect** (Ariannwr y Prosiect) | **Cam y Prosiect** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn)** | **Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf)** | **Statws RAG** | **Rhesymeg RAG** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Roedd yr Adroddiad Adolygiad Ffyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror wedi argymell na ddylai cynllun Cyffyrdd 3 i 6 Ffordd Osgoi'r A483 fynd yn ei flaen gan nad yw'r achos dros newid yn cyd-fynd yn dda â nod Llywodraeth Cymru i leihau milltiredd ceir ac osgoi cynnydd yn y defnydd o geir ac allyriadau carbon<br>• Gallai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cymorth ar gyfer dull arall o greu datblygiad preswyl a chyflogaeth enghreifftiol sydd â lefelau isel o ddefnydd ceir | • Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Wrecsam.<br>• Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam.<br>• Mae'r Cyngor wedi comisiynu Astudiaeth Ddichonoldeb i ddarparu Cynllun Meistr i asesu sut gellir datblygu'r safle yn unol ag argymhelliad y Panel ar gyfer adolygiad ledled y dref o drafnidiaeth gynaliadwy<br>• Cynnydd gyda Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chynghorau ar gyfer cynllun buddsoddi ffosffad ar gyfer Peiriannau Triniaeth. | | • Argymhelliad y Panel Adolygiad Ffyrdd yw na fydd uwchraddiadau cyffordd A483 yn mynd yn eu blaen.<br>• Mae gan Strategaeth Lleihau a Lliniaru Ffosffad a buddsoddiad peiriannau triniaeth bellach ffordd bosibl ymlaen.<br>• Astudiaeth Ddichonoldeb Uwchgynllun Tref Wrecsam ar gyfer datrysiad trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer safle Porth y Gorllewin. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Gwnaeth Adroddiad y Panel Adolygiad Ffyrdd argymhelliad i Lywodraeth Cymru ystyried a fyddai datblygiad y safle yn gydnaws â chyflawni ei nodau o amgylch shifft moddol a datgarboneiddio<br>• Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint ym mis Ionawr 2023 | • Ymgysylltu â LIC a CSFf am argymhelliad y Panel i gyflwyno'r polisi CDLl o amgylch trafnidiaeth gynaliadwy a datblygu economaidd er mwyn galluogi datblygu'r safle i fwrw ymlaen | | • Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Ionawr 2023<br>• Argymhelliad y Panel Adolygiad Ffyrdd i Lywodraeth Cymru ynghylch a ddylid datblygu'r safle yn eu perchnogaeth |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd gymeradwyo dyfarnu £3m yn ychwanegol o Gronfa Cyflawni'r Portffolio.<br>• Mae'r Bwrdd Cyflawni Prosiectau wedi dechrau cyfarfod. Materion sydd bellach yn cael eu trafod/ symud ymlaen yw cynllunio (amodau a chydsynio), datblygu achosion busnes, costau diwygiedig a chyflwyno'r gwaith yn raddol. | • Cadarnhau llwybr caffael sy'n cydymffurfio i gyflawni gwaith Cam 1.<br>• Cwblhau diwygio'r achos busnes amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Graddol a'r llwybr caffael.<br>• Cael cyngor cymorth cymhorthdal gan ymgynghorwyr allanol. | | • Statws wedi'i ddiwygio i wyrdd yn dilyn cadarnhad y dyfarniad o arian gan Gronfa Cyflawni'r Portffolio.<br>• Mae llwybr caffael ar gyfer Cam 1 yn gweithio gan ddefnyddio arian cyhoeddus.<br>• Cydymffurfiaeth Asesu Cymorth Cymhorthdal. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae drafft cychwynnol o Achos Busnes Amlinellol a baratowyd gan y PMO wedi'i gwblhau i bob pwrpas.<br>• Cynhaliwyd gweithdy Achos Strategol ac Economaidd gyda Rhanddeiliaid i gymeradwyo'r dewis o'r ffordd ymlaen a ffefrir<br>• Cytunwyd ar fríff tendro Llywodraeth Cymru i benodi'r tîm proffesiynol gan Uchelgais Gogledd Cymru | • Tendr Llywodraeth Cymru er mwyn penodi'r tîm proffesiynol o'u fframwaith gwasanaethau proffesiynol a thechnegol Gogledd a Chanolbarth Cymru<br>• Adolygiad Porth 2 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol.<br>• Diweddaru i achos Busnes yn dilyn adborth gan ymgynghorwyr economaidd | Gwyrdd | • Galw posibl gan feddianwyr<br>• Tirfeddiannwr parod a phartner datblygu<br>• Defnydd arfaethedig sy'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio.<br>• Dull menter ar y cyd i gyflawni'r prosiect bellach yn symud ymlaen yn ymarferol. |
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Roedd cwmni Stena Line a Chyngor Ynys Môn yn llwyddiannus yn eu cais porthladdoedd rhydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.<br>• Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi £20m ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r morglawdd. Mae hyn yn ddibyniaeth hanfodol ar gyfer buddsoddiad y porthladd. | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyflawni'r gwaith o wella capasiti'r porthladdoedd.<br>• Disgwylir y penderfyniad ar y Gorchymyn Adolygu Harbwr y chwarter hwn<br>• Adolygiad Porth 2 ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol.<br>• Cyngor cymorth cymhorthdal gan Pinsent Masons | Ambr | • Gorchymyn Adolygu Harbwr yn disgwyl caniatâd.<br>• Cadarnhau sicrwydd costau ar waith ehangu'r porthladd<br>• Ymrwymiad cyllido Llywodraeth y DU i adnewyddu'r morglawdd<br>• Ymrwymiad cytundebol ynni ar y môr i indemnio'r risg o gostau ehangu'r porthladd |

Tudalen 122

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Ambr | • **Rhwydwaith Talent Twristiaeth -** Cwblhaodd Grŵp Llandrillo Menai ddrafft o'u Hachos Busnes Amlinellol ym mis Chwefror a'i rannu i'w adolygu gan dîm Sicrhau Llywodraeth Cymru ar gyfer Adolygiad Porth 2 ym mis Chwefror 2023. Daeth yr Adolygiad Porth i ben gyda sgôr Ambr, sy'n golygu bod y prosiect ar y trywydd iawn i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ystyried yr Achos Busnes Amlinellol terfynol ym mis Gorffennaf 2023.<br>• **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon -** Derbyniodd yr ymgynghoriad ar gyfer y cais cyn cynllunio ar gyfer y prosiect ymatebion cefnogol yn gyffredinol gan randdeiliaid, gan gydnabod ei arwyddocâd i'r rhanbarth a'r arolygon amgylcheddol a threftadaeth helaeth a gynhaliwyd eisoes. Fodd bynnag, gofynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW am arolygon ychwanegol allai arwain at oedi o hyd at flwyddyn i'r prosiect. Mae Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai yn parhau i fod yn hyderus y bydd y prosiect yn cynnig y buddion a ragwelir i'r rhanbarth tra'n diogelu bioamrywiaeth eithriadol y safle, gyda'r dadansoddiadau ychwanegol a gomisiynwyd ar unwaith |





**Cyng Charlie McCoubrey**
**Aelod Arweiniol**

**Uwch Berchennog Cyfrifol**
**(i'w gadarnhau)**



**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • £2m yn cael ei ddyfarnu o Gronfa Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â bwlch ariannu a bydd cyllid o £2m gan Grŵp Llandrillo Menai yn cyfateb<br>• Daeth cyngor cyn cynllunio i ben ar 8 Mawrth gydag adborth rhanddeiliaid yn bennaf gefnogol i'r prosiect. Cyngor ar gyfer rhagor o arolygon ystlumod ar dir y tu allan i ffin Glynllifon yn gweithredu ar unwaith ond gallai ohirio'r prosiect hyd at flwyddyn<br>• Mae Grŵp Llandrillo Menai ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio ar Fframwaith prosiect cyfalaf newydd ar gyfer caffael. Mae hwn bellach yn fyw a chaiff ei ddefnyddio ar gyfer caffael prosiectau y flwyddyn nesaf | • Parhau â gwaith arolwg pellach<br>• Drafftio'r Achos Busnes Llawn.<br>• Cydweithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu a dechrau gweithredu cynllun cyfathrebu rhanddeiliaid | | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi gyda'r prosiect a chan nad yw caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau eto |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>Coleg Cambria | *Mae prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i dynnu'n ôl. Mae prosiect newydd yn cael ei adnabod drwy'r Gronfa Prosiectau Newydd.* | | | | |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol ar ffurf ddrafft ac roedd y camau gweithredu/strategaeth i gwblhau'r OBC yn destun Adolygiad Porth 2 - y Sgôr Hyder Cyflawni oedd AMBR.<br>• Cafodd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai ei lofnodi i helpu lliniaru risg yn ymwneud â'r prosiect 'lloerennau'<br>• Cymryd rhan yn y gwaith o ddysgu â chymorth mewn hyfforddiant allyriadau carbon i ystyried sut y bydd y prosiect yn lleihau allyriadau carbon yn erbyn targedau Uchelgais Gogledd Cymru | • Mae cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol terfynol (OBC) a dogfennau ategol perthnasol yn cael ei baratoi gan ragweld cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Gorffennaf 2023<br>• Gweithio gyda'r PMO er mwyn datblygu cytundeb ariannu yn benodol i'r prosiect. | | • Mae trafodaethau ym mis Chwefror ynglŷn ag amseru cyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer yr Hwb wedi symud yn ôl i Ambr. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** - mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn paratoi'r Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect i'w ystyried gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Tachwedd 2023.<br>• **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol** - Mae Prifysgol Bangor wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio i ddatrys newidiadau i elfen arian cyfatebol y prosiect, ac ar hyn o bryd maent yn cwblhau cais i newid i fynd i'r afael â newid mewn lleoliad y Ganolfan a newid yn y lefelau cyllido cyfatebol. |

Cyng Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Paul Bevan
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Cyflwyno cais llwyddiannus am £1.7m o Gronfa Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â'r bwlch ariannu a fydd yn cael ei gyfateb gan gyllid o £1.7m gan Brifysgol Glyndŵr.<br>• Cyhoeddwyd y gwahoddiad i dendro am ddylunio ac adeiladu'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter | • Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendr ar gyfer caffael offer opteg<br>• Datblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Tachwedd 2023<br>• Prosiect ar drac ar gyfer cychwyn ar y safle Chwefror 2024 | | • Mae'r prif broblemau gyda'r prosiect wedi'u datrys ynghylch y gost a'r amser |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Cyfiawnhad Busnes | • Wedi cyflwyno cais i newid drafft i'r Swyddfa Rheoli Portffolio i newid lleoliad y Ganolfan i safle Ymchwil Henfaes Prifysgol Bangor<br>• Cynnal Bwrdd Rhaglen Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel ym mis Mawrth ar safle Henfaes i ddangos potensial y safle i randdeiliaid | • Cyflwyno'r cais i newid terfynol erbyn canol mis Ebrill 2023.<br>• Cyflwyno Achos Cyfiawnhad Busnes (plus) i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ym mis Medi 2023<br>• Cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer safle Henfaes | | • Mae'r sgôr yn parhau i fod yn goch oherwydd oedi dro ar ôl tro mewn prosiectau ac effaith cais newid cyllid cyfalaf ar Amcanion Gwariant y Rhaglen. Sgôr yn parhau'n goch oherwydd oedi parhaus y prosiect ac effaith ceisiadau i newid ar gyllid cyfatebol a newid lleoliad ar Amcanion Gwariant y Rhaglen |




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 8. Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| Prosiect | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynlluni o llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd-destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Approval of the Full Business Case | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | |
| Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Yr Ychydig % Olaf | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Cydnerth (Morlais) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Trawsfynydd | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Egni | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen) | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Porth Caergybi, Ynys Môn | Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi'i gyflwyno a Thrwydded Morol wedi'i rhoi | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Porth y Gorllewin, Wrecsam | Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Neuadd Warren, Brychdyn | ⏱ | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin, Bangor | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Hwb Economi Wledig Glynllifon | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Canolfan Opteg a Pherianneg Menter | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |

# 9. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2022




| Thema | Prosiect | OBC | Dechrau ar y Safle | Cwblhau Prosiect |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Complete | Ion-22 | Rhag-25 |
| | Coridorau Cysylltiedig | Tach-23 | Awst-24 | Maw-26 |
| | Campysau Cysylltiedig | Maw-24 | Rhag-24 | Maw-26 |
| | Yr Ychydig % Olaf | Complete | Rhag-23 | Rhag-24 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Gorff-23 | Meh-24 | Meh-26 |
| | Egni | Maw-23 | Ion-24 | Rhag-25 |
| | Trawsfynydd | Hyd-23 | Ion-25 | Ebr-31 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Ebr-24 | Mai-25 | Mai-30 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Complete | Ion-24 | Ion-29 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi, Ynys Môn | Gorff-23 | Ion-24 | Medi-25 |
| | Neuadd Warren, Brychdyn | Maw-24 | Maw-25 | Maw-26 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych | Gorff-23 | Ion-24 | Rhag-24 |
| | Parc Bryn Cegin, Gwynedd | Gorff-23 | Mai-24 | Chwef-25 |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Medi-24 | Awst-25 | Medi-26 |
| Arloesi Mewn Gweithgynhyrchu Uwch | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Gorff-23 | Ion-24 | Ion-25 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Complete | Chwef-24 | Ebr-25 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Complete | Hyd-23 | Rhag-24 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Medi-23 | Ebr-24 | Ion-26 |

- Cyfnod Datblygu a Chymeradwyo Achos Busnes (Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol cyn caffael)
- Cam Caffael a Chyflawni Prosiect (Yn cynnwys cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar ôl caffael)
- Dechrau ar y Safle
- Cyfnod Gweithredol a Gwireddu Manteision

# 10. Tabl Olrhain - Trosolwg o gyflawni (Rhagfyr 2022)

| | | Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020 | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | -38 | - 47 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4.0 | OBC | 15 | 130 | 4.0 | -20 | -20 | 0 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | 45 | 120 | 9.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | 50 | 100 | 36 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Egni | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | OBC | 122 | 174 | 106 | +2 | -6 | 0 |
| | Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | OBC | 33 | 61 | 14.7 | -12 | -9 | -15.2 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | | 2,185 | 3,830 | 1,146 | OBC<br>1 FBC | 227 | 494 | 140.7 | -48 | -26 | -19.5 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio

** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn

*** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.

# 11. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Cyllideb Cyfalaf 2023/24

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 £m * | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m | 2031/32 £m | 2032/33 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.39 | 0.79 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 1.21 | 1.72 | 1.24 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 0.50 | 4.00 | 2.00 | 2.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 10.10 | 4.93 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 1.63 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 2.96 | 4.92 | 9.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.19 | 1.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 1.74 | 5.21 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 4.17 | 15.51 | 14.79 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 1.62 | 6.93 | 3.00 | 0.17 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.25 | 1.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| **I'w gadarnhau** | **Prosiect(au) newydd** | **I'w cadarnhau** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **4.90** | **4.90** | **4.90** | **4.95** | **4.95** | **4.95** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **29.55** |
| | | | | | | | | | | | | | | Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%) | 3.60 |
| | | | | | | | | | | | | | | Cyfanswm | 240.00 |

** proffil 2021/22 yw'r gwariant gwirioneddol. Mae'r proffil sy'n weddill fel y rhagwelwyd yng Nghyllideb Cyfalaf 2023/24.*

**** Targedau ar gyfer y prosiect sydd wedi'i dynnu'n ôl yn dal wedi'u cynnwys fel rhan o gyfanswm targedau'r Cynllun Twf.*

# 12. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf



| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 22/23 (£m) | YTD Gwirioneddol (£m) | Amrywiad (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 1.7 | 1.66 | -0.04 | Gwariant 2022-23 yn unol â'r proffil. Dau hawliad wedi'u proses, ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2022. Un hawliad yn weddill ddechrau 2023. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Egni | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2022 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | **0.56** | **0.28** | **-0.28** | |
| | | **Cyfanswm** | **2.26** | **1.94** | **-0.32** | **Gweler uchod** |

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2022) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD yn seiliedig ar y sefyllfa ddiwedd blwyddyn.

# ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf



| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Nod y prosiect yw ceisio gwella dibynadwyedd ac ansawdd gwasanaethau symudol ar y prif ffyrdd a rheilffyrdd yn y Gogledd, gan alluogi gwasanaethau ffibr llawn i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth. Canolbwyntio ar ddatblygu rhwydweithiau ffibroptic sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit. |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | Buddsoddi mewn seilwaith i gysylltu â rhwydwaith y National Grid a monitro effeithiau amgylcheddol morol. Bydd hyn yn galluogi cynnydd yn y defnydd o dyrbinau gan ddatblygwyr morol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella gallu y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | *Mae prosiect safle Strategol Allweddol Bodelwyddan wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.* | | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | *Mae prosiect Fferm Sero Net Llysfasi wedi'i dynnu'n ôl. Nid oes prosiect newydd yn ei le wedi'i adnabod eto.* | | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Mehefin, 2023** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2023/24<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2023/24 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati.

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |

| |
|---|
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2023→ Ebrill, 2024**
**[Fersiwn dyddiedig 09/06/23]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2023 (23/05/23)** | **Mai, 2023 (23/05/23)** |
| Ethol Cadeirydd: 2023/24 | Ethol Cadeirydd: 2023/24 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 | Ethol Is-gadeirydd: 2023/24 |
| | |
| **Mehefin, 2023 (20/06/23) – Ch4** | **Mehefin, 2023 (21/06/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2022/23 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2022/23 → Mesur Cynnydd<br>• Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg |
| Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | Cynllun Rheolaeth Cyrchfan |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Ch 4 2022/23 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Medi, 2023 (19/09/23) – Ch1** | **Medi, 2023 (19/09/23) - Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2023/24 | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2022/23 | Strategaeth Gwastraff ac Ail-gylchu: 2023/2028 (i'w gadarnhau) |
| | Strategaeth Gwella Trefi Ynys Môn |

| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Hydref, 2023 (18/10/23)** | **Hydref, 2023 (17/10/22)** |
| | |
| | |
| | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2022/23 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Tachwedd, 2023 (21/11/23) - Ch2** | **Tachwedd, 2023 (22/11/23) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2023/24 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2022/23 |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol:2023/2028 (i’w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2022/23 |
| Strategaeth Tai Gwag: 2023/28 | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2022/23<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ionawr, 2024 (18/01/24) – Cyllideb 2024/25** | **Ionawr, 2024 (16/01/24)** |
| Sefydlu Cyllideb 2024/25 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid | Adroddiadau Cynnydd Ch2: 2023/24 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Strategaeth Rheoli Asedau (Gwasanaeth Tai) | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| **Chwefror, 2024 (27/02/24) – Cyllideb 2024/25** | **Chwefror, 2024 (06/02/24) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2024/25 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Mawrth, 2024 (12/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2024 (13/03/24)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2023/24 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2022/23 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2024/2054 | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |
| **Ebrill, 2024 (16/04/24)** | **Ebrill, 2024 (17/04/2024)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Strategaeth Gwasanaethau Clinigol |
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 (Mehefin, 2024) |